




Ministry
of Justice

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol - Y Camau Nesaf: Ymateb y Llywodraeth

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 27 Chwefror 2014





**Ministry
of Justice**

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol - Y Camau Nesaf: Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Rhagair y Gweinidog	4
Cyflwyniad	6
Ymateb i'r ymgynghoriad	8
Egwyddorion ymgynghori	25
Atodiad A – Geirfa	26
Atodiad B – Crynodeb o'r ymatebion	31
Atodiad C – Crynodeb o'r model caffael terfynol	53
Atodiad D – Dosbarthiadau o waith cymorth cyfreithiol troseddol	72
Atodiad E – Ffioedd Graddedig Adfocadau	75
Atodiad F – Taliadau Interim	78
Atodiad G – Datganiad Cydraddoldeb	81

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: - Y Camau Nesaf.

Bydd yn ymdrin â:

- cefndir i'r adroddiad
- penderfyniadau'r Llywodraeth
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- cynlluniau ar gyfer gweithredu.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu ag **Annette Cowell** yn y cyfeiriad isod:

Annette Cowell

**Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ**

Ffôn: 020 3334 3555

E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Bydd papur ymatebion Cymraeg ar gael ar-lein maes o law yn yr un cyfeiriad ar y we.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen o LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair y Gweinidog



Mae sicrhau bod y rhai a gyhuddir o drosedd â hawl i amddiffyniad yn rhan hanfodol o'n system gyfiawnder. Yr wyf yn benderfynol o gynnal yr egwyddor honno a diogelu mynediad at gyfiawnder. Mae cymorth cyfreithiol yn gwarantu amddiffyniad i'r rhai nad ydynt yn gallu ei fforddio, a bydd hynny'n parhau. Yn yr un modd, yr wyf yn credu ei bod yn iawn wrth gynnal yr egwyddor honno ein bod yn sicrhau bod buddiannau trethdalwyr yn cael eu diogelu'n briodol gan Lywodraeth sy'n sicrhau arbedion angenrheidiol i leihau'r diffyg, ac sy'n ceisio system cyfiawnder troseddol mwy effeithlon, gan gynnwys cymorth cyfreithiol. Dyna'r hyn y bwriedir i'r cynlluniau yn y ddogfen hon eu gwneud, a hyd yn oed ar ôl y newidiadau rydym yn eu gwneud, byddwn yn dal i fod ag un o'r systemau cymorth cyfreithiol mwyaf hael yn y byd.

Fel y gwyddoch mae'r Llywodraeth hon yn delio â her ariannol ddigynsail, ac nid oes gennyf ddewis ond ceisio sicrhau arbedion ar draws ystod lawn gwaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Erbyn 2015/16 bydd cyllideb yr adran wedi cael ei gostwng o tua un rhan o dair mewn termau real ac, fel un o'n meysydd gwariant mwyaf, ni allaf eithrio cymorth cyfreithiol. Ni all dim newid y realiti ariannol, ac felly mae'r gostyngiadau ffioedd rydym yn eu cyhoeddi, yn dilyn ymgynghori, yn hanfodol. Fodd bynnag, yr wyf yn deall pa mor anodd y byddant i rai. Am y rheswm hwnnw, fel yr ydym yn symud yn awr at weithredu'r newidiadau, yr wyf wedi gwneud popeth y gallaf i leddfu eu heffaith, ac i gefnogi'r proffesiynau cyfreithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Yr wyf yn arbennig o awyddus ein bod yn gwella effeithlonrwydd y system gyfan, er mwyn lleihau faint o amser a gaiff ei wastraffu a'r gwaith y mae angen ei wneud gan ymgyfreithwyr ac adfocadau yn gyfnewid am y ffioedd a dderbynnir. Yr wyf wedi cytuno â'r Arglwydd Brif Ustus fod Syr Brian Leveson, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, yn ymgymryd ag adolygiad o achosion troseddol er mwyn nodi ffyrdd i'w lleihau a'u symleiddio. Fel rhan o hyn, bydd yn ystyried sut i ostwng gymaint â phosibl nifer y gwrandawiadau cyn-treial sydd angen cyfreithwyr i deithio a mynychu llys. Rydym hefyd yn adeiladu ar ddiwygiadau cyfiawnder troseddol diweddar a buddsoddi mewn digideiddio trwy gyflymu'r broses o gyflwyno Wi-Fi a thechnoleg newydd ar draws yr ystâd Llys.

Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn adolygu cynaliadwyedd y newidiadau rydym yn eu gwneud, i gontractau ymgyfreithwyr a'r cynllun adfocatiaeth. Bydd y Llywodraeth yn adolygu y rhain flwyddyn ar ôl gweithredu'r trefniadau newydd priodol. Yr wyf hefyd am ei gwneud yn glir na fydd y Llywodraeth hon yn ceisio sicrhau arbedion pellach gan gymorth cyfreithiol troseddol.

Yr ydym wedi cael trafodaethau dwys gyda Chymdeithas y Gyfraith, ac wedi ystyried llawer o'u prif ofnyion sy'n ymwneud â chontractau ymgyfreithwyr. Bydd hyn yn galluogi i bob un o'r darparwyr hynny sy'n bodloni'r safon ansawdd aros yn y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol, a bydd yn caniatáu i'r uchafswm o ddarparwyr bach a mawr gymryd rhan mewn ymgeisio am gontractau dyletswydd. Rydym hefyd wedi cytuno ar becyn pontio o gefnogaeth sydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnig gwarantau llywodraeth o gyllid masnachol i gwmnïau cyfraith sy'n ceisio graddio'i fyny.

Ar gyfer adfocadau ac ymgyfreithwyr, yr ydym yn sefydlu system o daliadau interim, fel y gall cyfreithwyr gael eu talu'n rhannol ymlaen llaw mewn treialon hirach. Yr wyf yn gobeithio y bydd hyn yn lliniaru effaith gostyngiadau ffioedd drwy gyflymu'r taliadau a gwella llif arian.

A thra bod fy Adran angen gwneud gostyngiadau mewn ffioedd ar draws y bwrdd, yr ydym yn adfer y ffioedd treialon chwâl ar gyfer achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sy'n chwalu oherwydd nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif. Mae hyn yn golygu na fydd cyfreithwyr yr

amddiffyniad bellach ar eu colled yn ariannol pan fo achos yn chwalu am y rheswm hwn, mewn amgylchiadau sydd tu hwnt i'w rheolaeth.

Er bod gwneud gostyngiadau ffioedd yn anochel, yr wyf yn gobeithio ei bod yn glir ein bod wedi gwrandao ar y proffesiynau lle bynnag y gallwn, gan gymryd camau cadarn i leddfu effaith y newidiadau rydym yn eu gwneud ac i sicrhau eu bod yn gynaliadwy. Wrth i ni weithredu'r diwygiadau hyn, mae fy adran yn parhau i fod yn agored i bob awgrym gan y proffesiynau ynglŷn â pha gamau pellach y gallwn eu cymryd i sicrhau fod newid yn haws i'w reoli.

Mae'r diwygiadau hyn yn heriol, ond maent yn angenrheidiol. Maent yn diogelu mynediad at gyfiawnder, ac maent yn amddiffyn y trethdalwr. Yr wyf yn credu mai hwn yw'r canlyniad gorau y gallem fod wedi ei gyflawni o dan yr amgylchiadau, ac rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r proffesiynau wrth i ni symud ymlaen.



Chris Grayling
Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad

1. Pan ddaeth y Llywodraeth i rym yn 2010, ymrwymodd i gynnal adolygiad sylfaenol o'r cynllun cymorth cyfreithiol i wneud iddo weithio'n fwy effeithlon. Wrth i faint yr her i ddileu'r diffyg ddechrau dod i'r amlwg, roedd yr angen i ostwng cost cymorth cyfreithiol yn dod yn fwyfwy amlwg, gan ei fod yn faes pwysig o wariant i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ni allai osgoi'r penderfyniadau anodd ac weithiau poenus a wynebwyd gan weddill gwariant cyhoeddus.
2. Dechreuodd y Llywodraeth archwilio'n benodol pa feysydd o gyfraith sifil y dylid eu blaenoriaethu i'w hariannu drwy'r cynllun cymorth cyfreithiol. Ein nod yr adeg honno, fel yn awr, oedd sicrhau bod arian cyhoeddus cyfyngedig yn cael ei dargedu ar yr achosion a phobl sydd fwyaf angen cymorth, lle gellir gwirioneddol gyfiawnhau'r cyllid. Mae'r amcan hwn nid yn unig yn sicrhau tegwch - i bobl sy'n derbyn cymorth cyfreithiol a'r trethdalwyr sy'n ariannu'r cynllun - ond mae hefyd yn helpu diogelu hyder y cyhoedd yn y cynllun, drwy sicrhau bod y rhai sy'n talu amdano yn gweld bod eu harian yn cael ei ddefnyddio'n dda.
3. Canlyniad yr adolygiad cynnar oedd y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO) a oedd yn targedu cymorth cyfreithiol yn yr achosion mwyaf difrifol oedd â digon o flaenoriaeth i gyfiawnhau'r defnydd o arian cyhoeddus tra'n symleiddio a chryfhau strwythur y cynllun. Dylai'r diwygiadau hyn, ynghyd â'r newidiadau i ffioedd a delir i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a throseddol a wnaed ym mis Hydref 2011, gyflawni arbedion o ryw £320m y flwyddyn yn 2014-15.
4. Nid oedd y diwygiadau hyn, er yn sylweddol, yn ddigon i gadw i fyny â'r pwysau parhaus ar arian cyhoeddus, ac roeddem yn glir yn yr ymgynghoriad Diwygio Cymorth Cyfreithiol mai gweledigaeth tymor hir y Llywodraeth i gymorth cyfreithiol troseddol oedd ymgynghori ar fodel o dendro cystadleuol. Roedd rhaid cael arbedion pellach gan garchardai, y gwasanaeth prawf a'r llysoedd – yr un modd ag ar draws y Llywodraeth gyfan - ac unwaith eto, ni allai'r cynllun cymorth cyfreithiol gael ei eithrio. Er mai prif ffocws diwygiadau LASPO oedd y cynllun cymorth cyfreithiol sifil, bu ein prif ffocws y tro hwn ar y cynllun cymorth cyfreithiol troseddol sy'n costio tua £1 biliwn yn flynyddol. Canolbwyntiodd ein hymgynghoriad Ebrill 2013 ar yr angen i sicrhau bod gwariant yn gredadwy yng ngoleuni dull ehangach y Llywodraeth o ymdrin â gwariant cyhoeddus a diwygio economaidd, ac ar yr angen i sicrhau yn arbennig bod gwasanaethau amddiffyn troseddol yn cael eu darparu mewn ffordd gost-effeithiol gynaliadwy trwy strwythurau busnes a ffioedd mwy effeithlon.
5. Yr her a gafwyd wrth ddiwygio cymorth cyfreithiol troseddol oedd gostwng y costau i'r trethdalwr fel y gallwn fyw o fewn ein modd ac ar lefel sy'n gynaliadwy yn y tymor hir, tra'n sicrhau nad oes neb a gyhuddir o ymddygiad troseddol yn mynd heb gynrychiolydd o ansawdd da yn yr orsaf heddlu neu yn y llys.
6. Nid ydym yn honni y croesewir y newidiadau mewn caffael cymorth cyfreithiol troseddol gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol, ond wrth ddatblygu ein cynigion ar ôl gwrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud a chyda mantais o dros 18,000 o ymatebion i gyd i'r ymgynghoriad, yr ydym wedi cyrraedd penderfyniadau y credwn sy'n deg, yn ymarferol ac yn gynaliadwy yn ariannol.

7. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad cyn cyrraedd y penderfyniadau a nodir yn y ddogfen hon - arwydd o'n hymrwymiad i gael y penderfyniadau hynny yn iawn - ac mae wedi gwrandao'n astud ar farn y proffesiynau sy'n gwneud i'r system weithio.
8. Mae tystiolaeth o hyn yn glir o'n cynigion terfynol ar gaffael gwasanaethau ymglyfreitha troseddol. Rydym wedi symud yn bell oddi wrth ein model gwreiddiol a gyflwynwyd ym mis Ebrill, gan wneud newidiadau pwysig ac angenrheidiol a awgrymwyd gan yr ymatebwyr i ymarferion ymgynghori a thrwy ymgysylltu adeiladol â Chymdeithas y Gyfraith. Eto i gyd, rydym wedi cynnal ein prif nod, i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy drwy annog atgyfnerthu'r sylfaen darparwyr.
9. Wrth ymateb i geisiadau a wnaed gan ymgynghoreion mewn ymateb i'r model addasedig a nodwyd yn y *Camau Nesaf*, rydym wedi gwneud addasiadau pellach i'r peirianweithiau tâl ar gyfer gwaith gorsaf yr heddlu, llysoedd ynadon a Llys y Goron; a gwneud addasiadau pellach i'r ardaloedd caffael arfaethedig. Ar ôl gweithio'n helaeth gyda Chymdeithas y Gyfraith ers mis Medi, rydym hefyd wedi llacio'r cyfyngiadau ar y mathau o strwythur busnes derbyniol ar gyfer caffael, er mwyn creu mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn y tendr. Eto i gyd, rydym wedi cynnal rhai manteision allweddol y model addasedig, gan gynnig nifer digyfngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient tra'n sicrhau gwasanaeth Darparwr Dyletswydd cynaliadwy drwy redeg tendr cystadleuol nad yw'n seiliedig ar bris i nifer cyfyngedig o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd. Mae nifer o gontractau dyletswydd a gynigir wedi cael ei hysbysu gan yr ymchwil annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith.
10. Ynglŷn â ffioedd adfocatiaeth yn Llys y Goron, yr ydym yn symud ymlaen i weithredu opsiwn 2, a oedd yn seiliedig ar y cynnig a awgrymwyd i ni gan Gyngor y Bar. Mae opsiwn 2 yn fersiwn ddiwygiedig o gynllun presennol Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) a bydd yn symleiddio'r cynllun er budd adfocadau a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) fel ei gilydd.
11. Rydym hefyd yn adfer y ffioedd treialon chwâl ar gyfer achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sy'n chwalu oherwydd nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif. Mae hyn yn golygu na fydd cyfreithwyr yr amddiffyniad bellach ar eu colled yn ariannol pan fo achos yn chwalu am y rheswm hwn, mewn amgylchiadau sydd tu hwnt i'w rheolaeth.
12. Ein hamcangyfrifon diweddaraf yw y bydd arbediad o £215m y flwyddyn erbyn 2018/19 o ganlyniad i'r diwygiadau hyn a'r diwygiadau a nodwyd yn nogfen y *Camau Nesaf* ym mis Medi, gan ddod â chyfanswm cost y cynllun cymorth cyfreithiol i lawr i tua £1.5bn. Mae'r amcangyfrif hwn wedi newid o'r £220m a gyflwynwyd yn flaenorol oherwydd cynnydd yn y tâl i achosion naill ffordd neu'r llall nad ydynt yn mynd ymlaen oherwydd nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth, a'r cynnydd ffi sylfaenol uwch i fargyfreithwyr iau a arweinir. Mae hefyd wedi gostwng o ganlyniad i ddiweddarau'r dadansoddiad o'r newidiadau AGFS i adlewyrchu'r data achosion mwyaf diweddar. Mae'r amcangyfrifon diwygiedig yn seiliedig ar daliadau a wnaed rhwng mis Hydref 2012 a Medi 2013, yn hytrach nag Ebrill 2012 a Mawrth 2013 fel o'r blaen. At ei gilydd, erbyn 2015/16, bydd cyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gostwng tua thraean mewn termau real ers 2010, a bydd ein diwygiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol yn gweld y gyllideb arbennig honno'n gostwng yn fras o tua'r un swm.

Ymateb i'r ymgynghoriad

13. Mae'r bennod hon yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r *Camau Nesaf*. Rydym yn amcangyfrif y bydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, unwaith y gweithredir hwy yn llawn, yn cyflawni arbedion o tua £130m y flwyddyn erbyn 2018/19. Ynghyd â'r diwygiadau a nodwyd yn y ddogfen *Camau Nesaf* ym mis Medi, bydd hyn yn golygu arbediad cyfan o £215m y flwyddyn erbyn 2018/2019.
14. Gweler crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr yn ystod yr ymgynghoriad hwn ac ymateb y Llywodraeth ar bob cwestiwn yn Atodiad B.

Caffael Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

15. Ym Mhennod 3 y *Camau Nesaf*, gofynnwyd am sylwadau ar fodel addasedig o dendro cystadleuol ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr. Fel yn achos y model gwreiddiol a nodwyd yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ebrill, roedd y model addasedig wedi ei gynllunio i sicrhau'r gwerth gorau am arian trwy gynnig mwy o gyfleoedd i ddarparwyr raddio'i fyny. Wrth wneud hynny, byddent yn sicrhau arbedion maint, ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon. Byddai hyn yn digwydd yn y wybodaeth y byddent yn derbyn adenillion mwy o faint a sicrach, gan roi hyder iddynt fuddsoddi yn yr ailstrwythuro busnes gofynnol.
16. Cynorthwyodd ein gwaith gyda Chymdeithas y Gyfraith yn ystod yr haf i gynhyrchu model yr ydym yn credu sy'n ymdrin â nifer o bryderon dilys iawn a godwyd gan ymarferwyr a chyrrff cynrychioliadol. Dau o'r addasiadau mwyaf amlwg oedd cadw'r un lefel o ddewis i gleientiaid sy'n ceisio cymorth cyfreithiol troseddol fel y ceir yn awr; a gosod y cyfraddau tâl sydd ar gael dan y contract yn weinyddol, yn hytrach na thrwy ddefnyddio pris fel maen prawf dyfarnu. Wrth gwrs roedd nifer o newidiadau eraill, a ddisgrifiwyd yn fanwl yn y *Camau Nesaf*.
17. Rydym wedi parhau i ymgysylltu gyda Chymdeithas y Gyfraith, cymdeithasau arbenigol ac ymarferwyr unigol drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac yng ngoleuni'r ymatebion hynny rydym wedi penderfynu gwneud nifer o newidiadau pellach i greu'r cynllun model terfynol ar gyfer caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Rydym yn bwriadu gweithredu'r model hwn drwy broses dendro a ragwelwn fydd dechrau ym mis Ebrill 2014 gyda chontractau Gwaith Dewis y Cleient yn cael eu dyfarnu yng nghanol 2014, a chontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu dyfarnu yn gynnar yn 2015, a rhagwelir y bydd y gwasanaethau yn dechrau ym mis Mehefin 2015. Rydym hefyd yn bwriadu gweithredu gostyngiad o 8.75% cychwynnol yn yr holl ffioedd dan y Contract Trosedd Safonol 2010 cyfredol (ac eithrio ar gyfer cyfraddau hynny sy'n berthnasol i Waith Sifil Cysylltiedig) ar 20 Mawrth 2014, cyn yr ail ostyngiad o 8.75% gyda chychwyn y contractau newydd.
18. Buom hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas y Gyfraith ers mis Medi i archwilio ffyrdd y gallem hwyluso'r pontio i ddarparwyr, a sicrhau fod gymaint o gefnogaeth ac arweiniad ag y bo modd ar gael.

Addasiadau pellach i'r model

Nifer y contractau

19. O dan y model addasedig a nodir yn y Camau Nesaf, cynigiwyd ein bod yn cynnig nifer digyfyngiad o gontractau i ddarparu Gwaith Dewis y Cleient. Byddai unrhyw ymgeisydd a oedd yn gallu bodloni Gofynion y Broses Dendro¹ (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) yn gymwys i gael dyfarnu contract Gwaith Dewis y Cleient. Fodd bynnag, byddai angen i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i'r cleientiaid hynny sy'n dewis Darparwr Dyletswydd wneud cais am un o nifer cyfyngedig o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd yn un neu fwy o'r ardaloedd caffael.
20. Yn y Camau Nesaf (paragraff 3.31), rydym yn nodi nifer o ffactorau y bwriadwn eu hystyried wrth bennu nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn y model terfynol. I grynhoi, rydym wedi penderfynu bod rhaid i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol troseddol i'r dyfodol fod â:
 - Cyflenwad digonol o ddarparwyr i ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl;
 - Digon o achosion i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio ar sail egwyddor 'siglenni a chylchfannau' i ddarparwyr;
 - Ystwythder y farchnad - i ba raddau y byddai angen i ddarparwyr presennol ym mhob ardal gaffael raddio'i fyny er mwyn ymgymryd â mwy o waith; a
 - Caffael cynaliadwy - yr angen i sicrhau bod y farchnad yn gystadleuol yn y cylchoedd tendro i'r dyfodol.
21. Yn ogystal â'r ffactorau hyn, ein bwriad oedd sicrhau bod y contractau i ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd yn ddigon mawr o ran nifer a gwerth i fod yn gynaliadwy yn eu rhinwedd eu hunain ar ôl y gostyngiad cronus mewn ffioedd o 17.5%, cyn belled ag y bo modd.
22. Er mwyn hysbysu ein hystyriaeth o'r ffactorau uchod, ein hasesiad o'r farchnad ac yn ei dro ein helpu i benderfynu ar y nifer o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd i'w cynnig, comisiynwyd ddau ymgynghorydd (Otterburn Legal Consulting LLP a KPMG LLP), ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith. Mae'r ddau adroddiad ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/consult_view. Byddem yn annog y rheiny sydd â diddordeb yn y maes gwaith hwn i ddarllen ac ystyried yr adroddiadau hynny ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.
23. Gofynnwyd i Otterburn Legal Consulting LLP gasglu gwybodaeth oddi wrth ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol presennol drwy ddulliau ymchwil meintiol ac ansoddol a darparu setiau data anhysbys i KPMG LLP er mwyn hysbysu'r modelu ariannol angenrheidiol. Roedd yr arolwg a gynhaliwyd gan Otterburn yn archwilio:
 - sefyllfa ariannol bresennol cwmnïau amddiffyn troseddol;

¹ Mae'r cyfeiriad at "Ofynion y Broses Dendro" drwy gydol y ddogfen hon yn golygu gofynion y broses dendro fel y nodir yn y dogfennau tendro, gan gynnwys yr "Holiadur Cyn-Gymhwyso" a'r dogfennau "Gwybodaeth i Ymgeiswyr" (gan gynnwys telerau ac amodau'r broses dendro) a "Gwahoddiad i Dendro", fel sy'n berthnasol.

- barn y cwmnïau ar faint y contract y byddent ei angen i ddarparu contract Darparwr Dyletswydd a Dewis y Cleient hyfyw; ac
 - effaith y cynigion ar gwmnïau sydd ond â chontract Dewis y Cleient.
24. Hefyd yn yr adroddiad cynhwysodd Otterburn nifer o sylwadau gan ymarferwyr ac arsylwadau personol ar y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol.
25. Gofynnwyd i KPMG LLP ddefnyddio data arolwg Otterburn Legal Consulting LLP ac, ynghyd â data hawlio gan yr LAA, i adeiladu model ariannol i gynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y nifer priodol o contractau gwaith Darparwr Dyletswydd ym mhob ardal gaffael. Y tri chwestiwn a ofynnodd KPMG LLP oedd:
- Capasiti digonol: A oes digon o ddarparwyr sy'n gallu cyflenwi'r maint angenrheidiol o waith dan y contractau newydd?
 - Cystadleuaeth: Ar gyfer hyn ac o leiaf un gystadleuaeth bellach, a oes tensiwn cystadleuol yn y farchnad?
 - Hyfywedd: A oes gan y cynigwyr buddugol fodel busnes yn arwain at berfformiad ariannol sy'n eu galluogi i barhau i fasnachu mewn ffordd gynaliadwy?
26. Mae'r ddau adroddiad yn cydnabod bod y darparwyr presennol yn mynd ar drywydd rhy ychydig o waith, a nodant y cyfyng-gyngor a wynebwr gan y sylfaen darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol presennol wrth geisio ymdopi â phwysau gostyngiad yn nifer yr achosion, a galw i leihau gwariant wrth weithio mewn amgylchedd lle mae'r farchnad yn ddarniog dros ben. Fodd bynnag, maent hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd i'r farchnad bresennol archwilio gwahanol ffyrdd o weithio, o ran strwythur ac arferion bob dydd, er mwyn manteisio ar arbedion maint lle bo rheiny'n bodoli.
27. Un gwyrriad allweddol yn y modelu terfynol o'i gymharu â'n bwriad a nodwyd yn y Camau Nesaf yw newid yn y dybiaeth bod rhaid i'r contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd fod yn ddigon mawr o ran gwerth i fod yn gynaliadwy yn eu rhinwedd eu hunain ar ôl y gostyngiad cronus arfaethedig mewn ffioedd o 17.5%.
28. Yn dilyn trafodaethau gyda Chymdeithas y Gyfraith, rydym yn cydnabod y gallai darparwyr yn ymarferol ddymuno cadw peth o'u Gwaith Dewis y Cleient, er y bydd y penderfyniadau hyn yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol ddarparwyr. Felly, er mwyn magsimeiddio nifer y contractau gwaith Darparwr Dyletswydd sydd ar gael a thrwy hynny leihau'r her o gydgrynhoi, gofynnwyd i KPMG fodelu yn seiliedig ar ddarparwyr yn rhoi'r gorau i ddim mwy na 50% o'u Gwaith Dewis y Cleient. Rydym yn credu y cyfiawnheir y gwyrriad hwn oddi wrth y bwriad a nodwyd yn y Camau Nesaf, gan ei fod yn cymryd yn ganiataol y bydd darparwyr yn cadw peth o'u Gwaith Dewis y Cleient, a chredwn mai dyna sy'n cynrychioli orau sut y mae darparwyr fwyaf tebygol o ymateb yn y farchnad newydd.
29. Roedd Llundain yn peri her wahanol gan fod y farchnad yn hynod ddarniog a bod yr her i dwf yn sylweddol. Yn y Camau Nesaf cynigiwyd rhannu Llundain yn naw ardal gaffael gan ddefnyddio ardaloedd System Cyfiawnder Lleol. Pennodd KPMG, wrth ddefnyddio eu profion, y byddai naw ardal gaffael yn Llundain yn peri her sylweddol i ddarparwyr presennol o ran yr angen i dyfu eu busnes er mwyn bod o raddfa ddigonol.
30. Gofynnwyd i KPMG edrych ar dorri Llundain yn 32 o barthau llai, gan alinio ardaloedd caffael ag ardaloedd y cynllun dyletswydd gorsaf heddlu presennol neu fwrdeistrefi.

Byddai'r dull hwn yn dal i fod angen swm sylweddol o gyfuniad y farchnad, ond mae'n fwy hylaw i rai darparwyr dyfu i gyflenwi meintiau contract llai, ac mae'n cynnig hyblygrwydd a dewis i gwmnïau mawr a bach aros yn y farchnad. Rydym yn credu er enghraifft y byddai nifer o gwmnïau yn dewis ymgeisio ar draws mwy nag un ardal gaffael neu'n ymuno ag eraill i weithredu ar draws mwy nag un ardal gaffael heb orfod uno'n ffurfiol neu dyfu busnes unigol.

31. Felly cyflwynodd KPMG ddau ddewis yn eu hadroddiad y maent yn awgrymu fyddai'n darparu marchnad Gwaith Darparwr Dyletswydd gynaliadwy:

Tabl 1: Opsiynau a gyflwynwyd gan KPMG ar ystod o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd

	Tu allan i Llundain	Llundain	Cyfanswm contractau
Opsiwn 1 (Llundain 9 ardal)	285–315	70–90	355–405
Opsiwn 2 (Llundain 32 o ardaloedd)		147–210	432–525

32. Tra'n bod yn disgrifio'r model o ran nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd a gynigir, mae'n bwysig nodi y gallai'r nifer o ddarparwyr posibl sydd ar ôl yn y farchnad fod yn llawer mwy, naill ai oherwydd bydd darparwyr yn ceisio defnyddio ei gilydd fel asiantau neu oherwydd y byddant yn gwneud defnydd o'r trefniadau contractio mwy hyblyg a ddisgrifir ym mharagraffau 60-72 isod, gan eu galluogi i ffurfio cytundebau partneriaeth. Fel arall, efallai y bydd cyfanswm nifer y darparwyr yn llai, gan y gallai cwmnïau unigol dyfu ac ymgeisio ar draws mwy nag un ardal gaffael. Mae'r cyfan yn dibynnu ar sut y mae'r darparwyr yn ailstrwythuro eu busnesau i gwrdd â maint y Contractau Darparwr Dyletswydd sydd ar gael. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i ddarparwyr o bob maint archwilio strwythurau busnes gwahanol sy'n addas ar eu cyfer, a pharhau i ddarparu gwasanaethau Dewis y Cleient a Darparwr Dyletswydd.
33. Darparodd yr ymchwiler annibynnol sail dystiolaeth bwysig ar gyfer penderfynu ar ystod briodol o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd i'w cynnig ym mhob ardal gaffael. Mae'r modelu ei hun yn ystyried rhai o'r ffactorau eraill a nodir ym mharagraff 20 uchod wrth ffurfio'i argymhellion. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o awgrymiadau (ar dudalen 12 o adroddiad KPMG) ar faterion pellach y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eu hystyried er mwyn llywio ein penderfyniad terfynol.
34. Felly, o ystyried yr adroddiadau gan Otterburn a KPMG (gan gynnwys yr ardaloedd lle'r oedd yr adroddiad yn awgrymu y dylid gwneud gwaith pellach) cynhaliwyd ein dadansoddiad mewnol pellach ein hunain o'r pedwar ffactor a restrir yn y Camau Nesaf, fel y crynhoir isod.

(i) Digon o gyflenwad i ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl

Bydd bob amser gronfa o achosion sy'n cynnwys mwy nag un diffynnydd. Mae angen i ni sicrhau bod nifer digonol o gontractwyr ym mhob ardal System Cyfiawnder Troseddol (CJS) i roi cyngor a chymorth a chynrychiolaeth i gleientiaid lle y gallai fod

gwrthdaro â diffynnydd arall. Rydym wedi penderfynu y byddai o leiaf bedwar contractwr ym mhob ardal yn ymdrin â'r ffactor hwn. Rydym yn sefyll wrth ein dadansoddiad a nodir yn y Camau Nesaf bod llai nag 1% o achosion gorsaf yr heddlu a llai na 0.1% o achosion Llys y Goron yn cynnwys mwy na phedwar diffynnydd. Rydym yn credu y byddai hyn yn nifer hylaw o achosion i'w dyrannu i gontractwr arall mewn ardal CJS gyfagos neu i gronfa o gontractwyr wrth gefn pan fyddai gwrthdaro o'r fath yn codi. Felly bydd y nifer o gontractau i bob ardal gaffael yn caniatáu ar gyfer o leiaf pedwar, ac yn y mwyafrif o achosion mwy na phedwar, o Gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd (ac wrth gwrs, swm digyfyngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient).

(ii) Digon o achosion i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio

Un o'r ffactorau a ystyriwyd gennym wrth benderfynu ar y nifer o gontractau am Waith Darparwr Dyletswydd mewn ardal gaffael oedd cyfyngu ar effaith bosibl cyflwyno cynllun ffioedd sefydlog. Mae cyfres o gynlluniau ffioedd sy'n bennaf seiliedig ar ffioedd sefydlog yn golygu y gallai darparwyr wneud elw ar y ffi sefydlog mewn rhai achosion, oherwydd mai swm cymharol fach o waith oedd angen ei wneud ar yr achos. Fodd bynnag, mewn achosion eraill sydd angen mwy o waith, gallent wneud colled. Er mwyn rheoli lefel y risg o golled ariannol a wynebir gan ddarparwyr dan y cynllun ffioedd sefydlog terfynol, mae angen i gontractau sy'n cyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd gynnig digon o nifer o slotiau dyletswydd er mwyn i ddarparwyr gael cymysgedd o achosion amrywiol. Ein barn yw y byddai'n rhesymol disgwyl, o ganlyniad i'r cynllun ffioedd sefydlog, y gallai darparwyr unigol gynnwys hyd at 3% o newid ychwanegol mewn refeniw ar Waith Darparwr Dyletswydd, mewn unrhyw un flwyddyn, o'i gymharu â refeniw cyfartalog ar gyfer yr ardal gaffael yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, gan gymryd ardal gyda gwerth hawliad cyfartalog presennol o £400 (unwaith y bydd y drefn ffioedd newydd wedi cael ei chymryd i ystyriaeth), rydym yn dymuno bod yn ystadegol hyderus² o dan y cynlluniau ffioedd sefydlog newydd, na fyddai gwerth hawliad cyfartalog a gaiff darparwr ddim llai na £388 (-3%) a ddim mwy na £412 (+3%). Mae hyn yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data hawlio am flwyddyn hyd at fis Medi 2013. I'r mwyafrif helaeth o ardaloedd caffael, mae'r risg refeniw o fewn yr ystod hon. Fodd bynnag, ar gyfer rhai ardaloedd caffael, mae rhanbarth y CJS wedi cael ei rannu mewn ymgais i gynnig mwy o hyblygrwydd i gwmnïau. Mewn rhai o'r ardaloedd hyn, efallai y byddai swm llai o waith dyletswydd yn golygu bod y risg refeniw yn fwy na 3%³ Barn y Llywodraeth yw bod manteision mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr a symirwydd mwy'r cynllun ffioedd newydd yn debygol o gyfiawnhau'r risg uwch hwn. Efallai y bydd darparwyr unigol yn yr ardaloedd hyn yn penderfynu lliniaru'r risg drwy ddewis ymgeisio mewn rhanbarthau lluosog, gan ymgymryd â Gwaith Dewis y Cleient ochr yn ochr â'u Contract Dyletswydd, neu edrych tuag at ehangu Gwaith Dewis y Cleient.

(iii) Ystwythder y farchnad

Mae'r ymchwil annibynnol gan Otterburn a KPMG yn ymdrin â'r pwynt hwn yn uniongyrchol, ond yr ydym wedi cynnal gwiriad synnwyr o'r dadansoddiad yn erbyn yr hyn yr ydym yn ei wybod am y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol gyfredol a sut mae'n cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ar hyn o bryd. Mae rhan o'r

² Ar lefel 95%.

³ Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch union lefel y risg yn yr ardaloedd hyn o ystyried nad oes unrhyw arwydd yn y data i ddyrannu'n fanwl bob un o'r achosion islaw lefel rhanbarth y System Cyfiawnder Troseddol.

dadansoddiad hwn yn cynnwys asesiad o'r hyn y mae'r her gyfuno yn ei olygu i ddarparwyr yn ymarferol. Er enghraifft, mae adroddiad KPMG yn nodi'r heriau hynny mewn termau canran yn erbyn gwerth y gwaith yng ngweddill y farchnad. Er mwyn asesu i ba raddau y mae'r ffigyrau hyn yn realistig rydym wedi edrych ar beth mae hyn yn ei olygu o ran faint o enillwyr ffi ychwanegol fyddai cwmni angen eu cyflogi. Mae Tabl 2 isod yn tynnu ar y rhagdybiaethau canlynol a wnaed gan KPMG yn eu hadroddiad:

- 1) Nifer y cynigwyr a fyddai eu hangen i gynnal tensiwn cystadleuol yn y farchnad;
- 2) Capasiti twf presennol o fewn strwythurau presennol cwmnïau o 15% ar gyfartaledd; a
- 3) Cwmnïau yn barod i ildio hyd at hanner eu Gwaith Dewis y Cleient er mwyn cwrdd â chontract dyletswydd.

Gan sicrhau cysondeb â dadansoddiad KPMG, rydym wedi amcangyfrif gofynion twf cyfartalog yr holl gynigwyr contract - o ran enillwyr ffioedd - ar draws Cymru a Lloegr ac o fewn rhanbarthau caffael Gwledig, Trefol neu Lundain⁴. Mewn gwirionedd, mae hyn yn cymryd y cwmnïau mwyaf yn yr ardal ac yn asesu faint o staff ychwanegol fyddai eu hangen arnynt yn yr ardal honno i wasanaethu'r contractau ar ddyletswydd a hanner eu Gwaith Dewis y Cleient presennol yn yr ardal honno. Defnyddiwyd data o ymchwili Otterburn i amcangyfrif bod enillydd ffioedd ar gyfartaledd yn cynhyrchu £83k mewn referniw.⁵

Tabl 2: Cymedr gofynion twf enillwyr ffioedd cwmnïau sy'n ymgeisio

	Cymedr	Lleiaf.	Mwyaf.
Cymru a Lloegr	1.0	0.0	5.1
Pob ardal drefol	1.2	0.0	5.1
Pob ardal wledig	0.5	0.0	5.1
Pob ardal yn Llundain	1.4	0.0	4.9

Ar gyfartaledd ar draws yr holl ymgeiswyr yng Nghymru a Lloegr, dengys hyn y bydd angen i gwmnïau dyfu ar gyfartaledd o un aelod o staff i gwrdd â'u gwaith contract dyletswydd 'yn yr ardal'. Os yw cwmnïau yn gwneud cais mewn mwy nag un ardal, yna efallai y bydd eu gofynion twf yn cynyddu.

Yn seiliedig ar adroddiadau Otterburn a KPMG a'n hystyriaeth o ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn hyderus bod y farchnad yn ddigon hyblyg i gwrdd â gofynion y gystadleuaeth Gwaith Darparwr Dyletswydd.

⁴ Mae dosbarthiad y rhanbarthau caffael i Lundain, Trefol a Gwledig yn gyson â'r adroddiad KPMG a gyhoeddwyd.

⁵ Yn seiliedig ar dabl 5.4 o adroddiad Otterburn, lle mae cyfanswm incwm ffioedd troseddau o £137m yn cael ei rannu gan 157 o gwmnïau yn £874k o ffioedd fesul cwmni. Yn nhabl 4.4 awgrymir mai'r nifer cyfartalog o enillwyr ffioedd mewn cwmni yw 21, gyda thua hanner y ffioedd hynny yn cael eu derbyn mewn trosedd. Felly, rydym wedi tybio cyfartaledd o 10.5 enillwyr ffioedd trosedd fesul cwmni, sy'n golygu ein bod yn amcangyfrif fod yr enillydd ffioedd troseddau cyfartalog yn derbyn £83k

(iv) Caffael cynaliadwy

Yn olaf, yr ydym wedi ystyried yr angen i sicrhau bod y farchnad yn gystadleuol yn y cylchoedd tendro i'r dyfodol. Un ffynhonnell amlwg o gystadleuaeth i'r dyfodol yw gallu deiliaid contract o'r cylch cyntaf i ymgeisio mewn ardaloedd newydd neu luosog yn y cylch nesaf. Un arall yw sicrhau cyflenwad digonol o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol y gallai newydd-ddyfodiad posibl eu cyflogi yn y cylch tendro nesaf. Gan dybio y bydd y cynigwyr mwyaf llwyddiannus yn fentrau ar y cyd neu'n endid cyfreithiol gyda chontractwr arweiniol a phartneriaid cyflenwi, credwn (fel y gwna Cymdeithas y Gyfraith) fod lle i'r partneriaid cyflenwi hynny neu aelodau o'r fenter ar y cyd ymuno ag eraill i ffurfio endidau cyfreithiol newydd y tro nesaf, a fyddai'n helpu i gynnal marchnad ddeinamig a chystadleuol.

Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS)

35. Rydym yn parhau i gredu ei bod yn bwysig cynnal rôl i'r PDS oherwydd y rhan y mae'r gwasanaeth yn ei chwarae mewn meincnodi ac o ddatblygu safonau ansawdd mewn gwaith amddiffyn troseddwr.
36. Yn y papur ymgynghori ym mis Ebrill, amlinellwyd yr ardaloedd lle mae'r PDS yn gweithredu ar hyn o bryd a chynigiwyd o dan y model y byddent yn cael dyraniad o gyfran gyfartal o waith yn yr ardal honno. Yn y Camau Nesaf, nodwyd ein bwriad i roi cyfran gyfartal o waith dyletswydd ym mhob un o'r ardaloedd lle maent eisoes wedi'u sefydlu. Mae'r PDS hefyd yn gweithredu yn Northallerton, sy'n gynllun dyletswydd cyfagos i Durham (yn ardal gaffael Gogledd Swydd Efrog 1). Felly, byddwn yn cadw'r ddarpariaeth hon o dan y model terfynol ac yn dyrannu cyfran gyfartal o waith i'r PDS yng Ngogledd Swydd Efrog 1, Swydd Gaerloyw, Durham a De Cymru.

Casgliad

37. Ar ôl pwyso a mesur y dadansoddiad cyfan, yr ymchwil annibynnol, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r risgiau allweddol, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r model caffael lle mae'r uchafswm o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu cynnig, fel yr awgrymwyd gan KPMG. Mae hyn yn macsimeiddio'r cyfleoedd i'r farchnad darparwyr presennol barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a rhoi mwy o gyfle i strwythurau busnes mwy hyblyg. Yn y model hwn, bydd Llundain hefyd yn cael ei rhannu'n 32 o ardaloedd caffael. Felly, yr ydym wedi penderfynu cynnig cyfanswm o 525 o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, a nifer digyfyngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient.
38. Mae Tabl C2 yn Atodiad C yn nodi nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd sydd i gael eu cynnig ym mhob ardal gaffael. Nodwch os gwelwch yn dda ein bod wedi penderfynu addasu nifer o'r ardaloedd caffael ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Gweler paragraffau 54-56 isod am fwy o wybodaeth.

Tâl

39. Rydym yn dal i gredu bod y mecanwaith tâl presennol yn rhy gymhleth heb fod angen, ac y byddai cyflwyno ffioedd sefydlog yn symleiddio prosesau gweinyddol a helpu i leihau costau ar gyfer darparwyr a'r LAA.
40. Fodd bynnag, yng ngoleuni rhai ymatebion defnyddiol yn y maes hwn, yn enwedig gan Gymdeithas y Gyfraith, rydym wedi diwygio'r mecanwaith tâl ymhellach.

41. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r paragraffau canlynol yn berthnasol i Waith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd.

Mynychu gorsaf yr heddlu

42. Ar hyn o bryd rydym yn talu cyfradd wahanol i ddarparwyr am waith gorsaf yr heddlu gan ddibynnu ar ba ran o'r wlad y maent yn darparu'r gwaith hwnnw. Golyga hyn bod 245 o gyfraddau gwahanol ar gyfer gwaith gorsaf heddlu ar hyn o bryd. Y cynnig yn y Camau Nesaf oedd creu un ffi sefydlog genedlaethol drwy gyfrifo'r ffi gyfartalog ar draws yr holl ardaloedd a'i leihau o 17.5%. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu y byddai ardaloedd fel Llundain sy'n derbyn tâl uwch ar hyn o bryd yn cael gostyngiad llawer mwy na 17.5% o'i gymharu â'r gyfradd bresennol.
43. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryder penodol am yr effaith anghymesur ar Lundain, rydym wedi addasu'r mecanwaith tâl ar gyfer gwaith presenoldeb gorsaf heddlu i wahaniaethu rhwng yr achosion sy'n deillio o Lundain a'r rhai sy'n deillio o'r tu allan i Lundain. Yn wyneb pryderon ymatebwyr y byddai'r un ffi yn cael ei thalu waeth pa mor hir oedd presenoldeb y darparwr, rydym hefyd wedi diwygio'r mecanwaith i gadw'r cynllun cyfradd fesul awr ar gyfer achosion lle mae'r Trothwy Achos Ffi Dianc wedi ei gyrraedd.
44. Felly, rydym yn bwriadu gweithredu'r mecanwaith tâl ar gyfer gwaith presenoldeb gorsaf heddlu fel a ganlyn:
- Creu ffi sefydlog ar gyfer achosion sy'n deillio o gynllun gorsaf heddlu yn Llundain;
 - Creu ffi sefydlog ar gyfer achosion sy'n deillio o gynlluniau tu allan i Lundain; a
 - Chadw'r cynllun cyfradd fesul awr cyfredol ar gyfer yr achosion hynny lle mae Trothwy Achos Ffi Dianc (sy'n hafal i dair gwaith y ffi a bennwyd ar gyfer yr ardal honno) wedi ei gyrraedd, serch bod y gyfradd fesul awr 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol.
45. Mae Tabl C3 yn Atodiad C yn nodi ffioedd sefydlog a Throthwyon Achos Ffi Dianc ar gyfer gwaith presenoldeb gorsaf heddlu.

Cynrychiolaeth llysoedd ynadon

46. Ar hyn o bryd rydym yn talu cyfradd wahanol i ddarparwyr am waith yn y llys ynadon (nid ar ddyletswydd) yn seiliedig ar dri ffactor:
- p'un a yw'r darparwr (neu mewn rhai amgylchiadau, y llys) wedi ei leoli mewn ardal ddynodedig neu ardal heb ei dynodi;
 - y math o achos (ple euog trosedd ddiannod, ple euog trosedd naill ffordd neu'r llall ayb); a
 - faint o amser a dreulir yn paratoi ar gyfer yr achos a chynrychioli'r cleient yn y llys.
47. Fel y cynigiwyd yn y *Camau Nesaf*, rydym yn bwriadu symleiddio'r cynllun ffioedd ar gyfer cynrychiolaeth mewn llys ynadon. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi pryderon am y cynnig i gysoni ffioedd ar gyfer treialon euog a threialon chwâl a'r addasiadau a awgrymwyd gan Gymdeithas y Gyfraith, rydym wedi penderfynu parhau â chael gwared ar y gwahaniaeth rhwng ardaloedd dynodedig a rhai heb eu dynodi a'r Ffioedd Safonol Is ac Uwch, ond i gadw'r gwahaniaeth rhwng mathau o achosion. Fel y cynigiwyd, rydym hefyd yn bwriadu cadw'r cynllun cyfradd fesul awr dyletswydd llys ynadon presennol a'r mecanwaith

ffioedd dianc ansafonol, gyda chyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith o'r fath yn cael eu gostwng 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol

48. Mae Tabl C4 yn Atodiad C yn nodi'r ffioedd sefydlog a Throthwyon Ffi Ansafonol ar gyfer gwaith cynrychiolaeth mewn llys ynadon.

Ymglyfreitha Llys y Goron

49. Ar hyn o bryd yr ydym yn talu i ddarparwyr am eu gwaith ar achosion yn Llys y Goron o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreithwyr lle mae'r ffi a delir yn cael ei chyfrifo drwy gymhwyso nifer o elfennau (tudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE), hyd y treial, dosbarth y drosedd ayb).
50. O dan y model addasedig, rydym yn cynnig cyflwyno cyfres o ffioedd sefydlog ar gyfer ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o PPE) yn seiliedig ar y math o drosedd a bandiau PPE. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith, yn awgrymu y byddai hyn yn golygu na fyddai cynrychiolwyr yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ddigonol ar gyfer yr achosion hynny sydd fel arfer yn cymryd mwy o amser i'w paratoi ac sydd angen gwasanaethau ymglyfreitha helaeth.
51. Felly, rydym wedi newid y mecanwaith tâl ar gyfer ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o PPE) i gyflwyno trydydd newidyn: math o achos (e.e. ple euog, treial neu dreialon chwâl). Felly, byddai'r ffioedd sefydlog ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu gosod yn ôl y math o drosedd, bandiau PPE a math o achos.
52. Mae Tabl C5 yn Atodiad C yn nodi'r ffioedd sefydlog ar gyfer gwaith ymglyfreitha yn Llys y Goron ar achosion gyda llai na 500 o PPE.
53. Fel y cynigiwyd, rydym hefyd yn bwriadu cadw'r Cynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreithwyr presennol ar gyfer yr achosion hynny gyda 500 neu fwy o PPE, gyda chyfraddau wedi'u gosod yn weinyddol 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol.

Ardaloedd daeryddol ar gyfer caffael a darparu gwasanaethau

54. Mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn y dylai darparwyr sy'n dymuno darparu Gwaith Dewis y Cleient allu gwneud hynny yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol.
55. Fodd bynnag, ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai angen i ymgeiswyr wneud cais am contract Gwaith Darparwr Dyletswydd i ddarparu gwasanaethau mewn ardal gaffael penodol. Rydym yn cynnig bod y rhain yn cael eu gosod yn bennaf yn ôl ardaloedd CJS ond mewn rhai ardaloedd, byddem yn isrannu i ardaloedd caffael llai. Mae hyn yn creu 62 o ardaloedd caffael penodol. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r gwaith modelu ariannol gan KPMG (a ddisgrifir ym mharagraffau 22-33 uchod), rydym wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau pellach i'r ardaloedd caffael fel a ganlyn:

Tabl 3: Newidiadau i ardaloedd caffael

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	
	Cynnig y Camau Nesaf	Penderfyniad Terfynol
Dyfed-Powys 1	Dyffryn Aman, Llanelli, Sir Benfro	Dyffryn Aman, Llanelli, Caerfyrddin

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	
	Cynnig y Camau Nesaf	Penderfyniad Terfynol
Dyfed-Powys 2	Caerfyrddin, Aberhonddu, Canolbarth Cymru, Gogledd Ceredigion	Sir Benfro, Aberhonddu, Canolbarth Cymru, Gogledd Ceredigion
Norfolk 1	Cromer, Great Yarmouth, Norwich, Thetford, Dereham	Cromer, Great Yarmouth, Norwich, Lowestoft, Dereham
Northumbria 1	S. E. Northumbria, Newcastle-Upon-Tyne, Gateshead, N.Tyneside, S.Tyneside, Sunderland, Tyndale	Gateshead, S.Tyneside, Sunderland
Northumbria 2	Berwick ac Alnwick	Berwick ac Alnwick, S. E. Northumberland, Newcastle-Upon-Tyne, N.Tyneside, Tyndale
Suffolk 1	Felixstowe / Ipswich & District / Woodbridge, Lowestoft	Bury St Edmunds (gan gynnwys Sudbury a Thetford)
Suffolk 2	Sudbury	Felixstowe / Ipswich & District / Woodbridge
Sussex 1	Brighton, Hastings, Worthing, Eastbourne	Brighton, Hastings, Eastbourne
Sussex 2	Chichester, Crawley	Chichester, Crawley, Worthing

56. Fel y disgrifir ym mharagraffau 29 i 32 uchod, rydym hefyd wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r model yn seiliedig ar 32 o ardaloedd caffael yn Llundain, yn cyd-fynd ag ardaloedd presennol y cynllun dyletswydd gorsaf heddlu neu fwrdeistrefi. Mae hyn yn dod â chyfanswm yr ardaloedd caffael i 97 (65 tu allan i Lundain a 32 i Lundain).

Strwythurau busnes mwy hyblyg

57. Dadleuodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill a mis Medi y dylai unrhyw fodel caffael gynnig y cyfle gorau i ddarparwyr lwyddo trwy fod mor hyblyg â phosibl wrth ddiffinio beth yw'r strwythur busnes derbynol i wneud cais am contract gwaith Darparwr Dyletswydd.
58. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, buom yn trafod gyda Chymdeithas y Gyfraith i ymchwilio i'r dull mwyaf hyblyg i ymgeiswyr o ran y mathau o strwythur busnes y byddai'r LAA yn eu derbyn fel endidau contractio. Rydym bellach wedi cyrraedd barn a rennir gyda Chymdeithas y Gyfraith y byddai model sy'n gorwedd rhwng trefniadau consortia llac iawn a dull cyfuno/ menter llym yn gyraeddadwy. Felly, yn ogystal â chaniatáu i ymgeiswyr ymgeisio fel sefydliadau unigol, menter ar y cyd neu Strwythur Busnes Amgen, byddai trefniadau partner gyda chontractwr arweiniol (a fydd yn dal y contract ac yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau o dan y contract) a hyd at 3 o bartneriaid cyflenwi (cyfyngu i 2 bartner cyflenwi mewn ardaloedd caffael trefol⁶)

⁶ Yr ardaloedd hynny sydd wedi'u labelu fel 'trefol' yn Nhabl C2 o Atodiad C

hefyd yn dderbyniol, ar yr amod y gall y contractwr arweiniol ddangos ei fod yn bodloni Gofynion y Broses Dendro a chael cytundeb ffurfiol rhyngddynt sy'n cwmpasu rhai agweddau allweddol o gyflenwi gwasanaeth. Yn ogystal, bydd contractwyr yn gallu cyfarwyddo asiantau i ddarparu hyd at 25% o werth y contract o dan gontractau Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd. Bydd yr LAA yn nodi'r gofynion cytundebol allweddol ar ddechrau'r broses gaffael ar gyfer contractau Gwaith Dewis y Cleient, yr ydym yn rhagweld fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2014.

59. Golyga dull o'r fath y byddwn yn cynnig y cyfle i'r sylfaen darparwyr presennol cyfan i gynnig nid yn unig am gontractau Gwaith Dewis y Cleient, ond hefyd i wneud cais fel rhan o drefniant partneriaeth ar gyfer contract Gwaith Darparwr Dyletswydd petaent yn llwyddiannus yn eu cais am gontract Gwaith Dewis y Cleient (er, os bydd yn llwyddiannus, efallai nad hwy eu hunain fydd yn dal y contract gyda'r LAA). Mae'r ffordd hon ymlaen yn darparu cymhelliant a chyfle i ddarparwyr dyfu eu busnes i gyflawni mwy o effeithlonrwydd, tra ar yr un pryd gynnig hyblygrwydd i fynd i mewn i bartneriaethau a pherthnasoedd contractio i'w helpu i aros yn y farchnad ddarparwyr. Byddai angen i ddarparwyr o'r fath archwilio sut y gallent wneud arbedion effeithlonrwydd er mwyn ymdopi â'r cyfraddau is o dâl. Rydym yn rhagweld y byddai'r hyblygrwydd hwn yn rhoi cyfle i ymuno ag eraill er mwyn sicrhau cytundeb darparwyr ac y byddent, dros gyfnod o amser, ond fwyaf tebygol yn union ar ôl cael y contract, yn chwilio am ffyrdd o wneud arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft, efallai y byddant yn archwilio cyfuno eu swyddogaethau cefn swyddfa, defnyddio cyfreithwyr ar ddyletswydd yn fwy effeithlon ar draws ardaloedd, cyfuno gweithgarwch caffael rhwng darparwyr, ayb.

Pecyn cymorth trosiannol

60. Clywsom drwy gydol y cyfnodau ymgynghori fod busnesau angen cymorth o ran gwybodaeth ac arweiniad a chymorth arbenigol i helpu cwmnïau fuddsoddi yn eu seilwaith, er mwyn sicrhau'r lefel o ailstrwythuro ac atgyfnerthu angenrheidiol.
61. Dadleuwyd hyn yn gadarn iawn gan Gymdeithas y Gyfraith ac rydym yn falch o gyhoeddi drwy ein cydweithio bod gennym ni a Chymdeithas y Gyfraith becyn o fesurau cymorth i helpu busnesau ymdopi â'r heriau sydd o'u blaenau.
62. Rhwng nawr a dechrau'r broses dendro (y disgwylir iddi ddechrau ym mis Ebrill 2014), byddwn yn trefnu bod pecyn gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymgeisio ar gyfer contract newydd. Bydd y pecyn yn cynnwys manylion gan yr LAA o ddata swm a gwerth y gwaith ym mhob ardal gaffael a manylion unrhyw newidiadau gorsaf yr heddlu ac ystâd y llysoedd a ragwelir yn ystod oes y contractau, yr ydym yn ymwybodol ohonynt ar adeg cyhoeddi. Hefyd, i helpu cwmnïau i adnabod pobl eraill yn eu hardal er mwyn o bosibl archwilio partneriaeth gyflenwi neu fenter ar y cyd â hwy, bydd y pecynnau hefyd yn cynnwys manylion yr holl ddarparwyr presennol ym mhob ardal a swm y gwariant cymorth cyfreithiol i bob darparwr.
63. Rydym hefyd yn bwriadu sefydlu rhwydwaith cefnogi partneriaeth busnes, a weithredir gan dîm o arbenigwyr cymorth busnes yn yr LAA i gynnig gwybodaeth a chanllawiau i ymarferwyr sy'n ceisio cymorth o ran ailstrwythuro eu busnes, sut i fynd ati i chwilio am gymorth ariannol ayb. Bydd y rhwydwaith yn cael ei sefydlu erbyn dechrau'r broses dendro a bydd yn parhau i weithredu ymhell y tu hwnt i gychwyn y contractau newydd. Credwn fod hyn yn bwysig, er mwyn darparu cymorth parhaus i fusnesau yn ystod dwy flynedd gyntaf y strwythur marchnad newydd.

64. Er na all y tîm roi cyngor ariannol, bydd yn gallu tynnu sylw cwmnïau at ble i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol ynghylch cyllid. Rydym hefyd wedi agor trafodaethau marchnad cymorth cyfreithiol penodol gyda Banc Busnes Prydain (BBB), Corff Hyd Braich sy'n adrodd i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae'r BBB yn fanc datblygu economaidd sy'n ceisio canolbwyntio ar nifer o atebion masnachol lle mae gwendidau neu faterion sy'n hysbys yn y farchnad o ran cael gafael ar fuddsoddiad a chyllid.⁷ Mae'r BBB yn canolbwyntio ar y farchnad busnesau bach a chanolig. Rydym yn datblygu canllawiau penodol ar gyfer y farchnad cymorth cyfreithiol ar y cyd â'r BBB ar ba gynnyrch ariannol a gefnogir gan y Llywodraeth sydd ar gael i'r farchnad cymorth cyfreithiol, a byddwn yn teilwra gwybodaeth i faterion ariannu cyfalaf a buddsoddiad penodol hysbys yn y sector.
65. Un cynnyrch ariannol o'r fath a gefnogir gan y BBB yw'r Warrant Cyllid Menter (EFG). Mae'r EFG yn gynllun gwarantu benthyciadau i hwyluso benthycia i fusnesau hyfyw sydd wedi cael eu gwrthod am fenthyciad masnachol arferol oherwydd diffyg sicrwydd neu hanes profedig. Mewn achosion fel hyn, efallai fod yr EFG yn opsiwn, ond dim ond os yw'r benthyciwr yn fodlon y gall eich busnes fforddio'r ad-daliadau benthyciad y caiff ei ystyried.
66. Mae cyflwyno EFG, gan gynnwys yr holl benderfyniadau benthycia, yn cael ei ddirprwyo'n llawn i fenthycwyr masnachol cyfranogol. Byddant yn penderfynu p'un a yw EFG yn briodol ac yn cadarnhau p'un a yw eich busnes yn gymwys. Mae EFG yn agored i fusnesau hyfyw sy'n:
- gweithredu yn y DU
 - â throsiant o lai na £41 miliwn
 - yn chwilio am gyllid rhwng £1,000 a £1 miliwn
 - eisiau telerau ad-dalu o 3 mis i 10 mlynedd (llai ar gyfer cyfleusterau cyllid gorddrafft ac anfonebu)
67. Er bod y Llywodraeth yn darparu gwarant i'r benthyciwr, nid oes gan y BBB unrhyw rôl yn y broses o wneud penderfyniadau. I gael rhagor o wybodaeth am EFG, ewch i: <https://www.gov.uk/understanding-the-enterprise-finance-guarantee>
68. Rydym hefyd wedi clywed barn gref gan ymarferwyr, yn fwyaf diweddar yn y digwyddiad bwrdd crwn a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Gyfraith, er eu bod yn cydnabod yr angen i weithio yn ddigidol a'r manteision o wneud hynny, nad oes ganddynt y mynediad at gyllid angenrheidiol i fuddsoddi yn y seilwaith digidol gofynnol. Rydym yn mynd ati i archwilio ffyrdd o ymdrin â'r materion a wynebir gan ymarferwyr cymorth cyfreithiol wrth ariannu buddsoddiad digidol.
69. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ninnau hefyd wneud ein rhan, a gwneud systemau, prosesau ac adeiladau ystâd CJS yn fwy hygyrch o ran gwaith digidol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad at Wi-Fi a socedi pŵer ym mhob llys fel rhan o fuddsoddiad yn seilwaith ystâd y llysoedd. Mae Rhaglen Effeithlonrwydd y CJS yn gwneud camau sylweddol i sicrhau ein bod yn cyrraedd y man cywir.

⁷ Nid yw'r BBB yn asesu iechyd ariannol unrhyw sefydliad yn uniongyrchol a dim ond gyda benthycwyr masnachol sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau sydd ar gael y mae'n gweithio. Mae angen i ymarferwyr baratoi fel y byddent yn ei wneud ar gyfer unrhyw benderfyniad buddsoddi masnachol.

70. Bydd y pecyn hwn o fesurau cymorth yn mynd rhan o'r ffordd i helpu darparwyr i ymdopi â'r heriau sydd o'u blaenau. Nid ydym yn tanamcangyfrif y newidiadau sydd raid i'r farchnad hon ymgymryd â hwy i sicrhau ei bod yn gynaliadwy. Rydym yn credu y bydd y model caffael terfynol yn darparu'r cyfle hwnnw i'r rhai sydd â diddordeb mewn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ac i'r newydd-ddyfodiaid hynny sy'n dymuno ymuno.
71. Yn dilyn arfer da, rydym yn bwriadu cadw cyflwr y farchnad o dan adolygiad parhaus a bydd timau rheoli contract yr LAA yn monitro effaith y newidiadau fel rhan o'u gweithdrefnau archwilio arferol a chyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda darparwyr.
72. Yn ogystal, fodd bynnag, byddwn yn cynnal adolygiad, gan ddechrau ddim cynt na haf 2016, er mwyn gwerthuso darpariaeth y gwasanaethau ymgyfreitha, gan gynnwys effaith y mecanweithiau ffi sefydlog fel mesur priodol o dâl parhaus am y gwaith.

Lleihau ffioedd yn raddol

73. Trwy gydol yr ymarferion ymgynghori, rydym wedi ei gwneud yn glir mewn dogfennau cyhoeddus ac mewn gwahanol fforymau cyhoeddus (Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, sioeau teithiol ymgynghori, digwyddiadau bwrdd crwn Cymdeithas y Gyfraith ayb) fod angen parhau i dynnu i lawr gost cymorth cyfreithiol, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y fargen orau i'r trethdalwr, a bod y system yn parhau i ennyn hyder y cyhoedd. Rydym hefyd wedi bod yn glir bod yr Adran yn wynebu her ariannol sylweddol o ran lleihau ei gwariant, fel ag y mae holl adrannau'r Llywodraeth.
74. Yn y model addasedig a nodwyd yn y Camau Nesaf, cynigiwyd lliniaru effaith y gostyngiadau ffioedd drwy gyflwyno gostyngiadau ffioedd yn raddol. Bydd y newid mewn ffioedd yn dechrau o 20 Mawrth 2014, ac yna ceir gostyngiad o 8.75% arall (o'i gymharu â lefelau ffioedd cyfredol ac yn erbyn y trefniadau tâl arfaethedig a drafodwyd ym mharagraffau 39-53 uchod) ar gychwyn y contractau newydd yn y gwanwyn 2015.
75. Mae hyn yn ein galluogi i ddechrau gwireddu arbedion angenrheidiol i gwrdd â'r rheidrwydd ariannol i leihau gwariant tra bod yr oedi wrth weithredu contractau newydd drwy ymestyn y broses gaffael yn rhoi mwy o amser i ymgeiswyr tebygol baratoi ar gyfer effaith y toriad ffi lawn. Rydym yn glynu wrth y farn y bydd graddio'r gostyngiad o 17.5% mewn ffioedd drwy gymhwyso dau ostyngiad olynol o 8.75% yn annog darparwyr presennol i archwilio'n brydlon y cyfleoedd ar gyfer y lefel o atgyfnerthu'r farchnad sy'n angenrheidiol i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y tymor hwy, tra'n sicrhau bod y system cymorth cyfreithiol droseddol yn darparu cynrychiolaeth effeithiol.
76. Mae'n bwysig nodi mai dim ond ar gyfer achosion newydd sy'n dechrau ar neu ar ôl 20 Mawrth 2014 y bydd y gostyngiad ffioedd yn berthnasol, a bydd yn cymryd cyfnod o amser i ddod yn effeithiol ac i gael unrhyw effaith sylweddol ar lefel hawlio darparwyr. Mae hyn oherwydd mai dim ond ar gyfer achosion newydd y bydd y cynllun ffioedd newydd arfaethedig yn berthnasol, sy'n golygu y bydd symud o un cynllun ffioedd i un arall yn broses raddol. Credwn fod hyn yn rhoi digon o gyfle i'r darparwyr hynny nad ydynt eisoes wedi cymryd camau i wneud y gwelliannau effeithlonrwydd angenrheidiol i allu ymdopi â'r gostyngiad ffioedd. Ar ôl pum mis o gyflwyno'r toriad ffi interim, awgryma ein dadansoddiad bydd tua hanner y refeniw

ffioedd cymorth cyfreithiol a delir yn dal i fod ar y cynllun tâl uwch presennol ar gyfartaledd.

Ffioedd Graddedig Adfocadau

77. Ym mis Medi, nodwyd dau fodel amgen ar gyfer diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) er mwyn tynnu i lawr gostau cymorth cyfreithiol a sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Mae'r ddau fodel yn cyflawni symleiddio pellach o'r strwythur ffioedd tra'n cymryd i ystyriaeth faint o baratoad sydd ei angen yn gyffredinol mewn gwahanol fathau o achosion.
78. Roedd Opsiwn 1 yn seiliedig ar ein cynnig gwreiddiol ar gyfer ffioedd adfocatiaeth a nodir yn Ebrill 2013 ond gyda rhai addasiadau i'r strwythur, cyfraddau a gweithrediad y tapr. Roedd yr opsiwn diwygiedig yn cynnig cysoni'r ffioedd sylfaenol ar gyfer ple euog a threialon chwâl, a gadael y ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon heb eu newid o'u lefel bresennol. O dan yr opsiwn hwn, byddai gostyngiad mewn Ffioedd Presenoldeb Dyddiol (DAFS) yn dal i fod, a byddai tapr mewn cyfraddau DAF o drydydd diwrnod y treial. Fodd bynnag, roedd y tapr diwygiedig yn llai serth na'r cynnig gwreiddiol a hefyd roedd yn sicrhau na fyddai DAFs yn disgyn yn is na'r isafswm cyfraddau dyddiol presennol.
79. Addaswyd Opsiwn 2 o'r strwythur ffioedd a weithredir gan y CPS fel yr awgrymwyd gan Gyngor y Bar, ond gyda gostyngiad yn y cyfraddau a gynigid er mwyn gwneud yr un lefel o arbedion cyffredinol ag opsiwn 1. Roedd y model yn darparu ffi sylfaenol 'safonol' a ffi sylfaenol 'uwch' ar gyfer treialon. Ar gyfer pob math o drosedd, byddai lefel y ffioedd yn amrywio yn ôl y math o Adfocad Cyfarwyddiedig.
80. Fel y cynllun CPS, byddai ffi sylfaenol safonol yn daladwy am bob achos lle mae'r nifer tudalennau yn hafal i neu'n disgyn islaw trothwy penodol (fel y nodir yn Atodiad E), a byddai'r un fath ni waeth beth fyddai'r union nifer o dudalennau. Modelodd Cyngor y Bar y cynllun fel y byddai'r ffi sylfaenol safonol yn berthnasol yn y mwyafrif o achosion mewn unrhyw fath o drosedd benodol. Byddai'r ffi sylfaenol uwch yn daladwy am bob achos 'tystiolaeth ddwys' lle byddai'r nifer o dudalennau uwchlaw'r trothwy, ac unwaith eto byddent yr un fath ar gyfer pob achos o'r fath ni waeth beth fyddai'r union nifer o dudalennau. Byddai'r ffi sylfaenol uwch yn dal yr achosion mwyaf cymhleth mewn unrhyw fath o drosedd benodol o ran PPE. Byddai'r dull hwn yn lleihau'r angen i gyfrif yr union nifer o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd mai dim ond i weld os yr aethpwyd uwchlaw'r trothwy rhwng ffi sylfaenol safonol neu uwch y defnyddir cyfrif nifer y tudalennau. Byddai ffioedd sefydlog ar gyfer paratoad arbennig yn parhau i fod ar gael ar gyfer achosion gyda dros 10,000 o dudalennau o dystiolaeth.
81. Byddai treialon chwâl yn cael eu talu ar 80% o gyfradd treial a phle euog ar 45% o'r gyfradd treial. Yn ogystal, mae'r opsiwn hwn yn symleiddio'r cyfraddau mewn achosion lle mae Cwnsler y Frenhines neu gwnsleriaid lluosog yn cael eu cyfarwyddo. Yn yr achosion hyn, mae'r ffioedd safonol ac uwch priodol a'r DAFs ar gyfer diwrnod 41 ymlaen i Gwnsleriaid y Frenhines, bargyfreithwyr arweiniol iau, a bargyfreithwyr iau a arweinir yn cael eu cysoni ar draws yr holl grwpiau trosedd.
82. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad (gweler ein dadansoddiad yn Atodiad B) ac yn sgil yr angen parhaus i leihau gwariant cyhoeddus, rydym yn bwriadu gweithredu opsiwn 2. Er mwyn sicrhau bod y gronfa cymorth cyfreithiol yn darparu'r gwerth gorau i'r trethdalwr a bod gwasanaethau yn cael eu darparu mor effeithlon ag y

bo modd, rydym yn bwriadu mabwysiadu'r strwythur diwygiedig a'r cyfraddau a nodir yn Atodiad E. Yn ein barn ni, mae gostyngiad cyfradd yn gynaliadwy i adfocadau o ystyried gorgyflenwad y farchnad (a nodir yn Atodiad B). Pe byddai'r farchnad yn lleihau o ran maint a bod adfocadau yn brysurach, yna byddent yn derbyn lefel resymol o incwm ffioedd. Fodd bynnag, fel rhan o'n gwaith monitro parhaus o effaith diwygiadau a chynaliadwyedd y cynllun yn gyffredinol, rydym yn gwneud ymrwymiad rhwymol i adolygu'r fframwaith newydd flwyddyn ar ôl ei weithredu. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn digwydd yng nghyd-destun nifer o'r dylanwadau posibl a ragwelir ar ddarparu gwasanaethau adfocatiaeth droseddol megis:

- mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi cychwyn adolygiad i ganfod ffyrdd o leihau i'r isafswm nifer y gwrandawiadau cyn-treial sy'n golygu bod angen i adfocadau fynychu'r llys, ac i nodi ffyrdd o leihau a symleiddio hyd achosion troseddol;
- diwygiadau cyfiawnder troseddol, megis digideiddio, a fydd yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn effeithio ar sut mae adfocadau yn gweithio;
- mae Syr Bill Jeffrey yn cynnal adolygiad annibynnol o adfocatiaeth droseddol. Bydd angen i'r Llywodraeth a'r proffesiynau ystyried ei adroddiad ac unrhyw argymhellion maes o law.
- unrhyw effeithiau ar wariant cymorth cyfreithiol o ostyngiad mewn cyfraddau troseddu;
- ein gwaith i'r dyfodol gyda Chyngor y Bar i gefnogi bargyfreithwyr a lleihau costau gorbenion drwy rannu arfer da.

83. Nid oedd llawer o wrthwynebiadau i egwyddor y model, a luniwyd gan Gyngor y Bar, sy'n symleiddio ac yn lleihau baich gweinyddol yr AGFS presennol er budd adfocadau a'r LAA. Fodd bynnag, byddwn yn addasu'r ffioedd sylfaenol uwch sy'n daladwy i fargyfreithwyr iau a arweinir er mwyn cywiro gwall anfwriadol yn y model fel y'i cynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori (fel y nodir yn y tabl yn Atodiad I o'r ddogfen ymgynghori ym mis Medi 2013). Mae'r cywiriad yn cynhyrchu gwell ffioedd sylfaenol i fargyfreithwyr iau a arweinir a fydd yn uwch na'r lefel a gynigiwyd, gan y byddant yn cael eu talu ar 50% o gyfradd gyfatebol Cwnsler y Frenhines (yn hytrach na 50% o gyfradd bargyfreithwyr iau arweiniol, fel a gynigiwyd ynghynt). Gweler y cyfraddau diwygiedig sydd wedi'u cywiro yn Atodiad E. Rydym hefyd yn bwriadu (fel y nodir yn Atodiad E) amrywio un agwedd ar y model i wahardd nifer tystion o'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r ffi ar gyfer treialon chwâl a phleon euog, yn unol â'r modd y mae'r cynllun amddiffyn yn gweithredu ar hyn, o bryd er mwyn peidio â chreu baich newydd ar adfocadau, a fyddai'n gorfod cyflwyno tystiolaeth ynglŷn â'r nifer o dystion.

84. Bwriedir gweithredu'r fframwaith a chyfraddau diwygiedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy is-ddeddfwriaeth yn yr haf.

85. Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd y Llywodraeth "Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol". Roedd yn nodi rhaglen gynhwysfawr o waith i yrru gwelliannau ar draws y system wrth gyflenwi cyfiawnder troseddol. Yn ogystal, rydym yn parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol o'r proffesiynau cyfreithiol; sefydlwyd grŵp cynghori amddiffyn rhithwir yn cynnwys 18 o aelodau'r gymuned amddiffyn yn ystod haf 2013 i ymgysylltu â'r ymrwymadau polisi o fewn y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, yn ogystal â chynnig cyngor yn enwedig ynglŷn â wneud y system yn fwy effeithlon i adfocadau a gwneud y defnydd gorau o'u hamser. Byddai cyflawni newid o'r syniadau hyn yn cefnogi ymarferwyr amddiffyn sy'n gweithio'n galed, ac yn dod â manteision i bawb sy'n gweithio ac yn cymryd rhan yn y system cyfiawnder troseddol.
86. Yn ogystal, mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi gofyn i Syr Brian Leveson, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, gynnal adolygiad i ganfod ffyrdd o leihau i'r isafswm y nifer o wrandawiadau cyn-treial sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw diffynyddion yn y ddalfa ac i adfocadau fynychu'r llys; ac i ganfod ffyrdd o leihau a symleiddio hyd achosion troseddol. Mae wedi nodi y bydd hyn, yn benodol, yn archwilio i ba raddau y gellid gwneud gwell defnydd o atebion technolegol, er enghraifft, cynnal gwrandawiadau byr dros y ffôn neu drwy gyfrwng fideo ar y rhyngwrdd; a bydd hefyd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Droseddol er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a chefnogi unrhyw weithredu newidiadau a gynigir.

Materion Eraill

87. Roedd nifer o faterion eraill a godwyd gan ymgynghoreion y buom yn eu hystyried ac, o ganlyniad, yr ydym yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i gefnogi ymarferwyr.
88. Pwysleisiodd yr ymgynghoreion annhegwch arbennig canfyddedig y ffi sefydlog, a gyflwynwyd yn 2011, ar gyfer achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sy'n chwalo oherwydd nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar gam hwyr. Am y rhesymau a nodir yn Atodiad B, rydym yn bwriadu ailgyflwyno ffioedd treialon chwâl graddedig i ymglyfreithwyr ac adfocadau ar gyfer yr achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sydd ar hyn o bryd yn denu ffi sefydlog yn Llys y Goron lle mae'r barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn dilyn diffyg yr erlyniad i gynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif yn erbyn unigolyn.
89. Mewn ymateb i alwadau gan y proffesiwn, fel y nodir yn Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf, rydym wedi gweithio gyda'r proffesiynau i ddyfeisio system well o daliadau interim ar gyfer achosion hir hoedlog, h.y. treialon o 10 diwrnod neu fwy, i helpu gyda llif arian cwmnïau cyfreithiol ac adfocadau hunangyflogedig, ac i liniaru effaith gostyngiadau ffioedd. Bydd ymglyfreithwyr hefyd yn gallu hawlio taliad interim ar ôl Achos Gwrandawriad Ple a Rheoli (PCMH) effeithiol⁸ cyn treial o unrhyw hyd, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod gwaith ymglyfreithwyr yn gyffredinol yn dechrau yn gynharach nag adfocad ym mywyd achos troseddol sydd disgwyl iddo fynd i dreial.
90. Rydym yn bwriadu cyflwyno taliadau interim (yn ychwanegol at y darpariaethau presennol ar gyfer taliadau fesul cam ar gyfer adfocatiaeth Llys y Goron, taliadau

⁸ Pan fo ple dieuog yn cael ei chofnodi.

caledi a thaliadau interim ar gyfer treuliau a ganiateir ar hyn o bryd o dan y rheoliadau perthnasol⁹):

- i ymgyfreithwyr, sy'n caniatáu hawlio a gwneud taliad yn y naill neu'r llall o ddau bwynt sbardun yn ystod oes achos. Y cyntaf yw'r pwynt lle bu PCMH effeithiol ac mae'r ail ar ôl dechrau'r treial pan fo'r treial wedi'i restru am 10 diwrnod neu fwy; ac
 - i adfocadau, sy'n caniatáu hawlio a gwneud taliad ar ôl dechrau'r treial mewn unrhyw achos a restrir am 10 diwrnod neu fwy.
91. I'r diben hwn, y taliad interim fyddai'r taliad ffioedd graddedig isaf a allai fod yn daladwy ar ddiwedd achos. Er enghraifft, ar gyfer achosion gyda mwy na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, y ffi fyddai'n daladwy i ymgyfreithwyr ar ôl PCMH effeithiol felly fyddai'r ffi raddedig am dreial chwâl. Y ffi sy'n daladwy ar ôl cychwyn treial (sydd wedi'i restru am 10 diwrnod neu fwy) fyddai'r isafswm ffi sylfaenol ar gyfer treial o'r math hwnnw (llai unrhyw daliad a wneir ar ôl PCMH). Golyga hyn na fydd yn bosibl i'r taliad interim fod yn fwy na'r taliad terfynol sy'n ddyledus ar ddiwedd achos. Y taliad terfynol, felly, fydd unrhyw swm ychwanegol sy'n ddyledus. Fel yr awgrymwyd gan Gymdeithas y Gyfraith, byddwn hefyd yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer taliad interim i ymgyfreithwyr am daliadau i ymgyfreithwyr, lle fo gwerth y treuliau yn £500 neu fwy mewn achosion yn y llys ynadon. Caiff hyn ei wneud drwy'r contract 2015.
92. Cafwyd rhai awgrymiadau pellach gan y proffesiynau i wella llif arian i adfocadau y tu hwnt i'r taliadau interim. Nid ydym am weithredu'r rhain ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'r proffesiynau i archwilio posibiliadau o'r fath ymhellach.
93. Gweler manylion llawn y darpariaethau taliad interim newydd yn Atodiad F.
94. Bwriedir gweithredu'r fframwaith a chyfraddau diwygiedig a darpariaethau taliad interim Llys y Goron sy'n caniatáu i adfocadau ac ymgyfreithwyr wneud cais am daliad interim ar ddechrau'r treial (lle mae treialon wedi eu rhestru am 10 diwrnod neu fwy), yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach eleni. Bydd yr ail daliad interim i ymgyfreithwyr, sy'n caniatáu i ymgyfreithwyr wneud cais am daliad yn dilyn PCMH effeithiol, yn cael ei weithredu drwy is-ddeddfwriaeth yn ystod yr haf 2015.

⁹ Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 (Rhif 435).

Egwyddorion ymgynghori

Gweler yr egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

Atodiad A – Geirfa

<p>Achos Costus lawn (Trosedd)</p>	<p>Achos troseddol ble y caniatawyd gorchymyn cynrychioli ac y byddai Cyfarwyddwr Gwaith Achosion Cymorth Cyfreithiol yn ei ddynodi fel Achos Costus lawn (Troseddol) ar sail mai mewn perthynas â sefydliadau:</p> <p>(a) pe byddai'r achos yn mynd i dreial byddai'r treial ym marn yr LAA yn debyg o barhau am fwy na 40 diwrnod, ac mae'r LAA yn ystyried nad oes amgylchiadau eithriadol a fyddai'n ei wneud yn anaddas i ymdrin ag ef dan y trefniadau cytundebol ar gyfer VHCC; neu</p> <p>(b) pe byddai'r achos yn mynd i dreial byddai'r treial ym marn yr LAA yn debyg o barhau am ddim llai na 25 diwrnod a dim mwy na 40 diwrnod yn gynwysedig, ac mae'r LAA yn ystyried fod yna amgylchiadau sy'n ei wneud yn addas i ymdrin ag ef dan amodau cytundebol VHCC ac:</p> <p>(i) erlynir yr achos gan y Swyddfa Twyll Difrifol; neu</p> <p>(ii) mae'r achos yn Achos Terfysgaeth.</p> <p>Mae'r LAA yn cadw'r hawl i ddsbarthu achos fel un VHCC ble mae'n ystyried fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli a'i fod yn angenrheidiol i weithredu eu swyddogaethau dan y Ddeddf.</p> <p>Mewn perthynas ag Adfocadau: Pe byddai'r achos yn mynd i dreial, byddai'r treial ym marn yr LAA yn debygol o barhau am fwy na 60 diwrnod, ac mae'r LAA yn ystyried nad oes amodau eithriadol sy'n ei wneud yn anaddas i gael ei drin dan gytundeb achos unigol.</p>
<p>Achos Costus lawn (Sifil)</p>	<p>Achos sifil neu achos teuluol ble mae'r costau yn debygol o fod yn fwy na £25,000. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn rheoli'r rhain dan gytundebau achosion unigol.</p>
<p>Adran Mainc y Frenhines</p>	<p>Un o dair adran yr Uchel Lys sy'n delio'n bennaf â hawliadau am iawndal (gweler http://www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/queens-bench)</p>
<p>Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol</p>	<p>Asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2013, gan gymryd lle'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Y corff sy'n gyfrifol am gomisiynu a gweinyddu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, teuluol a throseddol yng Nghymru a Lloegr.</p>
<p>Categori/maes cyfraith</p>	<p>Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn diffinio meysydd o'r gyfraith (addysg, tai ayb) yn thematig ac yn contractio ar gyfer darparu cyngor a chynrychiolaeth yn seiliedig ar gategoriâu.</p>
<p>Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol</p>	<p>Y corff oedd yn gyfrifol cyn 1 Ebrill 2013 am gomisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, teuluol, a throseddol oddi wrth gyfreithwyr, bargyfreithwyr, asiantaethau cynghori, a chyfryngwyr teuluol ar draws Cymru a Lloegr. Roedd hefyd yn comisiynu gwasanaethau i'w darparu dros y ffôn a'r rhyngwyd yn ogystal ag yn bersonol.</p>

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol	Cytundeb rhyngwladol gorfodol. Mae'r Confensiwn yn cadw ac yn diogelu hawliau sifil a gwleidyddol sylfaenol (e.e. yr hawl i fyw, yr hawl i dreial teg, yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol). Cynlluniwyd y Confensiwn yn 1950 a daeth i rym yn 1953. Mae'n gytundeb Cyngor Ewrop ac fe sefydlodd Lys Hawliau Dynol Ewrop.
Cwmsler iau	Unrhyw fargyfreithiwr sy'n ymarfer ond heb ei benodi'n Gwmsler y Frenhines
Cymorth Cyfreithiol Sifil	Darperir cymorth cyfreithiol sifil yn unol â Rhan 1, Atodlen 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr 2012. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfreithiol sifil i'w cyllido dan gymorth cyfreithiol sifil neu gymorth cyfreithiol teulu ond yn eithrio gwasanaethau sydd angen eu cyllido gan gymorth cyfreithiol troseddol.
Cymorth cyfreithiol troseddol	Golyga cymorth cyfreithiol troseddol gyngor a chymorth (gan gynnwys cymorth adfocad) a chynrychiolaeth i bwrpas achosion troseddol (fel y caiff ei ddiffinio yn adran 14 o LASPO a Rheoliadau (Cyffredinol) Cymorth Cyfreithiol Troseddol 2013).
Cynllun Ffioedd Gradedig Adfocadau	Y cynllun ffioedd sy'n rheoli'r ffioedd a delir i adfocadau (bargyfreithwyr neu Gyfreithwyr-Adfocadau) sy'n cynrychioli cleientiaid mewn achosion troseddol yn Llys y Goron, ac eithrio achosion sydd wedi cael eu dosbarthu fel Achosion (Troseddol) Costus lawn. Penderfynir ar y taliad drwy fesurau dirprwyol, sef hynafedd yr adfocad, y math o drosedd, nifer tudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, nifer tystion yr erlyniad (ac eithrio'r 10 cyntaf) a nifer y dyddiau mae'r adfocad yn ei dreulio yn y llys yn ystod achos.
Cynllun Ffioedd Gradedig Ymglyfreithiwr	Y cynllun ffi sy'n rheoli ffioedd a delir i gyfreithwyr sy'n cynrychioli cleientiaid mewn achosion troseddol yn Llys y Goron, ac eithrio'r achosion a gafodd eu dosbarthu fel Achosion Costus lawn (Troseddol) ble yr amcangyfrifir y bydd y treial yn para dros 60 diwrnod. Penderfynir y tâl gan fesurau procsi, sef y math o drosedd, y nifer o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, a nifer o ddyddiau'r treial.
Gwaith Darparwr Dyletswydd	Gwaith Darparwr Dyletswydd yw'r holl gyngor cymorth cyfreithiol troseddol, ymglyfreitha (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau adfocad llys yr ynadon a roddir i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd fel man cais cyntaf.
Gwaith Opsiwn y Client	Gwaith Opsiwn y Client yw'r holl gyngor cymorth cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiad (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau eiriolaeth Llys Ynadon a gyflwynir i gleientiaid sy'n dewis eu darparwyr eu hunain ar fan cyntaf y cais.
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS)	Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am weinyddu llysoedd a thriwilysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr, a thriwilysoedd sydd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Partneriaeth Disgyblu Cyfreithiol	Ffurf ar gyfundrefn gydnabyddedig sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol ble nad yw'r perchnogion a rheolwyr i gyd yn gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr nac yn gyfreithwyr wedi eu cofrestru y tu allan i Gymru a Lloegr.
Sifil	Y maes o'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau a chysylltiadau dinasyddion preifat – er enghraifft, anghydfod ynglŷn â dyledion sydd heb eu talu, neu orfodaeth/ tor-cytundebau. Yn gyfrifol am gyfraith sifil a chyfraith teulu ond yn eithrio materion troseddol.
Strwythurau Busnes Eraill	Math newydd o strwythur cwmni cyfreithiol sydd ym mherchnogaeth rannol neu gyfan gwbl neu a reolir gan rai nad ydynt yn gyfreithwyr i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol (neu gymysgedd o wasanaethau cyfreithiol a rhai heb fod yn gyfreithiol).
Treial Chwâl	Achos sy'n cael ei stopio am fod y diffynnydd(ion) yn pledio'n euog neu nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth wedi i'r cyhuddedig gael ei gyhuddo ond cyn i'r treial gychwyn.
Trosedd ddiadwy	Trosedd a all ddim ond cael gwrandawriad yn Llys y Goron. Dosberthir troseddau ditiadwy fel rhai 1, 2, 3 neu 4. Ystyrir llofruddiaeth yn drosedd dosbarth 1.
Trosedd y naill ffordd neu'r llall	Trosedd y gellir gwrandao arni naill ai o flaen llys yr ynadon, neu o flaen rheithgor yn Llys y Goron. Penderfynir ar y man cyfarfod priodol mewn gwrandawriad Dull y Treial mewn Llys yr Ynadon. Os yw'r ynadon yn penderfynu fod y mater yn rhy ddifrifol neu'n rhy gymhleth ar gyfer treial diannod, gallant ei draddodi i Lys y Goron. Os yw'r ynadon yn penderfynu fod yr achos yn addas ar gyfer treial diannod, yna gall y diffynnydd ddewis treial gan reithgor.
Troseddau - Isaf	Gwaith a wneir gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn gorsafodd yr heddlu a llysoedd ynadon mewn perthynas â phobl a gyhuddir o droseddau. Mae cyfraith carchar yn gynwysedig yn y categori hwn.
Troseddau - Uchaf	Cynrychiolaeth gyfreithiol yn Llys y Goron a llysoedd uwch.
Troseddol	Maes y gyfraith sy'n diffinio ymddygiad a waherddir gan y Llywodraeth am yr ystyrir ei fod yn bygwth, niweidio neu fel arall yn peryglu diogelwch a lles y cyhoedd, ac sy'n gosod y gosb i'w phennu ar y rhai sy'n torri'r cyfreithiau hyn.

Termau model caffael gwasanaethau amddiffyn sifil troseddol:

Adolygiad Cyfoedion	Yr archwiliad annibynnol o safon y gwaith a gyflwynir dan gontract yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.
Ardal cyfiawnder lleol	Hon yn penderfynu pa lys ynadon sy'n gwrandao ar achos penodol, gyda rhai eithriadau (e.e. estraddodi).
Ardaloedd cynllun dyletswydd	Ardaloedd ffiniol sydd ynghlwm â gorsafodd heddlu neu lysoedd ynadon lle mae cyfreithwyr yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol

Asiant	Cyfeiria hyn at bobl neu sefydliadau sy'n cyflwyno gwasanaethau ar ran y darparwr.
Cynllun Cyflenwi	Rhan o'r cam Gwahoddiad i Dendro o'r Broses Caffael arfaethedig
Darparwr	Cyfeiria hyn at yr endid cyfreithiol y dyfarnwyd y contract iddo.
Gwaith Sifil Cysylltiedig	Cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth i faterion yn ymwneud â heriau cyfraith gyhoeddus sy'n deillio o unrhyw fater troseddol mewn cwmpas.
Lexcel	Safon rheoli arferion rhyngwladol Cymdeithas y Gyfraith
Marc Ansawdd Arbenigol (SQM)	Safon sicrwydd ansawdd ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae Partneriaeth Cyflenwi SQM yn gyfrifol am broses archwilio SQM, a bydd yn gwneud unrhyw archwiliadau sydd eu hangen i ennill neu i gadw contractau i'r dyfodol gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA).
Menter ar y cyd	Cyfeiria hyn at grwpiau neu unigolion yn ffurfio endidau cyfreithiol newydd i gyrraedd eu maint optimwm i'w galluogi i dendro.
Ymgeisydd	Cyfeiria hyn at y sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan yn y broses dendro.

Acronymau:

AGFS	Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau
ABS	Strwythurau Busnes Eraill
BAME	Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
BBB	Banc Busnes Prydain
BSB	Bwrdd Safonau'r Bar
CBA	Cymdeithas y Bar Troseddol
CDS	Gwasanaeth Amddiffyn Troseddwyr
CFA	Cytundeb Ffioedd Amodol /Trefniant Ffioedd Amodol
CJS	System Cyfiawnder Troseddol
CLSA	Cymdeithas Cyfreithwyr Deddfau Troseddol
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DAF	Ffi Presenoldeb Dyddiol
DSCC	Canolfan Alwadau Cyfreithwyr Amddiffyn
ECHR	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
ECF	Gwarant Cyllid Menter
HCA	Adfocadau'r Uwch Lysoedd (yn cynnwys Cyfreithwyr-Adfocadau)
HMCTS	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
ITT	Gwahoddiad i Dendro

LAA	Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
LASPO	Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
LCCSA	Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain
LGFS	Cynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreithwyr
LSC	Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
LSRC	Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
LSRC	Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
PCMH	Gwrandawriad Rheoli Pledio ac Achos
PDS	Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd
PPE	Tudalennau o Dystiolaeth yr Erylniad
PQQ	Holiadur cyn-gymhwyso
QC	Cwnsler y Frenhines
SME	Busnes Bach neu Ganolig
SRA	Awdurdod Rheoli Cyfreithwyr
TUPE	Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006
VAT / TAW	Treth ar Werth
VHCC	Achosion Costau Uchel (gallent fod yn achosion troseddol, sifil neu deuluol)

Atodiad B – Crynodeb o'r ymatebion

Cyflwyniad

1. Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu dadansoddiad o'r ymatebion i'r ddogfen *Trawsnewid cymorth cyfreithiol: Y Camau Nesaf*.
2. Rydym yn amcangyfrif y bydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, unwaith y gweithredir hwy yn llawn, yn cyflawni arbedion o tua £130m y flwyddyn erbyn 2018/19.

Sylwadau cyffredinol ar y model caffael addasedig

3. Yn y *Camau Nesaf* cynigiwyd model newydd addasedig o'r cynnig gwreiddiol a nodwyd yn ymgynghoriad Ebrill), ar gyfer caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r model addasedig a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

4. Croesawodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y model addasedig fel gwelliant ar y model blaenorol. Yn benodol, roeddynt yn croesawu cael gwared â phris fel maen prawf dyfarnu a chadw dewis cleient. Fodd bynnag, parhaodd yr ymatebwyr i fod â nifer o bryderon am wahanol agweddau ar y model ac awgrymodd rhai sut i wneud gwelliannau.

Gostyngiadau ffioedd

5. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, yn enwedig cyrff cynrychiadol fel Cymdeithas y Gyfraith, yn mynegi eu gwrthwynebiad cryf parhaus i'r gostyngiad mewn ffioedd, o ran y gostyngiad ffioedd fesul cam a'r gostyngiad arfaethedig ochr yn ochr â chyflwyno contractau newydd. Tynnwyd sylw at yr effaith bosibl ar gwmnïau, gan gynnwys risg uchel o gau.
6. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd yr effeithiau toriadau blaenorol a wnaed i'r sector cyfreithiol wedi cael eu cydnabod yn iawn, ac y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi gwrthwynebu'n gryfach y gostyngiadau yn y gyllideb gan y Trysorlys ar y sail bod cymorth cyfreithiol eisoes wedi cymryd ei gyfran deg.
7. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr ba mor fregus yw'r farchnad ar hyn o bryd o ganlyniad i'r toriadau blaenorol hyn, yn ogystal â chynnydd is na chwyddiant a gostyngiad mewn cyfraddau troseddu. Rhybuddiodd yr ymatebwyr y gallai'r bregusrwydd hyn achosi i'r sylfaen cyflenwyr grebachu yn eithaf cyflym ac mewn modd na ellir ei ragweld os yw'r cynigion yn mynd yn eu blaenau.
8. Dadleuodd llawer o ymatebwyr y dylai'r Llywodraeth aros yn hytrach i werthuso arbedion o doriadau blaenorol, yn ogystal ag o'r gostyngiad mewn cyfrolau troseddu, cyn gwneud newidiadau pellach i'r farchnad.
9. Dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith hefyd y byddai gostyngiad ffioedd ar gyfer gwaith cyfraith carchar ac apeliadau ac adolygiadau yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd

gwaith o'r fath, o ystyried ei gyfraddau cymorth cyfreithiol sydd eisoes yn gymharol isel, yn ogystal â'i gymhlethdod. Roeddynt yn gofyn am ailystyried toriadau yn y maes hwn, o gofio'r nifer lai a llai o gwmnïau sy'n barod i ymgymryd â gwaith o'r fath.

10. Dadleuodd y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG) hefyd y byddai effaith gronnus toriadau yn golygu colli llawer o ddarparwyr o ansawdd da ac arbenigol. Dadleuodd Cyngor y Bar, hyd yn oed wrth gyfuno, na fyddai llawer o gwmnïau yn goroesi'r gostyngiadau ffioedd.

Ymateb y Llywodraeth

11. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryder sy'n parhau ynghylch y gostyngiadau ffioedd fesul cam, ynghyd â'r gostyngiad ochr yn ochr â chyflwyno contractau newydd.
12. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n dal i fod yn wir na ellir eithrio cymorth cyfreithiol pan fo bron bob maes arall o wariant Llywodraeth yn cael ei ostwng ymhellach. Mae gan y Llywodraeth ddyletswydd i sicrhau bod y gwasanaethau cymorth cyfreithiol rydym yn eu caffael yn cyflawni gwerth am arian i'r trethdalwr.

Yr angen i gyfuno / arbedion maint

13. Roedd rhai ymatebwyr â phryder penodol y byddai'r ffioedd gostyngol y byddent yn eu derbyn am Waith Darparwr Dyletswydd yn golygu nad oedd cymhelliant digon mawr i raddio'i fyny neu i gyfuno er mwyn cynnig am gontract.
14. Roedd pryder gan rai ymatebwyr y gall y farchnad weld rhagor o ddarnio, ac awgrymwyd mai gan ymarferwyr unigol neu ddarparwyr gyda dim ond dau bartner mae'r costau cyffredinol isaf, ac felly'r cyfle gorau i gynnal y toriadau.
15. Roedd ymatebwyr eraill, megis y LAPG, yn cwestiynu a oedd angen cyfuno'r farchnad cymorth cyfreithiol troseddol o gwbl.

Ymateb y Llywodraeth

16. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu bod angen cyfuno er mwyn sicrhau marchnad gwasanaethau cymorth cyfreithiol cynaliadwy, ac na fydd y cyfuno hwn yn digwydd heb ymyrraeth gan y Llywodraeth.

Effaith ar ansawdd

17. Roedd Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, a Chymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain (LCCSA) ymhlith y rhai a oedd yn dadlau na all cwmnïau gynnwys y gostyngiadau ffi arfaethedig, hyd yn oed gyda darbodion maint heb ostwng ansawdd y gwasanaeth. Dadleuodd yr ymatebwyr y bydd rhaid i gwmnïau arbed arian drwy gyflogi llai o staff a phobl llai cymwys, ac y bydd llai o amser, gofal a sylw yn cael eu rhoi i bob achos.
18. Awgrymodd Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol (CLSA) hefyd y gall cwmnïau gael eu temtio i osgoi achosion difrifol a chymhleth, a delio â rhai cyflym a syml yn lle hynny, gan arwain at system ansawdd ddwy haen. Roedd Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx), Cyngor y Bar, a rhai ymatebwyr unigol o farn debyg, gan gredu y byddai'r cynigion yn arwain at gostau anfwriadol, yn enwedig

ansefydlogrwydd y farchnad neu effaith ansawdd is gwasanaethau ar y llysoedd, a fyddai'n gwrthbwyso unrhyw arbedion.

19. Dadleuodd Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA) y bydd y cynigion yn creu ras i'r gwaelod o ran ansawdd gan na fydd cwmnïau sy'n ceisio gwneud elw yn allanoli i'r Bar, ond yn cadw gwaith proffidiol, hyd yn oed os yw'n cael ei wneud gan staff o ansawdd wael. Awgrymodd yr ymatebwyr o ganlyniad y byddai bwlch cynyddol ym maes cydraddoldeb arfau rhwng yr unigolyn a'r Wladwriaeth. Dadleuodd y CBA os yw'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynigion, dylent yn gyntaf redeg cynllun peilot er mwyn profi effaith y cynigion ar y lefel ansawdd cyn gwneud unrhyw benderfyniad i'w gyflwyno fesul cam ar draws y wlad.
20. Credai ymatebwyr y byddai'r gystadleuaeth am gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn ffafrio cwmnïau mwy, tra'n dinistrio cwmnïau stryd fawr. Credai llawer o'r ymatebwyr hyn petai hynny'n digwydd, yna byddai'n cael effaith negyddol ar ansawdd y gwasanaethau (barn a leisiwyd gan Gyngor y Bar a'r CBA).

Ymateb y llywodraeth

21. Mae'r Llywodraeth yn dal yn ymrwymedig i sicrhau fod cwmnïau yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol o ansawdd i'w cleientiaid. Nid ydym yn credu y byddai'r newidiadau hyn yn gostwng y lefel ansawdd a gynigir ar hyn o bryd gan ein darparwyr cymorth cyfreithiol. Yn ogystal, bydd yr holl gontractwyr yn destun adolygiadau annibynnol gan gymheiriaid ac mae'n ofynnol cyflogi goruchwylwyr cymwysedig addas. Rhaid i ddarparwyr gael sgôr adolygiad gan gymheiriaid o 3 neu uwch i gynnal eu contractau. Fel ag y mae'r sefyllfa dan gontractau presennol, ni fydd yn ofynnol i ddarparwyr ad-dalu'r costau safonol sy'n cael eu codi ar yr LAA gan y rhai sy'n cynnal yr adolygiad cymheiriaid os yw'r sgôr adolygu gan gymheiriaid yn 3 neu'n uwch.

Effaith ar y Bar

22. Mynegodd ymatebwyr unigol bryderon bod cwmnïau mwy yn llai tebygol o allanoli i'r Bar iau, a gallai hyn o bosibl effeithio dyfodol y Bar. Roedd gan Gyngor y Bar hefyd bryderon y byddai cwmnïau mwy yn ymdrechu i ddefnyddio mwy o bwysau economaidd ar y Bar hunangyflogedig trwy gadw adfocadau clwm (yn hytrach na chyflogedig), drwy dalu ffioedd gostyngol i fargyfreithwyr am droseddau is, drwy sicrhau fod cyfran o ffioedd adfocatiaeth yn Llys y Goron yn cael ei chadw, neu drwy fynnu ffioedd atgyfeirio.

Ymateb y llywodraeth

23. Ynglŷn ag effaith y cynigion hyn ar y Bar, nid ydym yn derbyn y byddai'r model o reidrwydd yn golygu y byddai darparwyr yn cadw gwaith adfocatiaeth. Yn 2012/13, roedd tua 70% o waith Llys y Goron yn cael ei wneud gan fargyfreithwyr.¹⁰ Credwn y byddai darparwyr yn parhau i roi cyfarwyddiadau i'r Bar hunangyflogedig pan fo'n briodol gwneud hynny.

¹⁰ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/238115/legal-aid-statistics-090913.pdf

Cwmpas y contract(au) newydd

24. O ran cwmpas arfaethedig y contract, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i roi contractau Gwaith Dewis y Cleient ar wahân i gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y gred na ddylai'r naill na'r llall gael eu cyfyngu o ran nifer, yng nghanol ofnau na fyddai'r cwmnïau hynny oedd â chontract Gwaith Dewis y Cleient, ond ddim contract Gwaith Darparwr Dyletswydd, yn gallu goroesi. Mynegodd yr LCCSA bryder hefyd y byddai'r model yn dyfnhau'r diffyg ymddiriedaeth rhwng cwmnïau dewis y cleient a chwmnïau dyletswydd; credant y bydd yr olaf yn cael eu gweld fel 'ffatrïoedd'.
25. Mynegodd ymatebwyr, gan gynnwys CILEX, eu cefnogaeth i'r penderfyniad i alluogi darparwyr i gynnal cyfraith carchar yn unig a/neu gwasanaethau apeliadau ac adolygiadau.

Ymateb y llywodraeth

26. Rydym yn credu bod tendro contractau Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd ar wahân yn ein galluogi i daro'r cydbwysedd cywir rhwng helpu'r farchnad i archwilio cyfleoedd i atgyfnerthu, a chadw dewis y cleient.

Hyd y contract

27. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn croesawu'r hyd contract fel gwelliant ar y cynnig gwreiddiol. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr y byddai'n well ganddynt petai am gyfnod hirach, er mwyn lliniaru'r risg ariannol a rhoi amser i gwmnïau godi arian a buddsoddi. Argymhellodd Cyngor y Bar hyd contract pum mlynedd (awgrymwyd hyn hefyd gan rai ymatebwyr unigol), ond nododd bod tensiwn rhwng hyn a chaniatáu i newydd-ddyfodiaid ddod i mewn i'r farchnad.
28. Awgrymodd yr LCCSA, y CLSA, a nifer o ymatebwyr unigol na ddylai contractau (contractau Gwaith Dewis y Cleient yn enwedig) gael eu hail-dendro bob tair/pedair blynedd, ond yn hytrach dylid eu gosod ar sail dreigl ac yn amodol ar ofynion cydymffurfio cylchol. Maent yn credu bod yr angen parhaus i ail-gontractio'n golygu cost ddiangen i gwmnïau a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA).

Ymateb y llywodraeth

29. Rydym yn croesawu adborth cadarnhaol ymatebwyr ar hyd y contract addasedig, ac yn deall y byddai'n well gan rai ymatebwyr hyd contract hirach. Fodd bynnag, ar ôl yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod pedair blynedd yn ddigon hir i roi'r sicrwydd ariannol sydd ei angen i ddarparwyr fuddsoddi yn eu busnes, tra'r un pryd sicrhau nad yw darparwyr yn cael eu clymu ac nad yw newydd-ddyfodiaid yn cael eu cloi allan am gyfnod rhy hir.

Mathau o ddarparwyr

30. O ran y mathau o ddarparwyr, gofynnodd yr ymatebwyr yn gyffredinol am ganiatáu atebion hyblyg i atgyfnerthu, cyn belled ag y bo modd. Nododd Cymdeithas y Gyfraith yn arbennig ei bod yn hanfodol cael yr hyblygrwydd mwyaf posibl o ran y mathau o drefniadau busnes a ganiateir.
31. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch p'un a all y contractau fod â gofynion penodol, megis cadw canran uchel o waith yn fewnol yn hytrach na defnyddio asiantau, a allai lesteirio atebion hyblyg i reoli'r gostyngiadau ffioedd.

32. Mynegodd llawer o ymatebwyr gefnogaeth i'r syniad o ganiatáu consortia.

Ymateb y llywodraeth

33. Mae'r Llywodraeth yn deall cais ymatebwyr am i ni fod mor hyblyg â phosibl gyda'r mathau o ddarparwyr y byddwn yn eu caniatáu, fel y gall cwmnïau ddefnyddio atebion arloesol gyda'r atgyfnerthu hwn. Rydym wedi bod yn ymchwilio pa opsiynau fyddai'n bosibl. Felly, yn ogystal â chaniatáu i ymgeiswyr fod yn sefydliadau unigol, yn fenter ar y cyd neu'n Strwythur Busnes Amgen, byddai trefniadau partneriaeth gyda chontractwr arweiniol (a fydd yn dal y contract ac yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau o dan y contract) a hyd at 3 o bartneriaid cyflenwi (cyfyngu i 2 bartner cyflenwi mewn ardaloedd caffael trefol) hefyd yn dderbyniol ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y Broses Dendro a bod cytundeb ffurfiol rhyngddynt sy'n cwmpasu rhai agweddau allweddol o ddarpariaeth gwasanaeth. Yn ogystal, bydd contractwyr yn gallu cyfarwyddo asiantau i ddarparu hyd at 25% o werth y contract o dan gontractau Gwaith Dewis y Cleient a Darparwr Dyletswydd.

Gwerth y contract

34. O ran gwerth y contract, roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, y CLSA, yn pryderu na fydd y darparwyr hynny y dyfernir contract Gwaith Darparwr Dyletswydd iddynt yn derbyn digon o waith.
35. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai dyrannu cyfran gyfartal o'r gwaith yn golygu y byddai'n rhaid i gwmnïau mawr leihau o ran eu maint, ac roedd well ganddynt ddyranniad o slotiau yn seiliedig ar faint gwaith hanesyddol y cwmni.
36. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu cael gwared â'r cysylltiad rhwng nifer o gyfreithwyr ar ddyletswydd a nifer y slotiau dyletswydd. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn pryderu y byddai'r cynnig yn gostwng y cymhelliant i gwmnïau gael mwy nag un Cyfreithiwr ar Ddyletswydd.
37. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai fod rheolaethau sy'n cyfyngu ar y gallu i newid cyfreithiwr rhwng yr ymchwiliad (cyn cyhuddiad) a chyfnod yr achos (ar ôl cyhuddiad) i atal cyfreithwyr ar ddyletswydd rhag rhoi cyngor o ansawdd da, dim ond i gollir gwaith wedyn i gwmni dewis y cleient, gan leihau gwerth y contract Gwaith Darparwr Dyletswydd.

Ymateb y llywodraeth

38. Mae'n bwysig iawn bod cwmnïau y dyfernir contract Gwaith Darparwr Dyletswydd iddynt yn cael mynediad at ddigon o waith, er mwyn caniatáu maint contract hyfyw yng ngoleuni'r ffoedd is. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd y nifer o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd a bennir ar gyfer pob un o'r ardaloedd caffael yn golygu y bydd mynediad at gyfran gyfartal o slotiau dyletswydd ym mhob ardal yn rhoi gwerth contract digonol. Wrth gwrs, bydd gwerth y contract mewn perthynas â Gwaith Dewis y Cleient yn dibynnu ar faint o fusnes a gynhyrchir gan gwmnïau unigol.

Dyrannu achosion

39. Nododd Cyngor y Bar, a rhai ymatebwyr unigol, eu bod yn cytuno â'r cynnig i gadw'r system bresennol o ddyrannu achosion trwy rota dyletswydd.
40. Amlygwyd y mater o gyfreithwyr 'rhithiol' gan nifer o ymatebwyr. Cyfreithwyr yw'r rhain nad ydynt bellach yn gweithio neu nad ydynt yn byw yn y wlad, ond eto mae eu

henwau'n cael eu defnyddio gan gwmnïau i wneud cais am fwy o gyfran o slotiau dyletswydd. Er bod pryderon yn parhau ynghylch sut i sicrhau fod cwmnïau yn dal i ddefnyddio cyfreithwyr ar ddyletswydd sydd â chymwysterau priodol, mynegodd ymatebwyr y byddai'n well ganddynt y dull hwn o ddyrannu oherwydd ei fod yn dileu'r cymhelliant i ddefnyddio cyfreithwyr 'rhithiol'.

Ymateb y Llywodraeth

41. Mae'r Llywodraeth yn falch bod y dull o ddyrannu achosion wedi ei groesawu gan nifer o ymatebwyr ac mae'n cydnabod bod y model addasedig yn ymdrin â'r pryderon a fynegwyd mewn perthynas â chyfreithwyr 'rhithiol'. Mae'r model addasedig yn dyrannu i gwmnïau, nid cyfreithwyr unigol, ac felly mae'n torri'r cysylltiad rhwng nifer o gyfreithwyr yn y cwmni a faint o waith y maent yn ei dderbyn.

Y broses gaffael

42. O ran y broses gaffael, mynegodd ymatebwyr bryder y byddai contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael ei dendro yn ôl capasiti yn hytrach na theilyngdod, gan eu bod yn credu y byddai hyn yn golygu gostyngiad yn ansawdd y gwasanaethau. Croesawodd Cyngor y Bar gynnwys profiad sector yr ymgeisydd yn y meini prawf tendro, ond dadleuwyd nad yw hyn yn mynd ddigon pell i sicrhau gwasanaethau o ansawdd da. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai pob cwmni gael eu hadolygu gan gymheiriaid cyn cyflwyno ceisiadau.
43. Mynegodd Cyngor y Bar bryder bod y gofyniad i ddal naill ai Marc Ansawdd Arbenigol (SQM) neu Lexcel, nad yw'r un ohonynt yn nodau ansawdd y Bar, yn rhwystr a allai atal siambrau rhag ymgeisio.

Ymateb y Llywodraeth

44. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd i ystyriaeth yr awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr wrth gynllunio'r broses gaffael.
45. Ond nid ydym yn derbyn y byddai'r Bar o dan anfantais yn y broses gaffael drwy ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ennill naill ai'r Marc Ansawdd Arbenigol neu Lexcel. Mae'r contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd a Gwaith Dewis y Cleient ar gyfer gwasanaethau ymgyfreitha troseddol, ac mae'r SQM a Lexcel yn mesur gallu'r sefydliad i reoli a darparu'r gwasanaethau hynny. Er nad yw'r rhan fwyaf o fargyfreithwyr a siambrau eto mewn sefyllfa i wneud cais am gontract cymorth cyfreithiol troseddol, rydym yn parhau o'r farn nad oes unrhyw rwystrau wedi'u cyflwyno gan y Llywodraeth a fyddai'n eu hatal rhag ailstrwythuro er mwyn eu galluogi i wneud hynny.

Ardaloedd daeryddol ar gyfer caffael a chyflenwi gwasanaethau

46. Yn y *Camau Nesaf* rydym yn cynnig nifer o newidiadau i'r ardaloedd caffael a gynigiwyd yn wreiddiol, am resymau o ddaeryddiaeth leol benodol. I grynhoi, roedd y newidiadau hynny'n cynnwys rhannu nifer o ardaloedd CJS yn ddwy drwy grwpio ardaloedd cynllun dyletswydd gorsafodd heddlu. Wrth wneud hynny, sicrhawyd na fyddai angen i ddarparwyr deithio ond hyd at 1.5 awr rhwng pwyntiau cyflenwi (e.e. gorsaf yr heddlu, llys ynadon, ayb). Yn ogystal, cynigiwyd rhannu Llundain yn naw ardal gaffael yn hytrach na'r tair ardal gaffael wreiddiol. Byddai'r naw ardal yn cyd-fynd â'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn Llundain. At ei gilydd, mae hyn yn creu 62 o ardaloedd caffael ledled Cymru a Lloegr.

47. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno ardaloedd caffael arfaethedig o dan y model addasedig (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.20 i 3.24)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

48. Croesawodd y mwyafrif o'r ymatebwyr yr addasiadau a wnaed i'r ardaloedd caffael a gynigiwyd yn wreiddiol, ac roeddynt yn falch y byddai comisiynu ymchwil modelu ariannol pellach hefyd yn ystyried hyfywedd gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag, nododd llawer o ohebwy'r yn glir y byddai'n well ganddynt beidio â chael unrhyw newid o'r ardaloedd caffael presennol.
49. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr eisiau gweld ystyriaeth fanwl yn cael ei rhoi i anghenion lleol er mwyn sicrhau fod yr ardaloedd arfaethedig yn briodol, yn ogystal â dull wedi'i deilwra i ardaloedd trefol/gwledig, a dull hollol ar wahân i Lundain.
50. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am y rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth ddylunio'r ardaloedd CJS, ond, yn awr eu bod yn bodoli, cytunai llawer o ymatebwyr ei bod yn rhesymegol eu defnyddio fel sail ar gyfer pennu ardaloedd caffael.
51. Roedd mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo'n gyffredinol bod yr ardaloedd arfaethedig yn rhy fawr. Er bod y newidiadau a wnaed i rai o'r ardaloedd caffael a gynigiwyd yn wreiddiol yn cael eu gweld fel gwelliant, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oeddem wedi mynd yn ddigon pell.
52. Mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr nifer o bryderon am y cynnydd mewn amseroedd teithio i uchafswm o 1.5 awr o bellter teithio rhwng dau bwynt cyflenwi.
53. Roedd gan yr LCSSA bryderon ynghylch costau cudd amser teithio o'r fath i ddarparwyr. Roedd llawer o ymatebwyr unigol hefyd yn credu y byddai'r costau a oedd ynghlwm (amser di-dâl, milltiroedd, parcio ayb) yn golygu nad oedd y cynigion yn gost effeithiol, hyd yn oed ar y lefelau ffioedd presennol, ac felly nad oeddent yn gynaliadwy mewn cysylltiad â'r gostyngiadau ffioedd. Mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr bryder hefyd nad oedd yr amseroedd teithio a amcangyfrifwyd gan offer mapio ar-lein yn cymryd i ystyriaeth traffig posibl, gwaith ffordd, a materion tywydd, ac felly nad ydynt yn adlewyrchu realiti.
54. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder am yr effaith ar gleientiaid. Gallai'r cynigion o bosibl gynyddu'r amser aros ar gyfer y cleient yng ngorsaf yr heddlu, ac roedd yr ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn gael ei ddefnyddio gan swyddogion ymchwilio i atal cleient bregus rhag gofyn am gael cyfreithiwr yn bresennol. Hefyd roedd yr LCCSA, a llawer o ymatebwyr unigol, yn pryderu am yr anawsterau y byddai mwy o amser teithio yn ei olygu i gleientiaid sy'n teithio i apwyntiadau yn swyddfa eu cyfreithiwr. Credai ymatebwyr y gallai'r daith hon o bosibl gymryd llawer mwy o amser na 1.5 awr ar gludiant cyhoeddus, a gallai fod yn rhy ddrud i lefel incwm llawer o gleientiaid. Roeddent yn pryderu y gallai hyn arwain at gleientiaid yn methu â mynychu apwyntiadau, ac effaith ganlyniadol hyn ar fynediad at gyfiawnder, yn ogystal ag effeithlonrwydd y gwasanaeth llys.
55. Nododd rhai ymatebwyr bryderon am ardaloedd caffael penodol. Roedd y rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Mynegodd LCCSA bryderon am yr ardaloedd caffael ar gyfer Llundain.
- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn fod Northumbria 2 gyda rhy ychydig o waith i'w wneud yn hyfyw.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu am faint sy'n cwmpasu Manceinion Fwyaf.
- Mae gan rai ardaloedd bellter sy'n fwy na'r terfyn 1.5 awr o amser teithio rhwng lleoliadau. Er enghraifft, rhwng Barnstable a Torquay/Plymouth yn ardal gaffael Dyfnaint, rhwng Aberystwyth ac Aberhonddu yn Nyfed-Powys 2, neu rhwng Berwick a Sunderland yn ardal Northumbria.
- Credai ymatebwyr fod cael ardal gaffael Ynys Wyth yn syniad da, ond mynegwyd pryder bod achosion weithiau'n cael eu hanfon i lysoedd ar y tir mawr, a chredent fod y gyfradd ffi sefydlog yn annigonol ar gyfer cost teithio.

Ymateb y Llywodraeth

56. Er bod yr ymatebwyr yn croesawu'r newidiadau a wnaed eisoes i rai ardaloedd, mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi bod nifer o bryderon yn parhau am ardaloedd caffael eraill.
57. Y prif bryder oedd gan ymatebwyr oedd bod yr ardaloedd yn rhy fawr. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gredu bod 1.5 awr o amser yn teithio rhwng y ddau bwynt cyflenwi gwasanaeth pellaf yn ddaearyddol yn derfyn priodol. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith yn achos cymorth cyfreithiol troseddol, o'i gymharu â chymorth cyfreithiol sifil, fod y rhan fwyaf o gysylltiad rhwng y cleient a'r darparwr yn digwydd yn lleoliad y cleient (boed hynny yng ngorsaf yr heddlu, llys neu'r carchar). Yn ogystal, byddwn yn cadw taliad ar wahân ar gyfer treuliau teithio a chynhaliath.
58. Yn ogystal â maint yr ardaloedd, buom yn ystyried yn fanwl pa mor briodol yn ddaearyddol yw'r ardaloedd. Cawsom fewnbwn gan yr LAA ar y mater hwn, yn ogystal â mewnbwn gan yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gennym, er mwyn darparu gwybodaeth leol am yr ardaloedd. Rydym eisoes wedi gwneud addasiadau i rai o'r ardaloedd, a chawsant dderbyniad da gan ymatebwyr. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Otterburn Legal Consulting LLP a KPMG LLP, yr ydym wedi penderfynu gwneud newidiadau pellach i rai o'r ardaloedd caffael.
59. Awgrymodd nifer o ymatebwyr nad oedd rhai o'r ardaloedd caffael arfaethedig yn briodol gan nad yw'r ffordd y mae'r ardaloedd CJS wedi cael eu rhannu yn cyd-fynd â'r modd y mae'r system yn gweithredu o fewn yr ardal honno. Ar ôl archwilio hyn yn fwy manwl yng ngoleuni'r ymatebion hynny, rydym yn cydnabod y byddai rhai o'r ardaloedd CJS rhanedig a gyflwynir yn y papur ymgynghori o gydbwysedd gwell petaem yn aildrefnu rhai o'r ardaloedd cynllun ddyletswydd mewn ffordd wahanol.
60. Yng ngoleuni dadansoddiad KPMG a'n dadansoddiad mewnol ein hunain yn arbennig, rydym hefyd wedi ystyried ffordd wahanol o rannu Llundain yn ardaloedd caffael llai o faint, gan roi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr wrth gyflenwi gwasanaethau. Gweler paragraffau 29 a 30 yn yr adran Ymateb i'r Ymgynghoriad uchod am fwy o fanylion.

Nifer y contractau

61. Cynigiodd y papur ymgynghori nifer digyfyngiad o gontractau ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient, ond nifer cyfyngedig o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, yn amrywio yn ôl ardal gaffael.
62. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r fethodoleg arfaethedig (gan gynnwys y ffactorau a nodwyd) i benderfynu ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.27 i 3.35)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

63. Croesawodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cynnig i gael nifer digyfyngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu y gallai'r cynigion mewn gwirionedd gyfyngu ar nifer y cwmnïau dewis y cleient beth bynnag (a thrwy hynny, ar ddewis y cleient). Mae hyn oherwydd eu bod yn credu mai ychydig o gwmnïau gyda chontract Gwaith Dewis y Cleient yn unig a allai oroesi heb gael cleientiaid newydd o Waith Darparwr Dyletswydd i ailgyflenwi eu sylfaen cleientiaid ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn nes ymlaen. Credai ymatebwyr na fyddai cwmnïau bach yn ddigon mawr i wneud cais llwyddiannus am gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd, ac felly y byddent yn cael eu heffeithio'n arbennig gan hyn. Hefyd credai'r LCCSA y byddai'r mater hwn yn effeithio'n arbennig ar gwmnïau yn Llundain.
64. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn pryderu am y cynnig i gyfyngu ar nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd. Croesawodd yr ymatebwyr fod ymchwil pellach wedi'i gomisiynu i helpu hysbysu ein penderfyniad terfynol o ran y nifer priodol o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd i ganiatáu marchnad hyfyw a chynaliadwy ym mhob ardal gaffael. Fodd bynnag, nodasant y byddent yn dymuno gweld gymaint o gontractau â phosibl ar gael (o fewn cyfyngiadau hyfywedd ariannol). Roedd rhai o'r rhesymau am hyn yn cynnwys: i gefnogi'r dewis cleient ehangaf posibl; i sicrhau cystadleuaeth dda yn y farchnad; i leihau lefel y cyfuno sydd ei angen; ac i leihau'r risg o wrthdaro buddiannau.
65. Credai nifer fach o ymatebwyr nad oedd y lleiafswm arfaethedig o bedwar contract gwaith Darparwr Dyletswydd ym mhob ardal gaffael yn ddigon uchel i osgoi gwrthdaro buddiannau. Daethant i'r casgliad hwn ar y sail nad yw gwrthdaro'n deillio o ddiffynyddion lluosog yn unig, ond yn hytrach o ffactorau eraill megis cynrychiolaeth tystion yn y gorffennol.
66. Roedd llawer o ymatebwyr yn feirniadol o'r cynnig i roi cyfran o slotiau cyfreithiwr ar ddyletswydd yn awtomatig i'r PDS. Nododd Cymdeithas y Gyfraith faterion yn ymwneud â gallu'r PDS i raddio'i fyny i'r capasiti sydd ei angen. Mynegodd yr LCCSA bryder bod y PDS yn cael mantais annheg yn y farchnad.
67. Erbyn y cylch nesaf o geisiadau ar gyfer contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, credai llawer o ymatebwyr mai monopoli o ddarparwyr mawr fyddai'r unig gwmnïau ar ôl gyda'r capasiti (neu'r capasiti posibl) i gyflenwi'r contractau, ac roeddynt yn pryderu ynghylch pa faterion allai ddeillio o'r diffyg cystadleuaeth hwn.
68. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai nifer y contractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd barhau'n amrywiol i dendrau dilynol.

Ymateb y Llywodraeth

69. Mae'r Llywodraeth yn croesawu adborth cadarnhaol ymatebwyr am ddarpariaeth y model o nifer digyfngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient. Rydym yn cydnabod bod rhai cwmnïau yn pryderu am yr effaith bosibl ar eu llwyth gwaith os ydynt yn aflwyddiannus o ran sicrhau contract Gwaith Darparwr Dyletswydd. Bydd maint y Gwaith Dewis y Cleient, wrth gwrs, yn dibynnu ar faint o waith mae cwmni yn ei gynhyrchu.
70. Er mwyn helpu i lywio ein penderfyniad terfynol ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, comisiynwyd darn o ymchwil pellach ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith. Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei wneud gan Otterburn Legal Consulting LLP a KPMG LLP. Cynhaliodd Otterburn Legal Consulting LLP arolwg a chyfweliadau â darparwyr presennol er mwyn casglu gwybodaeth am y farchnad gwasanaethau cymorth cyfreithiol presennol. Yna, defnyddiodd KPMG LLP y wybodaeth hon a'r data mwyaf diweddar oedd ar gael oddi wrth yr LAA i adeiladu model ariannol y gellid ei ddefnyddio i archwilio nifer priodol o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, ac argymhellodd amrediad lle'r oedd nifer y contractau yn hyfyw a chynaliadwy i bob ardal gaffael.
71. Roedd yr ymchwil annibynnol yn rhoi sail dystiolaeth bwysig ar gyfer penderfynu ar yr amrediad priodol o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd i'w cynnig ym mhob ardal gaffael. Fodd bynnag, ystyriwyd hefyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a chynhaliwyd ein dadansoddiad mewnol hunain o'r pedwar ffactor a restrir yn y Camau Nesaf (cyflenwad digonol i ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl, nifer digonol o achosion i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio; ystwythder y farchnad, a chaffael cynaliadwy) er mwyn llywio ein penderfyniad terfynol. Mae'r ddau adroddiad ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/consult_view>; a gellir gweld ein dadansoddiad mewnol yn Atodiad F.
72. Ar ôl pwysu a mesur y cyfan o'r dadansoddiad, yr ymchwil annibynnol, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r prif risgiau, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â gweithredu'r model caffael lle mae'r nifer fwyaf bosibl o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu cynnig. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle mwyaf bosibl i'r farchnad darparwr presennol barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Yn y model hwn, bydd Llundain hefyd yn cael ei rhannu'n 32 o ardaloedd caffael. Golyga hyn felly y bydd yr LAA yn cynnig cyfanswm o 525 o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd yng Nghymru a Lloegr, gyda nifer penodol o gontractau ym mhob ardal gaffael. Mae Tabl C2 yn Atodiad C yn nodi nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd ym mhob ardal.
73. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynghylch tegwch y cynnig i aseinio cyfran gyfartal o slotiau Darparwr Dyletswydd yn awtomatig i'r PDS yn yr ardaloedd lle mae eisoes wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gredu ei bod yn bwysig cynnal rôl i'r PDS oherwydd y rhan y mae'r gwasanaeth yn ei chwarae wrth feincnodi ac wrth ddatblygu safonau ansawdd ar gyfer gwaith amddiffyn troseddol. Felly, byddwn yn cadw'r ddarpariaeth hon dan y model terfynol.

Peirianweithiau tâl

74. Cynigiodd y papur ymgynghori:

- Cynlluniau ffioedd sefydlog ar gyfer presenoldeb mewn gorsaf heddlu, cynrychiolaeth llysoedd ynadon ac ymgyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE)).
- I ymgyfreitha yn Llys y Goron, byddai achosion gyda mwy na 500 o PPE yn cael eu talu o dan Gynllun Ffioedd Graddedig Ymgyfreithwyr (gostyngiad o 17.5%).
- Bydd pob peirianwaith tâl arall yn aros yn ddigyfnwid, er y bydd cyfraddau tâl yn cael eu gostwng.

75. Gofynnodd yr ymgyngoriad:

Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r mecanweithiau tâl arfaethedig o dan y model addasedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52 i 3.73)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

76. Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth i'r egwyddor o ffioedd sefydlog, am resymau symlrwydd, ac am resymau tegwch ar draws gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu nad oedd y rhesymau dros ffioedd amrywiol yn genedlaethol wedi diflannu. Roedd y ffactorau lleol a amlygwyd gan ymatebwyr yn cynnwys: amseroedd teithio ac amseroedd aros; gorbenion swyddfa; patrymau troseddu; amrywiad yn y nifer o achosion cymhleth; a'r angen am gyfieithwyr ar y pryd.
77. Dadleuodd rhai ymatebwyr y byddai'r newid o ffioedd amrywiol i un ffi genedlaethol yng ngorsaf yr heddlu yn golygu colledion llawer mwy na 17.5% i rai cwmnïau, yn enwedig yn Llundain, lle'r awgrymwyd y byddai ffi sefydlog gorsaf heddlu yn golygu toriad o nes at 35%. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn amheus am y manteision ar gyfer symlrwydd, gan y byddai angen i gwmnïau ailysgrifennu eu systemau cyfrifiadurol.
78. Yn benodol ynglŷn â'r cynnig ffi sefydlog gorsaf heddlu, mynegodd llawer o ymatebwyr bryder y byddai darparwyr yn cael eu talu'r un faint, waeth pa mor hir oedd eu presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu. Gan fod achosion mwy cymhleth fel arfer angen presenoldeb hwy, roedd ymatebwyr yn pryderu y byddai ffi sefydlog yn cael yr effaith o dalu'r gyfradd yr awr isaf ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am yr effaith y gallai hyn ei chael ar ansawdd, gan ddadlau bod y strwythur talu (yn enwedig cael gwared â'r cymal dianc) yn llesteirio cwmnïau rhag anfon eu cynghorwyr mwyaf profiadol i orsaf yr heddlu, hyd yn oed ar gyfer achosion difrifol a chymhleth iawn. Dadleuodd yr LCCSA y byddai effaith hon ar ansawdd yn gorbwyso unrhyw fanteision posibl o ran symlrwydd. Mynegodd y mwyafrif o ymatebwyr unigol yn gryf, yn ogystal â Chymdeithas y Gyfraith a CILEX, y dylid cael trothwy dianc ar gyfer gwaith gorsaf heddlu gwerth uchel, er enghraifft, lle mae cleientiaid yn cael eu cadw am gyfnodau hir o amser.
79. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gysoni pleon euog a ffioedd treialon chwâl ar gyfer gwaith llys ynadon ac roeddynt am i'r ffi barhau i amrywio yn dibynnu ar y categori achos (ple euog, treial chwâl, neu dreial llawn). Y prif bryder oedd y perygl o greu cymhelliant gwrthnysig i gyfreithwyr argymell ple euog.
80. Nododd ymatebwyr hefyd y ffaith bod pleon yn awr yn cael eu gwneud yn aml cyn y dystiolaeth lawn, a gallai'r datblygiad arfaethedig gynyddu'r cymhelliant i gyfreithwyr

dueddu i beidio â chymryd risg, ac i argymhell ple euog cyn cael yr holl wybodaeth berthnasol.

81. Credai llawer o ymatebwyr y byddai dyletswydd broffesiynol cyfreithiwr yn ennill mewn unrhyw wrthdaro buddiannau, ond y byddai'r cynnig yn dal i greu *canfyddiad* bod gwrthdaro rhwng blaenoriaethau'r cyfreithiwr a blaenoriaethau'r cleient. Roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn arwain at i gleientiaid beidio ag ymddiried yng nghyngor eu cyfreithiwr a dewis anwybyddu'r argymhelliad i bledio'n euog, hyd yn oed pan mai hwn fyddai'r opsiwn gorau iddynt.
82. Roedd pryderon eraill yn ymwneud â'r gwahaniaeth mewn amser a dreulir ar bleon euog a threalon chwâl. Credai ymatebwyr y byddai'n annheg cosbi darparwyr am ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth a allai arwain at dreialon chwâl. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys aneffeithlonrwydd y CPS, y credai ymatebwyr a allai achosi derbyniad ple amgen ar y funud olaf neu dynnu achos yn ôl, a phenderfyniad terfynol y cleient, sydd yn y pen draw yn fater iddynt hwy ei wneud.
83. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn pryderu bod y cynnig yn gwobrwyo darparwyr sydd ond yn gwneud ychydig iawn i baratoi ar gyfer treial, oherwydd bod y rhai sy'n gweithio'n galed i danseilio achos yr erlyniad yn cael eu cosbi os yw'r achos yn cael ei ollwng o ganlyniad.
84. Mynegodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y CLSA, gefnogaeth i gadw'r ffi dianc ar gyfer gwaith llys ynadon ond dadleuwyd bod y trothwy yn rhy uchel.
85. Ar y cyfan, credai ymatebwyr nad oedd angen cysoni ffioedd pleon euog a ffioedd treialon chwâl i sicrhau arbedion, a gallai toriad syml yn lle hynny gael ei wneud i'r ddwy ffi o fewn y system bresennol.
86. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr unigol yn gwrthwynebu ffi sefydlog Llys y Goron oherwydd eu bod yn credu y byddai'n creu cymhelliad, neu ganfyddiad o gymhelliad, i ddarparwyr gynghori yn erbyn i ddiffynnydd ethol i gael treial gerbron rheithgor.
87. Credent hefyd na all ffioedd Llys y Goron gynnal gostyngiad arall, ac y byddai effaith sylweddol ar ansawdd y gynrychiolaeth os yw'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen.

Ymateb y Llywodraeth

88. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynghylch bodolaeth barhaus ffactorau lleol a allai effeithio ar y gwahaniaethau mewn costau i ddarparwyr yn genedlaethol. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd gan Gymdeithas y Gyfraith (ac yr oedd llawer o ymatebwyr yn cytuno â hwy), mae'r angen i symleiddio'r peirianweithiau tâl presennol ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau. Byddai cyflwyno ffioedd sefydlog cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol yn gwneud y system yn fwy syml, a fyddai'n fanteisiol o ran gweinyddu i ddarparwyr a'r LAA.

Presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu

89. Yng ngoleuni pryderon penodol ymatebwyr am yr effaith anghymesur y byddai cyflwyno ffi sefydlog presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu yn ei chael ar Lundain, yn ogystal â'r ymchwil a wnaed gan Otterburn Legal Consulting LLP a KPMG LLP, rydym wedi penderfynu newid y ffi sefydlog presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu. Yn hytrach nag un ffi sefydlog genedlaethol ar gyfer presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu,

bydd un ffi sefydlog ar gyfer gwaith a gynhelir yn Llundain a ffi sefydlog is ar gyfer gwaith a wneir y tu allan i Lundain.

90. Mae'r Llywodraeth hefyd yn deall pryderon yr ymatebwyr ynghylch talu'r un ffi, waeth beth fo hyd y presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr achosion mwyaf difrifol neu gymhleth. Rydym wedi ystyried y cais cryf gan yr ymatebwyr i gynnwys mesurau yn y model ar gyfer yr achosion hynny lle bo'r darparwr wedi treulio amser anghymesur yn cynghori'r cleient. Rydym wedi penderfynu, felly, cadw'r gyfradd fesul awr gorsaf heddlu bresennol ar gyfer y rhai lle cyrhaeddir y Trothwy Eithriadol (sy'n hafal i dair gwaith y ffi a bennwyd ar gyfer yr ardal honno), serch bod y gyfradd fesul awr yn cael ei gostwng o 17.5% dan y gyfradd bresennol.

Llys Ynadon

91. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryderon cryf a fynegwyd ynghylch y cynnig i gysoni ffioedd ar gyfer pleon euog a threialon chwâl yn y llys ynadon. Yng ngoleuni'r ymatebion, rydym wedi penderfynu newid y mecanwaith tâl arfaethedig ar gyfer y llys ynadon gyda ffioedd sefydlog gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o achosion. Rydym felly yn bwriadu cyflwyno mecanwaith ffioedd sefydlog ar gyfer y llys ynadon sy'n cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng ardaloedd dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi a dileu'r gwahaniaeth rhwng ffioedd safonol is ac uwch, ond yn cynnal y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o achosion. Credwn y bydd hyn yn helpu'r ffioedd sefydlog i adlewyrchu'n fwy cywir faint o waith a wnaed ar gyfer pob achos, tra'n parhau i ganiatáu symleiddio.

Llys y Goron

92. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod y pryderon ynghylch ffioedd sefydlog yn Llys y Goron, gan gynnwys y cymhelliad canfyddedig i gynghori cleientiaid i ddewis aros yn y llys ynadon ar fater naill ffordd neu'r llall, ac effaith bosibl y gostyngiad ffioedd ar ansawdd. Rydym felly wedi diwygio'r cynllun ffioedd sefydlog arfaethedig ar gyfer Llys y Goron i gyflwyno trydydd newidyn: y math o achos. O dan y model terfynol, bydd y ffi briodol ar gyfer gwaith Llys y Goron yn cael ei phenderfynu gan gyfuniad o'r math o drosedd, tudalennau tystiolaeth yr erlyniad, a p'un a yw'r achos yn un ple euog, treial chwâl, neu dreial llawn.

Gostwng ffioedd yn raddol

93. Mae'r papur ymgynghori yn cynnig gweithredu'r gostyngiad ffi arfaethedig yn raddol, gan ddechrau gyda gostyngiad o 8.75% yn y ffi interim yn gynnar yn 2014 ar draws yr holl wasanaethau ymglyfreitha troseddol (gan gynnwys yr holl wasanaethau cynghori o dan y Contract Trosedd Safonol 2010) a ffioedd adfocatiaeth llys ynadon, ac yna ail ostyngiad o 8.75% ar draws yr un ystod o ffioedd yn y gwanwyn 2015 i gael ei gymhwyso i Waith Darparwr Dyletswydd a Gwaith Dewis y Cleient dan y contractau cymorth cyfreithiol troseddol newydd.
94. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r gostyngiad ffi interim arfaethedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52-3.55) ar gyfer pob dosbarth o waith yng nghwmpas y Contract Troseddol Safonol 2010 (ac eithrio Gwaith Sifil cysylltiedig)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

95. Ailadroddodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu gwrthwynebiad i unrhyw ostyngiad o gwbl mewn ffioedd.
96. Mynegodd yr ymatebwyr safbwyntiau cymysg ar y cynnig i weithredu'n raddol. Credai rhai, petai gostyngiad yn digwydd, y byddai dull graddol fesul cam yn well. Roedd rhai hyd yn oed yn awgrymu y byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth asesu'r effaith ar gwmnïau'n cau, ac atal y toriad pellach yn 2015 rhag symud ymlaen petai'r effaith yn rhy niweidiol.
97. Dadleuodd eraill, fodd bynnag, na fyddai dau ostyngiad olynol o gymorth, yn enwedig os, fel y cynigiwyd, fod y toriad cyntaf yn dod cyn i'r model newydd ar gyfer contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd ddod i rym. Heb unrhyw gynnydd ym maint gwaith cwmni, pryderai ymatebwyr na fyddai dim i wneud iawn am y gostyngiad yn y ffioedd. Dadleuodd y CLSA na fyddai cwmnïau fyth yn medru cynyddu eu sylfaen cleientiaid yn ddigon cyflym i wneud iawn am golli incwm o ganlyniad i'r gostyngiadau ffioedd.
98. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus y byddai'r anallu i gynnal y toriad cyntaf (oherwydd na fu cynnydd yn y swm gwaith) yn gadael rhy ychydig o gwmnïau ar ôl i wneud cais am contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn 2015. Dadleuodd ymatebwyr hefyd hyd yn oed petai cwmni'n goroesi, na fyddai unrhyw gymhelliant i raddio'i fyny heb unrhyw gynnydd ym maint y gwaith. Ar ben hynny, dadleuodd ymatebwyr hyd yn oed petai cwmni'n goroesi ac yn dymuno graddio'i fyny, heb warant o contract Gwaith Darparwr Dyletswydd (ac felly cynyddu maint y gwaith rywbryd), byddai'n anodd sicrhau'r cyfalaf gan fanciau i wneud hynny.
99. O ran yr amserlen arfaethedig, mynegodd y CLSA a'r LAPG bryder nad oes digon o amser yn cael ei ganiatáu i gwmnïau, yn enwedig rhai bach, addasu ac ad-drefnu, yn enwedig mewn pryd ar gyfer y gostyngiad interim.

Ymateb y llywodraeth

100. Mae'r Llywodraeth yn gwerthfawrogi barn yr ymatebwyr mai'r dull graddol fesul cam, mewn egwyddor, sy'n cael ei ffafrio.
101. Rydym yn cydnabod bod gan ymatebwyr bryderon am amserlen y gostyngiadau, yn enwedig y gostyngiad cyntaf o 8.75%. Rydym yn deall, heb gynnydd ym maint y gwaith, y gall y gostyngiad cyntaf hwn olygu her i gwmnïau. Fodd bynnag, rydym yn dal i gredu bod cyfleoedd yn bodoli ar gyfer arbedion cyfuno ac effeithlonrwydd os yw darparwyr yn barod i'w harchwilio.
102. Er gwaethaf yr her i rai, rydym yn credu bod y terfyn amser yn gyraeddadwy. Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd y gostyngiad ffioedd yn cymryd cyfnod o amser cyn iddo ddechrau cael unrhyw effaith sylweddol ar lefelau hawlio darparwyr. Dengys ein dadansoddiad y bydd hanner y refeniw ffi cymorth cyfreithiol a delir ar gyfartaledd yn dal i fod, ar ôl pum mis, ar y cynllun tâl uwch presennol. Rhydd hyn amser i ddarparwyr archwilio unrhyw arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol. Mae hyn oherwydd mai dim ond i achosion newydd y bydd y cynllun newydd ffioedd yn berthnasol, a fydd yn golygu mai proses raddol fydd symud o un cynllun ffioedd i un arall. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, y bydd y graddau y gall ddarparwyr ddibynnu ar hyn yn dibynnu ar y cymysgedd o achosion sydd gan bob darparwr unigol a'u dull o hawlio.

103. Rydym yn parhau i gredu y bydd gweithredu'r gostyngiad ffioedd mewn dau gam yn helpu i annog darparwyr i ddechrau ar y broses o gyfuno cyn gynted ag y bo modd, cyn i effaith lawn y newidiadau ddod i rym. Rydym yn bwriadu gweithredu'r gostyngiad cyntaf o 8.75% ar 20 Mawrth 2014 a'r ail ym Mehefin 2015, ochr yn ochr â chyflwyno contractau newydd.

Ffioedd Graddedig Adfocadau

104. Yn y *Camau Nesaf* roeddem yn cynnig dau fodel amgen ar gyfer diwygio ffioedd adfocadau yn Llys y Goron. Roedd y cyntaf yn addasiad o'r cynnig gwreiddiol, sydd wedi cael ei newid i ymdrin â phryderon penodol a fynegwyd gan ymatebwyr, a'r ail oedd amrywiad ar y model a gynigiwyd gan Gyngor y Bar sy'n seiliedig ar y cynllun tâl CPS newydd.

105. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 6. Pa ddull sydd orau gennych, ai'r dull yn:

- **Opsiwn 1 (cynnig cysoni a gostwng yn raddol wedi'i ddiwygio); neu,**
- **Opsiwn 2 (y model cynllun ffioedd adfocatiaeth CPS a addaswyd)**

Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

106. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, yn cefnogi'r naill opsiwn na'r llall, ond teimlai mwyafrif clir bod opsiwn 2 yn well nag opsiwn 1. Dadleuodd ymatebwyr ei bod yn afresymol gostwng ffioedd adfocatiaeth ymhellach yng ngoleuni'r gostyngiadau blaenorol ers 2007 a'r galw gostyngol am gymorth cyfreithiol troseddol. Awgrymodd ymatebwyr y byddai gostyngiad mewn ffioedd yn golygu y byddai ansawdd adfocatiaeth yn disgyn wrth i adfocadau talentog symud i ffwrdd oddi wrth adfocatiaeth droseddol. Awgrymwyd hefyd y byddai'r gostyngiad mewn ansawdd yn cael effaith andwyol ar y CJS yn ei gyfanrwydd ac y byddai achosion yn cael eu rhedeg yn llai effeithiol, ac y byddai'r risg o gamweinyddu cyfiawnder yn fwy. Awgrymodd nifer o ymatebion y dylai'r Llywodraeth oedi'r newidiadau mewn ffioedd adfocatiaeth hyd nes y mae adolygiad Syr Bill Jeffrey o'r ddarpariaeth adfocatiaeth droseddol annibynnol wedi cael ei gwblhau.

107. Roedd yn well gan Gymdeithas y Gyfraith fersiwn addasedig o opsiwn 1, os oedd rhaid gwneud toriadau, a dosrannu'r toriadau'n gyfartal rhwng pleon euog, treialon chwâl a threialon. Dywedodd Cyngor y Bar y byddai effeithiau niweidiol opsiwn 1 yn fwy nag opsiwn 2. Cynigiodd Cyngor y Bar hefyd bod opsiwn 2 yn cael ei fabwysiadu (os o gwbl) gyda chyfraddau diwygiedig ar sail cost niwtral, o ystyried yr arbedion gweinyddol yr haerir fydd yn llifo o'r gostyngiad sylweddol yn yr angen i ddarparu tystiolaeth o'r nifer o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad.

108. Yn fras, o'r rhai a fynegodd ffafriaeth, roedd llawer o gyfreithwyr unigol yn ffafrio opsiwn 1 a nododd rhai ei fod yn cefnogi eu cymysgedd achosion (sy'n cynnwys cyfran uwch o bleon euog) neu amcanion y cynllun Pledio Euog Cynnar ¹¹, tra bod y

¹¹ Mae'r Cynllun Ple Euog Gynnar yn fenter yr Uwch Farnwr Llywyddol sy'n anelu at leihau oedi a gwaith papur diangen a chynyddu cynhyrchiant ar gyfer yr holl bartneriaid Cyfiawnder Troseddol. Egwyddor y Cynllun Ple Euog Gynnar yw adnabod yr achosion hynny lle mae'r diffynnydd yn debygol o bledio'n euog, ac i hwyluso'r achosion hynny i wrandawriad ple euog gynnar.

rhan fwyaf o fargyfreithwyr unigol yn ffafrio opsiwn 2 yn fras. Roedd well gan rai cyfreithwyr opsiwn 2 fel model tecach, oherwydd ei fod yn dosrannu toriadau'n gyfartal rhwng pleon euog, treialon chwâl a threialon, ac nad oedd yn cysoni cyfraddau ar gyfer pleon euog a threialon chwâl. Dadleuodd bargyfreithwyr bod opsiwn 1 yn cynyddu ffioedd yn sylweddol ar gyfer pleon euog, y gallai cyfreithwyr eu "dewis a dethol", tra byddai treialon, y mae bargyfreithwyr yn tueddu i ymgymryd â hwy mewn mwy o gyfran, yn derbyn tâl tecach dan opsiwn 2 gan ei fod yn gwahaniaethu rhwng pleon euog, treialon chwâl a threialon, a fyddai â thâl uwch. Dadleuwyd hefyd y byddai opsiwn 1 yn cosbi adfocadau amddiffyn pan fyddai achosion yn chwalu'n hwyr o ganlyniad i fethiannau'r erlyniad.

109. Mynegwyd gwrthwynebiad egwyddorol yn fynych i ddwy elfen opsiwn 1. Fel yr awgrymwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol, dywedwyd fod cysoni ffioedd ar gyfer pleon euog a threialon chwâl yn rhoi cymhelliant gwrthnysig i adfocadau gymell cleientiaid i bledio'n euog yn amhriodol. Dywedwyd fod cyflwyno tapr ar DAFs yn cosbi adfocadau am yr oedi a oedd yn digwydd mewn achosion, a oedd tu hwnt i'w rheolaeth. Ar y llaw arall, er bod llawer yn anghytuno â'r angen am ostyngiad mewn ffioedd a lefel y gostyngiad hwnnw, nid oedd fawr o wrthwynebiadau ar bwyntiau o egwyddor gydag opsiwn 2.
110. Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio model opsiwn 2 gan ei fod yn symlach ac yn haws i'w ddeall. Awgrymwyd hefyd ei fod yn fodel tecach, gan ei fod yn lledaenu gostyngiadau'n fwy cyfartal ar draws pleon euog, treialon chwâl a threialon. Nododd ymatebwyr hefyd fod y model yn fwy sensitif i nodweddion achos sy'n effeithio ar yr amser a'r ymdrech dan sylw. Awgrymodd Cwnsler Trysorlys y Goron yn y Llys Troseddol Canolog y dylai'r trothwy tudalennau adlewyrchu cynllun y CPS, gan y byddai trothwy uwch yn golygu mai anaml y câi taliadau uwch eu talu.
111. Awgrymodd ymgynghoreion y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar argaeledd cyngor cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus gyda llai o adfocadau yn barod i weithio ar gyfraddau cymorth cyfreithiol a llai o ymgeiswyr o ansawdd da yn barod i fynd ar drywydd gwaith a ariennir yn gyhoeddus.
112. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r ddau ddewis yn cael effaith anghymesur ar adfocadau benywaidd a BAME. Dywedodd Cyngor y Bar bod arolygon ymadael yn dangos bod menywod a phobl o dras BAME yn fwy tebygol na dynion o nodi rhesymau ariannol dros adael y Bar.


Ymateb y Llywodraeth

113. Roedd y cynigion yr oeddem yn ymgynghori arnynt wedi eu cynllunio i fodloni ein hamcan o dynnu costau i lawr a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mor effeithlon ag y bo modd, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r trethdalwr. Yn ogystal, mae'r ddau opsiwn yn symleiddio'r cynllun ffioedd adfocatiaeth droseddol presennol tra'n cymryd i ystyriaeth faint o baratoi sydd ei angen yn gyffredinol mewn gwahanol fathau o achosion. Rydym yn derbyn y cafwyd mesurau arbedion blaenorol sydd wedi gostwng ffioedd a delir am waith adfocatiaeth cymorth cyfreithiol troseddol, ond ni all unrhyw faes fod yn ddiogel rhag craffu, o ystyried yr angen i wneud arbedion yng ngwariant y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r ddau opsiwn yn arwain at yr un gostyngiad cyfraddau AGFS cyfredol. Bydd yr effaith ar unigolion yn dibynnu ar faint o waith a wneir a'r gymysgedd o achosion, a gallai fod yn fwy neu'n llai na'r cyfartaledd o 5% o ostyngiad mewn ffioedd AGFS, ar draws yr holl adfocadau.

114. Fel y dywedasom ar adeg Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr ym mis Mehefin 2011, tra bod y Llywodraeth yn derbyn bod angen monitro cynaliadwyedd y farchnad, mae o'r farn nad yw'r farn honno sy'n honni y bydd darparwyr yn gadael y farchnad yn ffenomen newydd. Er bod cymorth cyfreithiol yn darparu ffynhonnell o waith gwarantiedig ar gyfer adfocadau, a bydd cyfran fach o achosion a fydd angen adfocadau profiadol iawn, mae llawer o'r gwaith yn symlach ac yn gallu cael ei drin yn effeithiol ac yn gymwys gan adfocadau sy'n gymharol iau. Cyn belled â bod y gwaith cymorth cyfreithiol yn parhau i gael ei berfformio i'r safon ofynnol, nid yw rhai cyflenwyr yn gadael y farchnad o reidrwydd yn bryder.
115. Rydym yn ystyried bod gostyngiad o'r math hwn mewn ffioedd yn gynaliadwy. Nid rôl y Llywodraeth yw sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn darparu lefel benodol o enillion i nifer cynyddol o adfocadau, ond yn hytrach i sicrhau darpariaeth gynaliadwy o gynrychiolaeth effeithiol. Rydym yn credu bod mater yn ymwneud â gorgyflenwad ymysg bargyfreithwyr troseddol hunangyflogedig. Mae'r siart isod yn dangos y nifer o bleon euog, treialon chwâl a threialon a wnaed gan fargyfreithwyr yn yr AGFS yn 2012/13, wedi'u rhannu yn ôl eu hincwm ffioedd AGFS ar gyfer y flwyddyn honno (gan gynnwys TAW).¹² Gellir gweld bod y 921 o fargyfreithwyr troseddol a dderbyniodd incwm ffioedd o lai na £10k gan yr AGFS wedi gwneud dim ond tri o'r achosion ar gyfartaledd, yn seiliedig ar ddata achosion caeedig yn 2012/13. Hefyd, y grŵp hwn oedd â'r nifer isaf o dudalennau o dystiolaeth cyfartalog fesul achos, gan awgrymu eu bod yn ymgymryd â'r achosion lleiaf cymhleth. Tra'n cynyddu, mae'r nifer cyfartalog o achosion a gynhaliwyd yn parhau i fod yn gymharol fach ar gyfer y rhai oedd yn derbyn hyd at £50k mewn ffioedd. Efallai fod llawer o'r bargyfreithwyr hyn yn gwneud gwaith y tu allan i'r AGFS, ond mae hyn yn dangos bod incwm ffioedd is AGFS yn gysylltiedig â llwythi gwaith is AGFS.

Siart B1: Nifer a Chymhlethdod Achosion AGFS a wnaed gan Fargyfreithwyr yn 2012/13, wedi'u rhannu yn ôl bandiau incwm ffioedd AGFS (cyn. TAW)

¹² Noder nad yw'r graff yn cynnwys mathau "arall" o waith megis apeliadau a thraddodi i'w dedfrydu, ond mae'r rhain yn dal i fod wedi'u cynnwys yn yr incwm ffioedd.




116. Efallai y bydd rhai adfocadau yn penderfynu gadael gwaith cymorth cyfreithiol troseddol o ganlyniad i'r diwygio, ond, o ystyried y dystiolaeth o orgyflenwi a nodir uchod, gall hyn wneud gweddill y farchnad yn fwy cynaliadwy i ddarparwyr gwasanaeth petai cyfran uwch ohonynt â mwy o waith, ac ni fyddai perygl i'r ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'n anodd rhagweld pa adfocadau allai adael y farchnad. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar opsiynau eraill sydd ar gael i adfocadau, ac efallai fod adfocadau iau yn fwy tebygol o fod â dewisiadau gyrfa eraill ar gael iddynt. Ni fyddem yn derbyn bod hyn yn golygu na fyddai pobl dalentog a allai ddarparu adfocatiaeth o ansawdd bellach yn cael eu denu i'r Bar troseddol. Yn wir, gall marchnad lle mae gan adfocadau'r cyfle i ymgymryd â mwy o waith yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddenu unigolion talentog i'r Bar troseddol.

117. Er ei bod yn debygol bod gostyngiadau blaenorol yn yr AGFS a newidiadau mewn cyfraddau sifil yn 2011 a 2013, a'r newid diweddar mewn cyfraddau VHCC a chyfyngiadau ar adfocadau lluosog, wedi cael rhywfaint o effaith ar adfocadau, nid yw'r Llywodraeth yn credu y bydd yr effaith gyfunol yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd adfocatiaeth. Dim ond un o bob 10 bargyfreithiwr sy'n gwneud VHCCs, felly nid yw'r rhan fwyaf yn cael eu heffeithio gan y cyfraddau gostyngol ar gyfer yr achosion hynny, a'r gostyngiad cyfartalog mewn ffioedd AGFS yw 5% (er bod yr effaith yn llai ar gyfer enillwyr is - gweler siart b2 isod). Mae cyflenwad digonol o fargyfreithwyr â chymwysterau addas yn parhau i fod, sy'n barod i weithio ar y cyfraddau a delir ar hyn o bryd gan AGFS, hyd yn oed ar ôl y gostyngiadau blaenorol yn 2011. Cynyddodd nifer y bargyfreithwyr sy'n ymarfer bron i 4%¹³ rhwng 2007 a 2011. Dengys cyhoeddiad diweddar ystadegau incwm ffioedd bargyfreithwyr troseddol bod 4,931 yn derbyn incwm o ffynonellau cyhoeddus yn 2012/13, tra rhwng

¹³ https://www.barstandardsboard.org.uk/media/1436638/bar_barometer_nov_2012_web_upload_higher_res.pdf

2007 a 2012, gostyngodd derbynebaw Llys y Goron o 2%. Ar ben hynny, noda Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) nad oes problemau cyfredol i sicrhau gwasanaeth aelodau o'r Bar â chymwysterau priodol, er y gall ffioedd graddedig y CPS ar gyfer adfocatiaeth fod yn is na'r ffioedd amddiffyn presennol mewn rhai achosion. Cred y Llywodraeth, felly, bod y cyflenwad o fargyfreithwyr ac Adfocadau Llys Uwch (HCAs) yn ddigonol i ateb y galw petai rhai adfocadau'n symud i ffwrdd o waith troseddol o ganlyniad i'r gostyngiadau pellach mewn ffioedd.

Siart B2: Effaith ar Incwm Ffioedd Blynyddol (yn cynnwys TAW) Bargyfreithwyr Troseddol o'r newid AGFS



- 118. Yn gyffredinol, felly, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod y diwygiadau arfaethedig i ffioedd troseddol yn gynaliadwy, ac, er y gall darparwyr unigol adael y cynllun, bydd digon o gyflenwad o ddarparwyr o ansawdd digonol ar gael i ddarparu lefel briodol o wasanaeth.
- 119. Nid ydym yn derbyn y byddai opsiwn 1 yn creu cymhellion amhriodol i gynghori cleientiaid i bledio'n euog, neu ei fod yn anghywir mewn egwyddor cysoni taliadau ar gyfer treialon chwâl gyda'r rhai ar gyfer pleon euog. Yn y pen draw, mater i'r diffynnydd yw penderfynu ar y ble; wrth ddatblygu polisi ni allwn ond tybio y bydd cyfreithwyr yn gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol a phroffesiynol ac felly na fyddent yn gweithredu yn groes i les pennaf eu cleientiaid. Byddai gan Opsiwn 1 y fantais o hyrwyddo ystyriaeth gynnar o'r cwestiwn o ble, a datrys materion a gaiff eu herio cyn gynted â phosibl, er budd y System Cyfiawnder Troseddol yn ei chyfanrwydd.
- 120. Nid ydym yn cytuno ag awgrym Cyngor Bar y gallai opsiwn 2 gael ei gyflwyno ar sail cost niwtral oherwydd arbedion gweinyddol. Nid ydym yn derbyn bod opsiwn 2 yn

cynhyrchu unrhyw arbedion ariannol sylweddol¹⁴ i'r LAA. Er bod yr LAA yn treulio rhywfaint o amser yn dilysu nifer y tudalennau, amcangyfrifir bod y gofyniad i ddilysu PPE ar gyfer pob achos yn cyfateb i hanner amser un gweithiwr achos llawn-amser. Hyd yn oed petai'r arbediad effeithlonrwydd gwaith achos yn arbediad ariannol, ni fyddai'n gwreiddu arbedion sy'n agos debyg i'r arbedion a wneir gan opsiwn 2 fel y'i cynigiwyd.

121. Cafodd y trothwy tudalennau ar gyfer penderfynu p'un a fyddai ffi sylfaenol uwch yn daladwy ei gyfrifo gan Gyngor y Bar ar yr un sail â'r cynllun CPS. Bwriedir cyflawni talu'r ffi sylfaenol uwch i'r achosion mwyaf cymhleth sydd fwyaf drwm ar bapur.
122. Rydym yn nodi bod ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar, wedi awgrymu y byddai'r ddau opsiwn yn cael effaith anghymesur ar adfocadau benywaidd a BAME yn rhannol oherwydd bod grwpiau hynny'n nodi ystyriaethau ariannol fel rheswm dros adael y Bar yn amlach na grwpiau eraill. Nid oes unrhyw arwydd a yw hyn yn ganlyniad i lefel benodol o ffioedd neu a yw'n gysylltiedig â'r anallu i sicrhau digon o waith oherwydd y gorgyflenwad o adfocadau sy'n gwneud gwaith troseddol.
123. Mae Opsiwn 2 yn symleiddio'r AGFS er budd adfocadau a'r LAA gan na fydd angen bellach sefydlu'r nifer manwl gywir o dudalennau ym mron pob achos. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod y model yn fwy sensitif i nodweddion achos sy'n effeithio ar yr amser a'r ymdrech dan sylw. Yng ngoleuni'r buddion hynny, a'r ffaith nad oedd unrhyw wrthwynebiadau egwyddorol (er gwaethaf y gwrthwynebiadau cyffredinol i wneud arbedion) rydym wedi penderfynu gweithredu opsiwn 2, ond gan ymrwymo i gynnal adolygiad o weithrediad y fframwaith yn y tymor hwy, gan gymryd i ystyriaeth newidiadau yn y farchnad adfocatiaeth a'r System Cyfiawnder Troseddol.
124. Wrth weithredu opsiwn 2, byddwn hefyd yn gosod y ffioedd sylfaenol uwch sy'n daladwy i fargyfreithwyr iau a arweinir ar gyfradd uwch na'r hyn a fwiadwyd er mwyn cywiro gwall anfwriadol ym model Cyngor y Bar a gariwyd drosodd i'n model ni, fel y cynigir yn y ddogfen ymgynghori (tabl yn Atodiad I). O ganlyniad, bydd y ffioedd sylfaenol uwch i fargyfreithwyr iau a arweinir yn cael eu talu ar 50% o'r gyfradd gyfwerth Cwnsler y Frenhines (yn hytrach nag ar 50% o'r gyfradd bargyfreithwyr iau arweiniol a gynigiwyd mewn camgymeriad).
125. Rydym wedi penderfynu newid un agwedd ar y model, sef cynnwys nifer tystion yn y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r ffi i dreialon chwâl a phleon euog, yn unol â sut mae'r cynllun amddiffyn presennol yn gweithredu er mwyn peidio â chreu baich newydd ar adfocadau y byddai angen iddynt ddarparu tystiolaeth o nifer o dystion. Mae hyn yn enwedig felly mewn achosion cynllun ple euog gynnwys pan na fydd y CPS yn cyflwyno'r holl ddeunydd arferol. Bydd effaith adfocadau'n eithrio tystion o'r fformiwla ar gyfer treialon chwâl a phleon euog yn ddibwys, gan fod costau wedi eu seilio ar ddata a oedd yn cofnodi tystion mewn dim ond ychydig o dreialon chwâl a phleon euog (lle'r oedd nifer y tystion wedi ei gofnodi mewn camgymeriad). Byddai'r gostyngiad mewn biwrocratiaeth a gyflawnir trwy ddileu'r angen i ddangos union gyfrif tudalennau yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei ddadwneud pe bai gofyn i adfocadau ddarparu tystiolaeth o nifer tystion yn lle hynny.

¹⁴ Dim ond os gallwn leihau'r adnoddau a roddir i'r LAA i weinyddu'r cynllun cymorth cyfreithiol y gall arbedion effeithlonrwydd gynhyrchu arbedion ariannol.

126. Cedwir gweddill y strwythur y cynllun amddiffyn presennol, sy'n golygu bod y Gwrandawriad Ple a Rheoli Achos a'r pedwar ymddangosiad safonol cyntaf (yn ogystal â'r tair cynhadledd a safbwyntiau cyntaf) yn cael eu cynnwys o fewn y Ffi Sylfaenol, er mwyn hyrwyddo datrys yr achos yn effeithlon. Bydd yr holl ffioedd sefydlog a nodir yn rhan 5 o Atodlen 1 a'r codiadau diffynnydd ac/neu achos sy'n daladwy o dan ran 6 Atodlen 1 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 a delir ar hyn o bryd yn ychwanegol at y ffi sylfaenol graddedig yn aros yn ddigyfnewid. Os ydym yn gallu cyflawni mwy o effeithlonrwydd yn y CJS, e.e. gostyngiad mewn gwrandawiadau llys, byddai hynny angen llai o fewnbwn gan adfocadau ar gyfer yr un ffioedd newydd.

Materion Eraill

127. Yn 2011 cyflwynwyd ffi sefydlog am bob achos etholedig naill ffordd neu'r llall sy'n arwain at ble euog neu dreial chwâl. Ar yr adeg honno daethom i'r casgliad fod y ffi sefydlog yn cynrychioli tâl digonol ar gyfer y grŵp cul hwn o achosion, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle mae'r diffynnydd yn newid ple neu lle mae'r erlyniad yn penderfynu peidio cynnig unrhyw dystiolaeth yn hwyr yn yr achos. Yn 2011 roedd y Llywodraeth o'r farn nad oedd y system ffioedd honno'n cefnogi'r nod o gyfiawnder cyflym ac effeithlon yn ddigonol ac y byddai'n gwrth annog y tîm amddiffyn rhag rhoi ystyriaeth gynnar i'r ble. Mewn achosion a ystyrir gan lys ynadon sydd o lefel o gymhlethdod a difrifoldeb addas ar gyfer treial gan ynadon, nid yw'n briodol i'r trethdalwr dalu llawer mwy am ble euog oherwydd y lleoliad lle mae'r achos wedi ei gynnal. Fodd bynnag, nododd ymgynghoreion annhegwch penodol canfyddedig y ffi sefydlog ar gyfer achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sy'n chwalu oherwydd nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth yn hwyr yn y dydd.

128. Rydym yn parhau o'r farn bod ffi sefydlog yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion, pan y gall fod yn glir neu beidio p'un a yw'r rheswm dros y treialon chwâl i'w briodoli i'r amddiffyniad neu'r erlyniad. Er enghraifft, pan orchymynnir i gyfrifon ar ddiad gael eu cadw ar ffeil, gallai hyn fod oherwydd:

- bod y diffynnydd wedi pledio'n euog neu wedi'i euogfarnu o gyfrifiadau eraill yn yr un ditiad neu ar ddiad arall; neu
- nad oedd parhad yr achos ar faterion gweddilliol bellach er budd y cyhoedd.

129. Fodd bynnag, mae cyfran fechan o achosion lle mae'n amlwg nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif. O ystyried bod amgylchiadau penodol yr achosion hynny y tu hwnt i reolaeth yr amddiffyniad, rydym o'r farn bod y ffioedd graddedig ar gyfer treialon chwâl yn fwy priodol felly rydym yn bwriadu mynd yn ôl i'r sefyllfa cyn 2011. O'r herwydd, rydym am ailgyflwyno ffioedd treialon chwâl graddedig, ar gyfer ymgyfreithwyr ac adfocadau, am achosion etholedig naill ffordd neu'r llall sydd ar hyn o bryd yn denu ffi sefydlog pan fo'r barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn dilyn yr erlyniad yn methu â chynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif yn erbyn unigolyn.

130. Ar ôl ystyried a rhoi pwys dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu symud ymlaen gyda gweithredu opsiwn 2. Byddwn yn adolygu gweithrediad y fframwaith adfocatiaeth yng ngoleuni'r dylanwadau a ragwelir ar ddarpariaeth gwasanaethau adfocatiaeth droseddol, fel y nodir uchod. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno taliad interim ar gyfer achosion Llys y Goron a threuliau llysoedd ynadon (a nodir yn Atodiad F) a thalu ffi treialon chwâl graddedig ar gyfer achosion etholedig naill ffordd neu'r llall lle mae'r barnwr yn gorchymyn rhyddfarn ar bob cyfrif (fel y nodir uchod).
131. Bwriedir cyflwyno'r darpariaethau AGFS ar ffurf diwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd yn ddiweddarach eleni. Bwriedir gweithredu fframwaith a chyfraddau diwygiedig a darpariaethau taliad interim Llys y Goron i ganiatáu i adfocadau ac ymgyfreithwyr wneud cais am daliad interim ar ddechrau'r treial (lle mae treialon wedi eu rhestru am 10 diwrnod neu fwy), yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach eleni. Bydd yr ail daliad interim i ymgyfreithwyr, a fydd yn caniatáu i ymgyfreithwyr wneud cais am daliad yn dilyn PCMH effeithiol yn cael ei weithredu drwy is-ddeddfwriaeth yn yr haf 2015. Cyflwynir taliad interim o dreuliau mewn achos llys ynadon drwy'r contract 2015 newydd.

Asesiad Effaith

132. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 7. A ydych yn cytuno ein bod wedi dynodi'n gywir yr amrediad o effeithiau dan y cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 8. A ydych yn cytuno ein bod wedi dynodi'n gywir raddau'r effeithiau dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 9. A oes ffurfiau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau nad ydym wedi eu hystyried?

133. Ystyriwyd barn yr ymatebwyr ar yr ystod o effeithiau a nodwyd a'r ffurfiau lliniaru priodol. Gweler ein dadansoddiad o'r materion a godwyd yn Atodiad G ac yn yr asesiadau effaith a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Atodiad C – Crynodeb o'r model caffael terfynol

1. Nodir elfennau allweddol y model terfynol yn Nhabl C1 isod. Trafodir pob elfen yn fanwl yn y paragraffau sy'n dilyn.

Tabl C1: Prif elfennau'r model terfynol

<p>(i) Cwmpas y contract(au) newydd</p>	<p>Bydd strwythur y contractau newydd fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwaith Dewis y Cleient: Bydd darparwyr yn gallu gwneud cais i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i gleientiaid unigol sy'n dewis eu darparwr eu hunain (Gwaith Dewis y Cleient) ar y pwynt cyswllt cyntaf: <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwiliadau, Achosion, Gwaith Sifil Cysylltiedig, Ymgyfreitha Llys y Goron (nid VHCC) a chynrychiolaeth uchel lys;¹⁵ 2. Gwaith Darparwr Dyletswydd: Bydd darparwyr yn gallu cymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddarparu'r un gwasanaethau i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd ar bwynt cyntaf gwneud cais (Gwaith Darparwr Dyletswydd). Dim ond darparwyr sydd yn llwyddo i gael Contract Dewis y Cleient fydd yn cael eu gwahodd i wneud cais am gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd; 3. Bydd darparwyr sydd eisiau gwneud cais i gynnal cyfraith carchar a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu gwneud hynny, p'un a ydynt yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill ai peidio. Byddant yn gallu: <ol style="list-style-type: none"> a) gwneud cais am gontract Gwaith Dewis y Cleient a dewis hefyd gwneud cais i allu ymgymryd â chyfraith carchar a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol o dan y contract hwn; neu b) gwneud cais ar wahân i ymgymryd â chyfraith carchar yn unig a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol.
<p>(ii) Hyd y contract</p>	<p>Tymor contract pedair blynedd ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient ac ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd gyda'r opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn tymor y contract hyd at un flwyddyn arall.</p>
<p>(iii) Ardaloedd daearyddol ar gyfer caffael a chyflenwi gwasanaethau</p>	<p>Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient, yr ardal gaffael fydd Cymru a Lloegr.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, bydd yr ardaloedd caffael arfaethedig yn gymysgedd o ardaloedd System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ac ardaloedd y cynllun dyletswydd gorsaf heddlu.</p>

¹⁵ Cynrychiolaeth gerbron y Llys Apêl neu'r Llys Goruchaf.

<p>(iv) Nifer y contractau</p>	<p>Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient, ni fydd unrhyw gyfyngiad ar y nifer o gontractau ar draws Cymru a Lloegr.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, bydd ymgeiswyr yn gallu cystadlu i ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un ardal gaffael. Bydd nifer y contractau yn gyfyngedig ac yn amrywio yn ôl ardal gaffael, ond y lleiafswm fydd 4.</p>
<p>(v) Mathau o ddarparwyr</p>	<p>Gall darparwyr fod yn sefydliadau unigol, menter ar y cyd neu Strwythur Busnes Amgen. Ar gyfer contractau gwaith Darparwr Dyletswydd yn unig, byddai trefniadau partneriaeth gyda chontractwr arweiniol a hyd at 3 phartner cyflenwi (cyfyngir i 2 bartner cyflenwi mewn ardaloedd caffael trefol¹⁶) hefyd yn dderbyniol ar yr amod y gallant ddangos eu bod yn bodloni Gofynion y Broses Dendro a chael cytundeb ffurfiol rhyngddynt sy'n cwmpasu rhai agweddau allweddol o ddarparu gwasanaeth. Yn ogystal, bydd contractwyr yn gallu cyfarwyddo asiantau i ddarparu hyd at 25% o werth y contract o dan gontractau Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd.</p>
<p>(vi) Gwerth y contract</p>	<p>Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar faint o Waith Dewis y Cleient y gall ymgeisydd llwyddiannus ei gyflenwi.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, bydd darparwyr yn cael eu contractio i gyflwyno cyfran gyfartal o slotiau dyletswydd gorsaf yr heddlu a llys ynadon yn eu hardal gaffael. Bydd gwerth y contract yn dibynnu ar faint o waith sy'n llifo o'r slotiau dyletswydd hyn.</p>
<p>(vii) Dewis y Cleient</p>	<p>Bydd cleientiaid yn gallu dewis rhwng darparwr y maent yn ei adnabod eisoes ac/neu â pherthynas â hwy, cyn belled â bod y darparwr hwnnw'n dal contract cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient; neu'r darparwr sydd ar ddyletswydd ar yr adeg y maent yn chwilio am gyngor. Mae hyn yn cynnal y lefel bresennol o ddewis i gleientiaid.</p>
<p>(viii) Dyrannu achosion</p>	<p>Fel yn awr, ni fyddai unrhyw system o ddyrannu achosion gyfer y cleientiaid hynny sydd eisieu rhoi cyfarwyddyd i'w darparwr eu hunain. Byddai'r Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael ei ddyrannu ar sail rota slot dyletswydd, neu, lle bo'n berthnasol, ar sail panel.</p>
<p>(ix) Tâl</p>	<p>Bydd cynlluniau ffioedd sefydlog ar gyfer presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu, cynrychiolaeth llysoedd ynadon ac ymgyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE)).</p> <p>Ar gyfer ymgyfreitha Llys y Goron, bydd achosion gyda mwy na 500 o PPE yn cael eu talu o dan Gynllun Ffioedd Graddedig Ymgyfreithiwr (wedi'i ostwng o 17.5%)</p> <p>Bydd pob mecanwaith tâl arall yn aros yr un fath, er y bydd cyfraddau tâl yn cael eu gostwng.</p>

¹⁶ Yr ardaloedd hynny wedi'u labelu fel rhai 'trefol' yn Nhabl C2 isod

<p>(x) Y broses gaffael</p>	<p>Gall ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wneud cais am un o nifer digyfngiad o gontractau i gyflwyno Gwaith Dewis y Cleient yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr; a phetaent yn cael contract Gwaith Dewis y Cleient gallent: • Wneud cais i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill un o nifer cyfyngedig o gontractau i gyflwyno Gwaith Darparwr Dyletswydd mewn ardal(oedd) caffael. <p>Bydd sefydliadau sy'n dymuno ymgymryd â Chyfraith Carchar ac/neu Apeliadau ac Adolygiadau yn gallu:</p> <p>a) gwneud cais am gontract Gwaith Dewis y Cleient, a dewis hefyd gwneud cais i allu ymgymryd â chyfraith carchar a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol o dan y contract hwn; neu</p> <p>b) wneud cais o dan broses ar wahân a fydd â meini prawf penodol sy'n adlewyrchu gofynion ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>Bydd y broses ymgeisio ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn broses un cam i werthuso gofynion y Broses Dendro, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Holiadur Cyn-gymhwys (PQQ); <p>ac</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad y gall yr ymgeisydd fodloni rhai rhwymedigaethau craidd o dan y contract. <p>Bydd y broses ymgeisio ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd yn digwydd ar ôl i gontractau Gwaith Dewis y Cleient gael eu dyfarnu. Dim ond y sefydliadau hynny sy'n cael contract Gwaith Dewis y Cleient a fydd yn cael eu gwahodd i wneud cais am gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd. Bydd sefydliadau'n cyflwyno cais unigol yn cynnwys ymatebion i'r meini prawf dethol a dyfarnu.</p> <p>Bydd asesiad o'r ymatebion yn broses dau gam i werthuso Gofynion y Broses Dendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam 1 – asesiad o ymatebion i'r meini prawf dethol er mwyn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'r cam nesaf; a • Cam 2 – asesiad o ymatebion i'r meini prawf dyfarnu.
<p>(xi) Dyfarnu/ Gweithredu'r Contract</p>	<p>Rhagwelir y bydd y broses dendro yn dechrau yn yr holl ardaloedd caffael yn Ebrill 2014 ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gorffennaf 2014 ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd.</p> <p>Ein bwriad presennol yw i'r gwasanaeth ddechrau ym mis Mehefin 2015 ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd.</p>

2. **Dangosol yn unig o'r bwriadau cyfredol yw'r disgrifiad o'r broses gaffael a'r broses asesu a nodir uchod. Nid ydym yn gwneud unrhyw ymrwymiad pendant ynglŷn â'r dull caffael terfynol, a rhaid i ymgeiswyr ddibynnu'n llwyr ar y dogfennau tendr a gyhoeddir gennym ar adeg y broses gaffael.**

(i) Cwmpas y contractau newydd¹⁷

3. O dan y model terfynol, bydd dim ond i achosion newydd sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad cychwyn y gwasanaeth y bydd y contractau newydd yn berthnasol. Bydd darparwyr yn gallu:
 - Gwneud cais i gyflenwi Gwaith Dewis y Cleient yn unig - pob dosbarth o gymorth cyfreithiol troseddol a restrir yn Nhabl D1 yn Atodiad D i'r cleientiaid hynny lle maent yn dewis eu darparwr eu hunain, gan gynnwys:
 - Ymchwiliadau - yn cynnwys yr holl waith a wnaed ar gyfer cleient yn ystod ymchwiliad troseddol mater hyd at y pwynt lle mae cleient yn cael ei gyhuddo, ei ryddhau neu'n cael gwŷs ar gyfer y mater sydd dan ymchwiliad;
 - Achosion – yn cynnwys yr holl waith a wneir ar ran cleient yn ystod achos troseddol llys yr ynadon mewn mater neu achos o ddyddiad y cyhuddiad neu'r wŷs;
 - Gwaith Sifil Cysylltiedig – cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth mewn materion sydd a wnelont â heriau cyfraith gyhoeddus sy'n codi o unrhyw achos troseddol; ac
 - Ymglyfreitha Llys y Goron (heb fod yn VHCC); a
 - Chynrychiolaeth ar gyfer apeliadau a glywir gan y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys.

A

- Gwneud cais i gyflawni gwaith Darparwr Dyletswydd yn cwmpasu'r un dosbarthiadau o gymorth cyfreithiol troseddol
4. Bydd darparwyr sydd yn dymuno cyflwyno cyfraith carchar ac/neu ddosbarthiadau gwaith apeliadau ac adolygiadau¹⁸ yn gallu gwneud hynny p'un a ydynt yn dymuno cynnal dim ond y gwasanaethau hynny neu'n ychwanegol at wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill. Byddant yn gallu:
 - a) gwneud cais am gcontract Gwaith Dewis y Cleient a dewis hefyd gwneud cais i allu ymgymryd â chyfraith carchar a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol o dan y contract hwn; a
 - b) gwneud cais ar wahân i ymgymryd â chyfraith carchar yn unig a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol.
5. Ar hyn o bryd mae'r LAA yn gweithredu cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd yn y llys ynadon. Mae'r cyfreithiwr ar ddyletswydd yn gallu cynnig cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl am ddim ar eu hymddangosiad cyntaf yn y llys (nid yn y treial), waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol, lle y maent yn cael eu cyhuddo o drosedd garcharadwy yn unig neu lle mae'r cleient yn y ddalfa ac, yn y ddau achos, lle nad yw'r cleient wedi derbyn cyngor o'r blaen gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd ar yr un mater.

¹⁷ Bydd y Contract(au) Trosedd newydd hefyd yn cael eu teilwra i'r gwasanaethau sy'n ofynnol o dan y broses model a chaffael terfynol. Byddant hefyd yn cael eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau i'n prosesau busnes (e.e. gweithio'n electronig) ac effeithiau o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth a/neu'r system gyfiawnder.

¹⁸ Apeliadau ac adolygiadau - cyngor a chymorth ar apeliadau yn erbyn euogfarn neu ddeddfryd (lle nad yw cynrychiolydd newydd ei gyfarwyddo'n cael ei gwmpasu gan Orchymyn Cynrychiolaeth presennol) neu geisiadau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC).

6. Byddwn yn cynnal gwasanaeth o'r fath o dan y model terfynol, ond dim ond y rhai y dyfarnwyd contractau iddynt i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd fydd yn gymwys i ddarparu gwaith Darparwr Dyletswydd llys yn eu hardal gaffael (mae paragraff 42 isod yn nodi cynigion ar sut bydd y gwaith hwn yn cael ei dalu).
7. Bydd y tri maes canlynol o gymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu heithrio o gwmpas y contractau newydd yn gyfan gwbl:
 - Adfocatiaeth Llys y Goron;
 - Achosion Costus lawn (Trosedd);
 - Gwasanaethau Canolfan Alwadau Cyfreithwyr Amddiffyn a Criminal Defence Direct.

(ii) Hyd y contract

8. Bydd y contractau newydd am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn tymor y contract hyd at un flwyddyn arall (ac yn destun i hawliau terfynu cynnar).
9. Bydd unrhyw gytundeb cymorth cyfreithiol troseddol newydd ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cynnwys cymal terfynu dim bai sy'n arferadwy gan yr Arglwydd Ganghellor, a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal o dan amgylchiadau penodol.
10. Bydd disgwyl i ddarparwyr contract gwaith Darparwr Dyletswydd gwrdd â'u rhwymedigaeth gytundebol am dymor cyfan y contract ac, felly, ni fydd cymal terfynu dim bai sy'n arferadwy gan y darparwr.

(iii) Ardaloedd daeryddol ar gyfer caffael a darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol

11. Bydd darparwyr sy'n cyflwyno Gwaith Dewis y Cleient yn gallu darparu gwasanaethau yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.
12. Mewn perthynas â Gwaith Darparwr Dyletswydd, gweler yr ardaloedd caffael o dan y model terfynol yn Nhabl C2 isod. Mae mwyafrif o'r ardaloedd caffael yn seiliedig ar ardaloedd CJS, er bod rhai wedi cael eu rhannu, gan gynnwys y cyfan o Lundain, sydd wedi ei rhannu'n 32 o ardaloedd caffael yn seiliedig ar Gynlluniau Ddyletswydd Gorsaf Heddlu.
13. Bydd achosion y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyllid a Thollau EM a BTP yn cael eu trin dan yr un system â'r cynllun presennol. Mae'r ardal gaffael naill ai'n dibynnu ar ba orsaf y caiff y cleient ei gyfweld ynddi neu os nad yw'r cleient yn cael ei gyfweld mewn gorsaf, yr orsaf agosaf at y cyfweliad /cynllun lle bu'r cyfweliad.

Detholusrwydd

14. Ni fydd contract i gyflwyno gwaith Darparwr Dyletswydd mewn un ardal gaffael yn caniatáu i'r darparwr gyflenwi gwaith Darparwr Dyletswydd mewn ardal gaffael arall ac eithrio lle mae achos yn croesi ffiniau ardaloedd caffael. Lle mae achos yn croesi ffin yr ardal gaffael (er enghraifft, lle mae achos yn cael ei drosglwyddo i lys mewn ardal gaffael wahanol) bydd y Darparwr Dyletswydd â rhwymedigaeth gytundebol i ddilyn y cleient i'r ardal gaffael arall.
15. Fodd bynnag, bydd rhai cyfyngiadau ar y nifer o geisiadau y gall unrhyw gynigydd gyflwyno naill ai fel contractwr arweiniol neu fel partner cyflenwi mewn unrhyw ardal gaffael unigol. Bydd manylion llawn yn cael eu darparu gan yr LAA yn y dogfennau tendro.

(iv) Nifer y contractau

16. O dan y model terfynol, bydd y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn ddigyfyngiad. Bydd unrhyw ddarparwr sy'n gallu cwrdd â Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) yn cael contract i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i gleient sy'n eu dewis hwy o unrhyw le yng Nghymru a Lloegr ar y pwynt cyntaf o wneud cais.
17. Bydd cyfanswm o 525 o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu cynnig ar draws 97 ardal gaffael. Gweler yr ardaloedd caffael, a nifer y contractau a fydd yn cael eu cynnig ym mhob un, yn y tabl isod.

Tabl C2: Ardaloedd Caffael o dan y model terfynol

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	Dosbarthiad	Nifer y contractau
Avon a Gwlad yr Haf 1	Mendip, Weston Super Mare, Sedgemoor	Gwledig	5
Avon a Gwlad yr Haf 2	Avon North, Bath, Bristol	Trefol	5
Barking	Cynllun dyletswydd orsaf heddlu Barking	Trefol	5
Bedfordshire	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Bexley	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Bexley	Trefol	5
Bishopsgate	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Bishopsgate	Trefol	5
Brent	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Brent	Trefol	11
Brentford	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Brentford	Trefol	5
Bromley	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Bromley	Trefol	8
Camberwell Green	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Camberwell Green	Trefol	5
Swydd Gaergrawnt	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	7
Canol Llundain	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Canol Llundain	Trefol	15
Swydd Gaer	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	7
Clerkenwell/Hampstead	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Clerkenwell/Hampstead	Trefol	9
Cleveland	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	4
Croydon	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Croydon	Trefol	7

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	Dosbarthiad	Nifer y contractau
Cumbria 1	Barrow in Furness, Whitehaven	Gwledig	4
Cumbria 2	Kendal, Penrith	Gwledig	4
Derbyshire	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Dyfnaint a Chernyw 1	Barnstable, Exeter, Plymouth, Teignbridge	Gwledig	8
Dyfnaint a Chernyw 2	East Cornwall, Carrick	Gwledig	4
Dorset	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Durham	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	7
Dyfed-Powys 1	Dyffryn Aman, Llanelli, Caerfyrddin	Gwledig	4
Dyfed-Powys 2	Sir Benfro, Canolbarth Cymru, Gogledd Ceredigion, Aberhonddu	Gwledig	4
Ealing	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Ealing	Trefol	5
Enfield	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Enfield	Trefol	4
Essex	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	7
Swydd Gaerloyw	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	4
Manceinion Fwyaf	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	17
Greenwich/Woolwich	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Greenwich/Woolwich	Trefol	7
Gwent	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Hampshire 1	Aldershot, Andover, Portsmouth, Gosport, Southampton	Trefol	7
Hampshire 2	Ynys Wyth	Gwledig	4
Haringey	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Haringey	Trefol	9
Harrow	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Harrow	Trefol	5
Havering	Cynllun ddyletswydd orsaf heddlu Havering	Trefol	4

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	Dosbarthiad	Nifer y contractau
Heathrow	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Heathrow	Trefol	4
Hendon/Barnet	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Hendon/Barnet	Trefol	5
Hertfordshire	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	5
Highbury Corner	Cynllun ddyletswydd gorsaf heddlu Highbury Corner	Trefol	9
Humberside	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Kent	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	7
Kingston-upon-Thames	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Kingston-upon-Thames	Trefol	4
Swydd Gaerhirfryn	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	13
Swydd Gaerlŷr	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	4
Swydd Lincoln	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Glannau Mersi	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	8
Newham	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Newham	Trefol	9
Norfolk 1	Cromer, Great Yarmouth, Norwich, Lowestoft, Dereham	Gwledig	4
Norfolk 2	Kings Lynn	Gwledig	4
Gogledd Cymru 1	Bae Colwyn, Sir Ddinbych, Yr Wyddgrug, Wrecsam	Gwledig	4
Gogledd Cymru 2	Bangor, Dolgellau, Gogledd Ynys Môn, Pwllheli	Gwledig	4
Gogledd Swydd Efrog 1	Northallerton, Harrogate, Skipton	Gwledig	4
Gogledd Swydd Efrog 2	Scarborough, Malton, York	Gwledig	4
Swydd Northampton	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Northumbria 1	Gateshead, S. Tyneside, Sunderland	Gwledig	5

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	Dosbarthiad	Nifer y contractau
Northumbria 2	Berwick ac Alnwick, S. E. Northumberland, Newcastle Upon Tyne, N.Tyneside, Tyndale	Gwledig	7
Nottinghamshire	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	4
Old Street	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Old Street	Trefol	9
Redbridge	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Redbridge	Trefol	5
Richmond-upon-Thames	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Richmond-upon-Thames	Trefol	4
De Llundain	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu De Llundain	Trefol	5
De Cymru	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	9
De Swydd Efrog	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	7
Swydd Stafford	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	6
Suffolk 1	Bury St Edmunds (including Sudbury and Thetford)	Gwledig	4
Suffolk 2	Felixstowe / Ipswich & District / Woodbridge,	Gwledig	4
Surrey	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	4
Sutton	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Sutton	Trefol	5
Sussex 1	Brighton, Hastings, Eastbourne	Trefol	5
Sussex 2	Chichester, Crawley, Worthing	Trefol	5
Tafwys	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Tafwys	Trefol	7
Dyffryn Tafwys	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	9
Tower Bridge	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Tower Bridge	Trefol	9
Uxbridge	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Uxbridge	Trefol	5
Waltham Forest	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Waltham Forest	Trefol	9

Ardal gaffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu	Dosbarthiad	Nifer y contractau
Swydd Warwick	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	4
Gorllewin Llundain	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Gorllewin Llundain	Trefol	5
Gorllewin Mercia 1	Henffordd, Kidderminster, Caerwrangon	Gwledig	5
Gorllewin Mercia 2	Amwythig, Telford	Gwledig	4
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	13
Gorllewin Swydd Efrog	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Trefol	17
Wiltshire	Holl gynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu yn yr ardal CJS bresennol	Gwledig	5
Wimbledon	Cynllun dyletswydd gorsaf heddlu Wimbledon	Trefol	7

Gwasanaeth Amddiffynnwr Cyhoeddus (PDS)

18. Neilltuir cyfran gyfartal o slotiau dyletswydd i'r PDS yn yr ardaloedd lle mae eisoes wedi'i sefydlu. Y rhain yw Swydd Gaerloyw, Durham, De Cymru a Gogledd Swydd Efrog 1. Fel yn awr, bydd y PDS hefyd yn gymwys i gynnal Gwaith Dewis y Cleient yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.

(v) Mathau o ddarparwyr

19. Ni fyddwn yn cyfyngu ar y mathau o sefydliadau a all wneud cais am gontract ar yr amod eu bod yn bodloni Gofynion y Broses Dendro sy'n berthnasol yn hyn o beth. Rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am gontract, ac nad yw'n cael ei reoleiddio eisoes, sicrhau ei fod wedi gwneud cais ar gyfer rheoleiddio priodol er mwyn fod wedi'i reoleiddio erbyn dyddiad cychwyn y contract. Bydd angen i ymgeiswyr wirio gyda'u corff rheoleiddio o ran yr hyn sydd ei angen er mwyn gwneud cais ar gyfer rheoleiddio, a pha mor hir fydd y broses hon yn ei chymryd (a all fod yn nifer o fisod). Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd bydd angen i ymgeiswyr fod yn endid cyfreithiol ac wedi gwneud cais am reoleiddio priodol erbyn diwedd y Gwahoddiad i Dendro (rhagwelir ar hyn o bryd mai Medi 2014 fydd hyn).
20. O dan y model terfynol gall ymgeiswyr ar gyfer y naill gontract neu'r llall fod yn sefydliadau unigol, menter ar y cyd neu'n Strwythur Busnes Amgen. Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai trefniadau partneriaeth gyda chontractwr arweiniol a hyd at 3 phartner cyflenwi (cyfyngir i 2 bartner cyflenwi mewn ardaloedd caffael trefol) hefyd yn dderbyniol ar yr amod y gallant ddangos eu bod yn bodloni Gofynion y Broses Dendro a chael cytundeb ffurfiol rhyngddynt sy'n cwmpasu rhai agweddau allweddol o ddarpariaeth gwasanaeth. Ni fydd y model yn atal unrhyw newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, ar yr amod eu bod wedi eu rheoleiddio'n briodol.

21. O dan y model, gall ymgeiswyr ddewis cyflenwi'r gwasanaeth eu hunain (neu â phartneriaid cyflenwi yn achos Gwaith Darparwr Dyletswydd) neu drwy ddefnyddio asiantau a fydd yn cael caniatâd i gyflenwi hyd at 25% o werth y contract o dan gontractau Gwaith Dewis y Cleient neu Waith Darparwr Dyletswydd.

(vi) Gwerth y contract

22. Bydd gwerth y contract mewn perthynas â Gwaith Dewis y Cleient yn dibynnu ar faint y busnes a gynhyrchir gan gwmnïau unigol a'r newidiadau i'r ffioedd sydd ar gael.

23. Bydd darparwyr sy'n ymgymryd â dim ond Gwaith Dewis y Cleient yn cael mynediad i'r achos troseddol dilynol yn y llys ynadon, a lle y bo'n gymwys, Llys y Goron a llysoedd uwch.

24. Mewn perthynas â Gwaith Darparwr Dyletswydd, bydd gwerth cyffredinol y contract i ddarparwyr llwyddiannus yn dibynnu ar y nifer o gontractau yn yr ardal honno. Bydd darparwyr yn cael cyfran gyfartal o slotiau Darparwr Dyletswydd gorsaf yr heddlu a llys ynadon yn yr ardal gaffael dan sylw dros oes y contract. Bydd darparwyr yn cael mynediad i'r achos troseddol dilynol yn y llys ynadon, a lle bo'n berthnasol, Llys y Goron a llysoedd uwch.

25. Er mwyn eglurder, ni allwn warantu nifer penodol o achosion i'r holl ddarparwyr y dyfarnwyd contractau Gwaith Dewis y Cleient neu Waith Darparwr Dyletswydd iddynt; yn syml, bydd darparwyr yn cael mynediad at waith o'r fath sy'n llifo drwy eu hardal gaffael, naill ai, gan gyfeirio at gontract Gwaith Dewis y Cleient, trwy i'r cleient ddewis y darparwr neu, gan gyfeirio at gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd, drwy ddyraniad o gyfran gyfartal o slotiau Darparwr Dyletswydd.

(vii) Dewis y Cleient

26. Bydd cleientiaid yn cadw'r cyfle i ddewis rhwng:

- darparwr y maent yn ei adnabod ac/neu y mae ganddynt berthynas â hwy eisoes, cyn belled ag y bo'r darparwr yn dal contract Gwaith Dewis y Cleient gyda'r Arglwydd Ganghellor i gynnal gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol; neu
- darparwr sydd ar ddyletswydd ar yr adeg y mae'r cleient angen cyngor o'r fath.

27. Mae hyn yn cynnal yr un lefel o ddewis ag sydd ar gael dan y cynllun presennol.

28. Unwaith y bydd darparwr wedi ei ddewis (Gwaith Dewis y Cleient) neu ei ddyrannu (Gwaith Darparwr Dyletswydd), yn gyffredinol bydd rhaid i'r darparwr ddarparu'r ystod lawn o gyngor, ymglyfreitha a gwasanaethau cynrychiolaeth llys ynadon. Fodd bynnag, bydd cleient sy'n dymuno newid eu cynrychiolydd cyfreithiol yn dal i allu gwneud hynny. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd unrhyw newid mewn darparwr ar ôl rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn cael ei benderfynu gan lys, yn amodol ar yr un meini prawf a nodir ar hyn o bryd mewn rheoliadau.¹⁹

29. Os yw darparwr yn ystyried yn briodol tynnu'n ôl ei wasanaeth, yn unol â'i god ymddygiad proffesiynol, gall wneud hynny. Felly, bydd yr un meini prawf sy'n berthnasol yn awr ar gyfer tynnu'n ôl/trosglwyddo yn dilyn rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn parhau i fod yn berthnasol o dan y model terfynol.²⁰ Byddem yn

¹⁹ Gweler reoliad 14 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Penderfyniadau gan Lys a Dewis Gynrychiolydd) 2013.

²⁰ Fel uchod, gweler reoliad 14 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Penderfyniadau gan Lys a Dewis Gynrychiolydd) 2013.

disgwyl mai dim ond ar ôl ystyried yr un meini prawf y byddai unrhyw dynnu'n ôl neu drosglwyddo cyn rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn digwydd. Bydd yr LAA yn mesur i ba raddau y mae darparwyr yn tynnu eu gwasanaethau'n ôl neu gleientiaid yn trosglwyddo eu cyfarwyddiadau drwy Ddangosydd Perfformiad Allweddol yn y contractau Gwaith Dewis y Cleient a chontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd.

(viii) Dyrannu achosion

30. O dan y model terfynol, os yw'r cleient yn dewis y Darparwr Dyletswydd, bydd y cleient yn cael ei ddyrannu i ba bynnag ddarparwr sydd ar ddyletswydd ar yr amser perthnasol neu, lle y bo'n berthnasol ar hyn o bryd (oherwydd y swm bach iawn o waith dyletswydd), bydd achosion yn parhau i gael eu dyrannu ar sail panel. Mae hyn yn cynnal y dull presennol o ddyrannu achosion (gan gynnwys y rheolau cyfredol ar reoli gwrthdaro buddiannau), ac eithrio bod achosion yn cael eu dyrannu i gwmni yn hytrach nag i unigolyn.
31. Fel yn awr, bydd cleientiaid sy'n dewis eu cyfreithiwr eu hunain yn cael eu cyfeirio gan y Ganolfan Alwadau Cyfreithiwr Amddiffyn at y darparwr y maent wedi ei ddewis, ar yr amod bod y darparwr yn dal contract Gwaith Dewis y Cleient. Os bydd y cleient yn dewis darparwr nad yw'n dal contract Gwaith Dewis y Cleient, gall y darparwr wrth gwrs ddarparu'r gwasanaeth ar sail talu'n breifat. Beth bynnag, dylai'r cleient gael gwybod y gallant ofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol am ddim gan ddarparwr dan gontract petaent yn dymuno, yn unol â'u rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyrannu achosion tu allan i bresenoldeb gorsaf heddlu

32. O dan y model terfynol, bydd cleientiaid sy'n gofyn am gyngor gan ddarparwr ar gyfer materion y tu allan i'r orsaf heddlu yn ceisio cyngor o'r fath gan unrhyw ddarparwr sy'n dal contract Gwaith Dewis y Cleient. Fel yn awr, ni fydd unrhyw broses ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn; yn syml, bydd y cleient yn cysylltu â darparwr yn uniongyrchol.

(ix) Tâl

Gostwng ffioedd yn raddol

33. Mae'r model terfynol yn cynnwys cyfanswm gostyngiad mewn ffioedd o 17.5% erbyn Mehefin 2015, dyddiad cychwyn gwasanaeth arfaethedig y contractau cymorth cyfreithiol troseddol newydd. Mae'n bwysig nodi y gall effaith y gostyngiad ffi hwn o 17.5% mewn gwirionedd amrywio gan ddibynnu ar yr ardal, o ganlyniad i gyflwyno'r peirianweithiau tâl newydd.
34. Yn hytrach na gwneud gostyngiad un cam o 17.5% ym mis Mehefin 2015, byddwn yn gwneud dau ostyngiad yn olynol: gostyngiad ffi o 8.75% ar achosion newydd yn dechrau ar neu ar ôl 20 Mawrth 2014 ar draws yr holl wasanaethau ymgyfreitha troseddol²¹ (ac eithrio VHCCs) a ffioedd adfocatiaeth llys ynadon, a ddilynir gan ail gostyngiad o 8.75% ar draws yr un ystod o ffioedd ym mis Mehefin 2015, i gael eu cymhwyso i Waith Darparwr Dyletswydd a Gwaith Dewis y Cleient dan y contractau cymorth cyfreithiol troseddol newydd (o'i gymharu â lefelau ffioedd cyfredol ac yn erbyn y trefniadau tâl a drafodir isod).
35. Gweler y cyfraddau ar gyfer gwasanaethau ymgyfreitha o 20 Mawrth 2014 yn y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) (Diwygio) 2014.

²¹ Mae'r cyfeiriadau at 'wasanaethau ymgyfreitha' trwy gydol y bennod hon yn golygu'r holl wasanaethau presennol yng nghwmpas y Contract Trosedd Safonol 2010.

Ffioedd sefydlog

36. Ni waeth p'un a yw'r cleient yn dewis eu darparwyr eu hunain neu'r Darparwr Dyletswydd, bydd y mecanwaith tâl (h.y. y cynllun ffi sefydlog) yr un fath.
37. Rydym bellach yn bwriadu'r canlynol ar gyfer pob cam yn y broses CJS:
- a) Ffi sefydlog presenoldeb yng ngorsaf heddlu
38. Byddwn yn cyflwyno dull ffi sefydlog i dalu am bresenoldeb yng ngorsaf heddlu. Bydd dwy ffi sefydlog: ffi sefydlog ar gyfer achosion sy'n tarddu mewn gorsaf heddlu yn Llundain a ffi sefydlog ar gyfer achosion sy'n deillio o'r tu allan i Lundain. Ar gyfer Llundain a tu allan i Lundain byddwn yn cynnal mecanwaith, yn debyg i'r mecanwaith ffi dianc cyfredol ar gyfer presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu, lle bydd darparwyr yn gallu hawlio ffi uwch ar yr amod y gallant ddangos bod yr oriau a weithiwyd ganddynt yn fwy na'r trothwy penodedig (a fydd yn hafal i dair gwaith y ffi a bennwyd ar gyfer yr ardal honno). Bydd y cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith o'r fath yn cael eu gostwng o 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol, sydd eisoes yn sefydlog p'un a yw'r achos wedi tarddu yn Llundain neu'r tu allan i Lundain.²²
39. Ar gyfer gwaith presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu, bydd y ffioedd sefydlog canlynol a Trothwy Achosion Ffioedd Dianc yn berthnasol:

Tabl C3: Ffioedd sefydlog presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu a throthwyon achosion ffioedd dianc

	Ffi Sefydlog	Trothwy Achos Ffi Dianc
Achosion yn deillio o Lundain	£200.93	£602.79
Achosion yn deillio tu allan i Lundain	£156.19	£468.57

Mae'r ffioedd sefydlog wedi cael eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio'r taliad cymedr o ddata bilio LAA ar gyfer y flwyddyn Hydref 2012 i Medi 2013 (yn gynhwysol). Nid yw'r ffioedd hyn yn cynnwys TAW a threuliau teithio a chynhaliaeth.

b) Ffi sefydlog cynrychiolaeth yn y llys ynadon

40. Ni fydd y ffi sefydlog ar gyfer cynrychiolaeth yn y llys ynadon yn berthnasol i'r achosion hynny yr ymdrinnir â hwy gan y darparwr dyletswydd llys (gweler paragraff 42 isod). Ar gyfer pob gwaith cynrychiolaeth llys ynadon arall, o dan gontractau Gwaith Dewis y Cleient a Darparwr Dyletswydd, byddwn yn cyfnewid y cynllun Ffi Safonol yn y llys ynadon gyda ffioedd sefydlog. Bydd hyn yn dileu'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol Isaf a'r Ffi Safonol Uwch a'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd dynodedig a rhai heb eu dynodi. Yn lle hynny, bydd y ffi sefydlog yn cael ei seilio ar y math o achos yn unig.
41. Dan y contractau Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddwn yn cynnal mecanwaith, yn debyg i'r mecanwaith ffioedd ansafonol presennol ar gyfer gwaith cynrychiolaeth llys ynadon (ac eithrio gwaith darparwr dyletswydd llys), lle bydd darparwyr yn gallu hawlio ffi uwch. Mae'r mecanwaith ffioedd ansafonol presennol yn galluogi darparwyr i hawlio ffi uwch ar yr amod y gallant ddangos bod yr oriau a weithiwyd ganddynt yn fwy na'r trothwy penodol. Er hwylustod, byddwn yn parhau i

²² *ibid.*

gyfeirio at hon fel Ffi Ansafonol. Bydd y cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith o'r fath yn cael eu gostwng 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol.²³

42. Byddwn yn cynnal cynllun darparwr dyletswydd y llys ynadon o dan y model hwn. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei dalu drwy gyfraddau fesul awr a bydd darparwyr yn cael eu talu yn seiliedig ar y nifer o oriau y maent yn bresennol yn y llys ynadon. Fodd bynnag, dim ond y darparwyr hynny y dyfarnwyd contract Gwaith Darparwr Dyletswydd iddynt fydd yn gwneud y gwaith hwn, a byddant yn cael eu talu am y gwaith hwn ar y cyfraddau presennol²⁴ wedi eu gostwng o 17.5%.
43. Ar gyfer cynrychiolaeth llys ynadon, bydd y ffioedd sefydlog canlynol a Throthwyon Ffioedd Ansafonol yn berthnasol

Tabl C4: Ffioedd sefydlog a throthwyon ffioedd ansafonol cynrychiolaeth llys ynadon

	Ffi sefydlog	Trothwy Ffi Ansafonol
Categori 1a	£235.56	£426.61
Categori 1b	£196.28	£426.61
Categori 2	£449.45	£704.88
Categori 3	£336.01	£651.34

Mae'r ffioedd sefydlog wedi cael eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio'r taliad cymedr o ddata bilio LAA ar gyfer y flwyddyn Hydref 2012 i Medi 2013 (yn gynhwysol) ac maent yn cynnwys costau teithio ac aros. Nid yw'r ffioedd hyn yn cynnwys TAW a threuliau cynhaliath.

c) Ffi sefydlog ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad)

44. Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd yn Llys y Goron, bydd cynllun ffioedd penodedig yn seiliedig ar dri newidyn (math o drosedd, tudalennau tystiolaeth yr erlyniad (PPE), a math o achos) i liniaru'r risg ariannol ar gyfer darparwyr. Bydd cyfres o'r ffioedd sefydlog hyn ar gyfer pob math o achos (ple euog, treial chwâl, treial). Bydd pob canlyniad achos â 55 ffi sefydlog: pum ffi sefydlog yn gysylltiedig â lefelau gwahanol o PPE, ar gyfer pob un o'r un ar ddeg math o drosedd. Yn gyfan gwbl ar draws y tri math o achosion, bydd 165 o ffioedd sefydlog, yn cwmpasu achosion gyda llai na 500 o dudalennau o PPE. Credwn y bydd hyn yn helpu i leihau'r risg o ddarparwr yn ennill neu gollu'n sylweddol yn ariannol o unrhyw un achos.
45. Fel o dan y cynnig gwreiddiol, byddwn yn cynnal un eithriad i'r cynllun ffioedd sefydlog hwn, sef aliniad y ffioedd yn y llys ynadon a chynlluniau Llys y Goron mewn achosion yr oedd ynadon wedi penderfynu fyddai'n addas ar gyfer treial diannod ond lle'r oedd y diffynnydd wedi dewis treial gan reithgor, ac yn dilyn hynny'n pledio'n euog. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y ffi a delir yn cyfateb i'r hyn a dderbynnir pe byddai'r achos wedi

²³ ibid.

²⁴ Wrth gyfraddau fesul awr cyfredol, rydym yn golygu'r cyfraddau tâl hynny i **gyfraddau fesul awr cyfreithiwr ar ddyletswydd yn y llys ynadon** sy'n berthnasol ar adeg cyhoeddi. 17.5% fydd cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fydd yn cynnwys y gostyngiad arfaethedig o 8.75% ar draws yr un cyfraddau ar 20 Mawrth 2014.

aros yn y llys ynadon. Gweler hefyd paragraffau 127 i 129 o'r adran Ymateb i'r Ymgynghoriad uchod am esboniad o newid pellach i'r Cynllun Ffioedd Graddedig Ymglyfreithwyr, yn benodol ynghylch achosion etholedig naill ffordd neu'r llall lle mae'r erlyniad yn gollwng yr holl gyhuddiadau yn erbyn unigolyn.

46. Bydd yr achosion hynny gyda dros 500 PPE yn cael eu talu drwy'r cynllun ffioedd graddedig.
47. Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, ni waeth lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu, bydd yr un cynllun ffioedd sefydlog cenedlaethol ar gyfer ymglyfreitha Llys y Goron yn berthnasol i achosion gyda 500 o PPE neu lai.
48. Ar gyfer gwaith ymglyfreitha Llys y Goron ar achosion gyda llai na 500 o PPE, bydd y cynllun ffi sefydlog canlynol yn berthnasol:

Tabl C5: Ffioedd sefydlog ymglyfreitha yn Llys y Goron ar gyfer achosion gyda llai na 500 o PPE

Math o drosedd	Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad				
	0-100	101-200	201-300	301-400	401-500
PLE EUOG					
A	£623.91	£925.20	£1,575.67	£2,023.92	£2,427.49
B	£516.13	£801.00	£1,240.29	£1,665.08	£1,999.57
C	£425.29	£644.20	£893.93	£1,129.42	£1,378.01
D	£590.12	£853.18	£1,331.85	£1,799.25	£2,200.34
E	£189.13	£421.99	£718.95	£1,028.40	£1,200.46
F	£190.64	£429.52	£678.95	£952.71	£1,138.20
G	£205.08	£446.81	£709.66	£960.68	£1,155.19
H	£190.70	£437.67	£691.12	£963.60	£1,132.31
I	£176.11	£435.09	£759.08	£986.10	£1,275.73
J	£624.97	£917.17	£1,436.04	£1,980.90	£2,364.54
K	£579.60	£733.21	£1,247.57	£1,624.66	£2,049.27
TREIAL CHWÂL					
A	£884.72	£1,589.64	£2,557.47	£3,244.09	£3,780.71
B	£680.29	£1,192.92	£1,942.55	£2,384.90	£2,730.63
C	£536.57	£858.74	£1,249.88	£1,498.44	£1,732.05
D	£801.88	£1,375.58	£2,295.35	£3,078.19	£3,446.49
E	£272.47	£626.97	£1,054.91	£1,274.47	£1,515.07
F	£248.74	£613.58	£1,034.89	£1,257.60	£1,408.53
G	£263.02	£726.87	£1,110.93	£1,407.21	£1,546.48
H	£254.11	£631.57	£1,055.00	£1,230.60	£1,396.22
I	£296.15	£780.97	£1,296.09	£1,776.55	£1,836.80
J	£854.51	£1,481.89	£2,452.13	£3,221.82	£3,890.95
K	£702.75	£935.17	£1,551.61	£2,150.74	£2,586.46
TREIAL					
A	£1,697.67	£2,741.76	£3,881.81	£4,914.81	£5,888.45
B	£1,405.67	£2,181.36	£3,234.00	£4,253.51	£5,351.27
C	£1,068.79	£1,824.09	£2,702.69	£3,615.76	£4,718.64
D	£1,645.35	£2,398.90	£3,626.39	£4,734.08	£6,066.88
E	£690.59	£1,179.17	£2,040.21	£2,665.58	£3,559.33
F	£607.98	£1,052.92	£1,717.22	£2,222.19	£2,998.04
G	£569.27	£1,054.06	£1,854.79	£2,366.91	£2,976.55

H	£661.89	£1,443.80	£2,179.28	£2,685.84	£3,349.84
I	£1,006.88	£1,779.70	£2,490.00	£3,171.49	£3,988.44
J	£2,080.59	£2,700.87	£3,876.63	£4,907.84	£6,071.07
K	£1,438.74	£1,957.11	£2,315.27	£2,931.67	£3,560.93

Nid yw'r ffioedd hyn yn cynnwys TAW a threuliau teithio a chynhaliath.

d) Ffi graddedig ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda 500 o PPE neu fwy)

49. Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn cynnal yr LGFS cyfredol ar gyfer achosion lle mae'r PPE yn 500 neu fwy. Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, bydd y cyfraddau sy'n sail i'r LGFS yn cael eu gosod yn weinyddol ar 17.5% yn is na'r cyfraddau presennol.²⁵

Cyfraddau tâl ar gyfer dosbarthiadau eraill o gymorth cyfreithiol troseddol

50. Bydd cyfraddau tâl ar gyfer yr holl ddsbarthiadau eraill o waith yn cael eu gosod yn weinyddol a'u gostwng o 17.5% o dan y cyfraddau presennol. Er mwyn eglurder, mae hyn yn cynnwys cyfraddau tâl ar gyfer cyfraith carchar a gwaith apeliadau ac adolygiadau, fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unrhyw waith sifil cysylltiedig. Byddwn yn cynnal y darpariaethau Aildreial a Throsglwyddo cyfredol a nodir yn Atodlen 2 y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013, lle mae cyfran o'r ffi berthnasol (naill ai'r ffi sefydlog neu LGFS fel y bo'n berthnasol) yn daladwy pan fo un o'r senarios a ddisgrifir yn berthnasol. Gweler y cyfraddau presennol o dâl ar gyfer pob un o'r dosbarthiadau o waith gyda chyfraddau a bennir yn weinyddol yn y rheoliadau.²⁶

Treuliau

51. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu treuliau ar wahân ac felly bydd cost unrhyw dreuliau teithio a chynhaliath a threuliau arbenigwyr o dan bob categori uchod yn cael eu talu ar wahân.

(x) Y broses gaffael

52. Pwrpas yr adran hon yw egluro sut yr ydym ar hyn o bryd yn bwriadu rhedeg y broses gaffael i gaffael contractau trosedd newydd o dan y model terfynol.
53. Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd yn yr ymgynghoriad, nid ydym yn gwneud unrhyw ymrwymiad penodol yn yr adran hon mewn perthynas â fersiwn derfynol y broses gaffael (gan gynnwys y telerau a'r amodau a fydd yn rheoli'r broses, y meini prawf terfynol, unrhyw ddull ar gyfer gwerthuso tendrau a/neu unrhyw fecanwaith sgorio cais).
54. Bydd y broses caffael yn caniatáu i ymgeiswyr:
- Wneud cais am gontract i gyflenwi Gwaith Dewis y Cleient unrhyw le yng Nghymru a Lloegr; ac os yn llwyddiannus, cânt
 - Wneud cais i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill contract i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd yn yr ardal gaffael.

²⁵ Defnyddiwn 'gyfraddau presennol' i gyfeirio at y cyfraddau tâl hynny ar gyfer ymglyfreitha (ac eithrio VHCCs) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon sy'n berthnasol ar adeg cyhoeddi. 17.5% fydd cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fydd yn cynnwys y gostyngiad arfaethedig o 8.75% ar draws yr un cyfraddau ar 20 Mawrth 2014.

²⁶ Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013.

55. Bydd sefydliadau sy'n dymuno ymgymryd â gwaith Cyfraith Carchar a/neu Waith Apeliadau ac Adolygiadau yn gallu gwneud cais o dan y Contract Dewis y Cleient neu o dan broses ar wahân. Bydd gan hon feini prawf penodol sy'n adlewyrchu gofynion ansawdd y gwasanaeth. Bydd y meini prawf hyn yn cynnwys gofyniad i gyflogi Goruchwyliwr Cyfraith Carchar. Bydd safon ddiwygiedig Goruchwyliwr Cyfraith Carchar, yn cymryd i ystyriaeth gwmpas diwygiedig y gwaith, ac yn cael gwared ag amgylchiadau eithriadol fel llwybr i gymhwyso ar gyfer y safon hon. Bydd hyn ar gael cyn agor y broses dendro.

Contract ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

56. Bydd y broses ymgeisio hon yn broses un cam yn cynnwys:

- Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ); ac
- Asesiad y gall yr ymgeisydd fodloni amodau'r tendr a rhwymedigaethau craidd o dan y contract.

57. Bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) er mwyn ennill contract i ymgymryd â Gwaith Dewis y Cleient.

Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ) ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

58. Bydd yr Holiadur Cyn-gymhwyso ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn cynnwys meini prawf gorfodol a dewisol.

- Meini Prawf Gorfodol a Dewisol

59. Bydd y meini prawf gorfodol a dewisol yn profi addasrwydd ymgeisydd i gontractio â chorff cyhoeddus.

60. Bydd y PQQ, cyn belled ag y bo modd, yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet. Bydd y PQQ yn cynnwys cwestiynau craidd yr Holiadur Cyn-gymhwyso safonol sy'n cwmpasu seiliau dros wrthod gorfodol (er enghraifft, euogfarnau am lwgrwobrwyo) a'r seiliau dros wrthod dewisol (er enghraifft, cyflawni rhwymedigaethau o ran treth). Bydd y meini prawf dewisol hefyd yn cynnwys ystyriaethau penodol LAA (er enghraifft, p'un a derfynwyd contract ymgeisydd o'r blaen).

61. Bydd yr ymatebion i'r sail dros wrthod gorfodol yn absoliwt, a lle y noda ymgeisydd nad yw'n gallu bodloni'r gofyniad, bydd yn methu'r PQQ.

62. O dan y cwestiynau PQQ sy'n ymwneud â seiliau dewisol dros wrthod, bydd ymgeiswyr yn cael y cyfle i gyflwyno gwybodaeth y dylid ei chymryd i ystyriaeth wrth werthuso pam nad oedd y gofynion wedi eu bodloni'n syth. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hasesu gan yr LAA fel rhan o'i werthusiad o'r ymatebion PQQ.

Rhwymedigaethau craidd o dan y Contract ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

63. Fel rhan o'r broses dendro, bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni rhai rhwymedigaethau craidd. Mae Cymdeithas y Gyfraith wedi gwneud nifer o awgrymiadau gwerthfawr ynglŷn â'r gofynion gwasanaeth gofynnol y dylai ymgeiswyr eu bodloni, ac yr ydym wedi adlewyrchu'r rhain cyn belled ag y bo modd yn y rhwymedigaethau craidd a amlinellir isod. Roedd eu hawgrymiadau ynghylch sicrhau ansawdd yn arbennig o ddefnyddiol ac o ganlyniad rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad gyflogi o leiaf un aelod cymwys o staff cyfwerth ag amser llawn, a chyflwyno cymhareb goruchwyliwr i weithiwr achos o 1 i 4.

64. Mae'r rhwymedigaethau craidd yr ydym yn eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Rhaid i ymgeiswyr feddu ar (neu ymrwymo i gaffael o fewn cyfnod amser penodedig) safon ansawdd perthnasol (naill ai Marc Ansawdd Arbenigol yr LAA neu safon Lexcel Cymdeithas y Gyfraith neu safon ansawdd cyfatebol y cytunir arno gan yr LAA)
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn ddarostyngedig i reoliad gan un o'r rheoleiddwyr sector cyfreithiol a chael cymeradwyaeth erbyn dyddiad cychwyn y contract
- Bydd ymgeiswyr yn destun i archwiliad Adolygiad Cymheiriaid yn ystod cyfnod y contract a rhaid derbyn Graddfa Adolygiad gan Gymheiriaid o 3 neu uwch er mwyn cynnal y contract;
- Rhaid i ymgeiswyr gael neu ymrwymo i gael a defnyddio Cyfrif E-bost Diogel y CJS i dderbyn tystiolaeth electronig gan asiantaethau erlyn.
- Rhaid i ymgeiswyr fod â swyddfa yng Nghymru a Lloegr sy'n cwrdd â'r gofynion presenoldeb a nodir yn y contract.

65. Rhaid i sefydliadau gael dyfarniad o gontract Gwaith Dewis y Cleient i gael eu gwahodd i wneud cais am gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd.

Contract i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd

66. Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddwn yn cynnal cystadleuaeth am nifer cyfyngedig o gontractau ym mhob ardal gaffael lle mae tendrau'n cael eu gwerthuso yn erbyn Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol). Dim ond sefydliadau y dyfernir contract Gwaith Dewis y Cleient iddynt fydd yn cael eu gwahodd i wneud cais am gontract Gwaith Darparwr Dyletswydd. Bydd sefydliadau'n cyflwyno cais unigol yn cynnwys ymatebion i'r meini prawf dethol a dyfarnu. Bydd yr asesiad o ymatebion yn broses dau gam i werthuso Gofynion y Broses Dendro:

- Cam 1 – Asesiad o ymatebion i'r meini prawf dethol i lunio rhestr fer o ymgeiswyr i'r cam nesaf ac
- Cam 2 – asesiad o ymatebion i'r meini prawf dyfarnu.

Meini Prawf Dethol Gwaith Darparwr Dyletswydd

67. Rydym yn y broses o ddatblygu meini prawf dethol i lunio rhestr fer o ymgeiswyr sy'n ymgeisio i gyflwyno gwaith Darparwr Dyletswydd. Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr fod â swyddfa sy'n cwrdd â gofynion y contract yn yr ardal gaffael penodol y maent yn tendro amdani. Rydym yn bwriadu mabwysiadu'r dull hwn ym mhob ardal ac eithrio Llundain. O ystyried daearyddiaeth Llundain yr ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i sefydliad fod â swyddfa (sy'n bodloni'r diffiniad contract) yn yr ardal gaffael y mae'n gwneud cais amdani neu mewn ardal gaffael sydd union gerllaw. Mae hyn yn ei hanfod yn ailadrodd y gofynion presennol ar gyfer mynediad i waith cyfreithiwr ar ddyletswydd yn Llundain.

68. Roedd gennym ddiddordeb yn awgrym Cymdeithas y Gyfraith y dylem fod yn rhoi prawf ar brofiad ymgeiswyr, ac o ganlyniad, bydd y meini prawf dethol yn gwerthuso profiad ymgeiswyr yn ogystal â'u gallu i gyflenwi gwasanaethau o'r math neu swm tebyg. Bydd ymgeiswyr yn cael eu sgorio yn erbyn nifer o feini prawf. Mae'r rhai rydym yn ystyried ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Profiad o staff;
- Profiad y tîm rheoli wrth reoli gwasanaeth cyffelyb; a
- Profiad o fod wedi cyflenwi swm tebyg o waith.

69. Bydd nifer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn y cyfnod meini prawf dethol yn cael ei benderfynu mewn perthynas â nifer y contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd sydd eu hangen ym mhob ardal gaffael.

Meini Prawf Dethol ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd

70. Dim ond ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer yn y cyfnod meini prawf dethol y byddwn yn ystyried ymatebion i'r meini prawf dyfarnu.
71. Ein bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr nodi sut y bwriadant gyflenwi'r gwasanaeth yn erbyn ardaloedd a ddiffinnir fel sicrhau ansawdd darpariaeth y gwasanaeth, staffio a recriwtio, adeiladau ac agweddau eraill ar symudoledd.
72. Bydd yr LAA yn gwerthuso ymatebion hyn i sicrhau fod ymgeiswyr yn meddu ar allu i ddarparu'r gwasanaeth. Lle mae ymgeiswyr yn tendro i ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un ardal gaffael, gallai hyn gynnwys hyder yr LAA yng ngallu'r ymgeisydd i ddarparu gwasanaethau ar yr un pryd ym mhob ardal gaffael.
73. Yna caiff ymgeiswyr eu sgorio a'u graddio yn nhrefn y sgôr uchaf.
74. Byddwn yn amcanu at ddyfarnu nifer penodol o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd o faint cyfartal ym mhob ardal gaffael i'r ymgeiswyr sy'n sgorio uchaf.

Dyrannu slotiau dyletswydd

75. Dyrennir niferoedd cyfartal o slotiau dyletswydd gorsaf heddlu a llys ynadon i ymgeiswyr llwyddiannus.
76. Er enghraifft, os oes deg o gontractau i gael eu dyfarnu mewn ardal gaffael i'r deg cais sydd wedi sgorio uchaf, yna bydd pob un o'r darparwyr hyn yn cael dyraniadau o slotiau dyletswydd o faint cyfartal (h.y. bydd pob darparwr yn cael 10% o'r slotiau dyletswydd sydd ar gael).

Symudoledd contract ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd

77. Er mwyn cael sicrwydd bod ymgeiswyr llwyddiannus yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at fod mewn sefyllfa i gyflenwi'r gwasanaethau, bydd yr LAA yn anelu at lofnodi contractau gydag ymgeiswyr llwyddiannus cyn y dyddiad cychwyn gwasanaeth. Os ystyrir nad yw ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cynnydd boddhaol, efallai y bydd rhaid i'r LAA gymryd penderfyniad i derfynu'r contract.

TUPE

78. Bydd yn gyfrifoldeb ar bob ymgeisydd unigol i ffurfio eu barn eu hunain (gan gymryd cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen) ar p'un a yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn berthnasol.

(xi) Gweithredu

79. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cychwyn ar y broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn Ebrill 2014 gyda'r bwriad o ddyfarnu contractau ym mis Chwefror 2015. Bydd y gwasanaeth yn dechrau ym mis Mehefin 2015.

Atodiad D – Dosbarthiadau o waith cymorth cyfreithiol troseddol

Darperir y wybodaeth a nodir yn y tablau canlynol i gefnogi'r model terfynol caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a ddisgrifir yn Atodiad C.

Tabl D1: Dosbarthiadau o waith cymorth cyfreithiol troseddol arfaethedig ar gyfer eu cynnwys yng nghwmpas y contract(au) newydd

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dosbarthiadau o waith cymorth cyfreithiol troseddol yr ydym yn cynnig y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y contractau newydd.

Ymchwiliadau Troseddol

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Cyngor a Chymorth Annibynnol	x	x
Cyngor Ffôn Gorsaf Heddlu	x	x
Presenoldeb Gorsaf Heddlu	x	x
Presenoldeb Gorsaf Heddlu (Lluoedd Arfog)	x	x
Gwarant Cadw Pellach	x	x
Gwarant Cadw Pellach (Lluoedd Arfog)	x	x
Cyfreithiwr ar Ddyletswydd Wrth Gefn		x
Presenoldeb Gorsaf Heddlu ar ôl Cyhuddo (Torri Mechnïaeth / Arestio ar Warrant)	x	x
Presenoldeb Gorsaf Heddlu ar ôl Cyhuddo (ID ar ôl Cyhuddo, Atgyfeirio am Rybudd, Ail-gyhuddo, Cerydd, Rhybudd)	x	x
Mater Mewnfudo	x	x

Achosion Troseddol

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Cymorth Adfocatiaeth Llys Ynadon	x	x
Sesiwn Cyfreithiwr Llys ar Ddyletswydd		x
Cynrychiolaeth yn y llys ynadon	x	x
Cymorth Adfocatiaeth Llys y Goron	x	x
Cynrychiolaeth Uchel Lys	x	x
Ail Hawlio ar gyfer Dedfryd Ohiriedig	x	x

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Diogelwch Cyn Gorchymyn	x	x
Diogelwch Cynnar	x	x
Gwrthod Prawf Modd – Ffi Cwblhau Ffurflen	x	x

Gwaith Sifil Cysylltiedig

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Help Cyfreithiol a Gwaith Sifil Cysylltiedig	x	x

Llys y Goron

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Ymglyfreitha Llys y Goron	x	x
Adfocatiaeth Llys y Goron	Ddim mewn cwmpas	
Achosion Cost Uchel Iawn	Ddim mewn cwmpas	

Llysoedd uwch

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseddol	O fewn cwmpas Contract Gwaith Dewis y Cleient	O fewn cwmpas Contract Gwaith Darparwr Dyletswydd
Cynrychiolaeth ar gyfer apeliadau a glywyd gan y Llys Apêl	x	x
Cynrychiolaeth ar gyfer apeliadau a glywyd gan y Llys Goruchaf	x	x

Byddai darparwyr sydd am wneud cais i gynnal cyfraith carchar a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau o wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu gwneud hynny, p'un a ydynt yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill, neu beidio. Mae dosbarthiadau gwaith cyfraith carchar ac/neu apeliadau ac adolygiadau yn cynnwys y canlynol:

Cyfraith Carchar

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseiddol	O fewn cwmpas y Contract
Cyngor a Chymorth	x
Cymorth Adfocatiaeth (Disgyblu)	x
Cymorth Adfocatiaeth (Parôl)	x

Apeliadau ac Adolygiadau

Dosbarth o waith cymorth cyfreithiol troseiddol	O fewn cwmpas y Contract
Cyngor a Chymorth ynglŷn ag Apêl (ac eithrio CCRC)	x
Cyngor a Chymorth ynghylch Cais CCRC	x
Cynrychiolaeth ar Apêl trwy achos datganedig	x

Atodiad E – Ffioedd Graddedig Adfocadau

Mae'r ffioedd a ddangosir isod yn gysylltiedig â threial. Telir pleon euog ar 45% o'r gyfradd treial a threialon chwâl ar 80% o'r gyfradd treial (ac eithrio codiad tyst).

Opsiw 2	Iau Unigol							Cwnsler y Frenhines						
	Terfyn tudale n nau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+	Terfyn tudale n nau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+
A – Dynladdiad	2,000	£2,770	£5,530	£2.61	£419	£210	£225	5,000	£7,900	£15,800	£5.93	£773	£306	£327
B – Trais neu gyffuriau difrifol	1,000	£1,700	£3,400	£2.61	£371	£195	£209	2,500	£7,900	£15,800	£5.93	£677	£306	£327
C – Trais neu gyffuriau llai difrifol	250	£910	£1,820	£2.61	£322	£195	£209	750	£7,900	£15,800	£5.93	£645	£306	£327
D – Troseddau rhywiol	500	£1,300	£2,920	£2.61	£322	£210	£225	1,500	£7,900	£15,800	£5.93	£645	£306	£327
E – Bwrgleriaeth	500	£700	£1,740	£2.61	£258	£178	£190	1,500	£7,900	£15,800	£5.93	£483	£306	£327
F – Anonstrwydd (gwerth hyd at £30k)	500	£700	£1,740	£2.61	£258	£178	£190	1,500	£7,900	£15,800	£5.93	£483	£306	£327
G – Anonstrwydd (gwerth £30-100k)	2,000	£2,370	£4,740	£2.61	£258	£178	£190	6,000	£7,900	£15,800	£5.93	£483	£306	£327
H – Amrywiol	250	£950	£1,900	£2.61	£322	£195	£209	750	£7,900	£15,800	£5.93	£645	£306	£327
I – Troseddau yn erbyn cyfiawnder cyhoeddus	500	£1,110	£2,210	£2.61	£322	£195	£209	1,500	£7,900	£15,800	£5.93	£645	£306	£327
J – Troseddau Rhywiol Difrifol	500	£2,050	£4,110	£2.61	£419	£210	£225	1,500	£7,900	£15,800	£5.93	£773	£306	£327
K – Anonstrwydd (gwerth £100k+)	5,000	£4,740	£9,480	£2.61	£419	£210	£225	5,000	£7,900	£15,800	£5.93	£773	£306	£327

	Iau Arweiniol							Iau a Arweinir						
	Terfyn tudale n nau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+	Terfyn tudale n nau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+
A – Dynladdiad	5,000	£5,925	£11,850	£4.42	£580	£261	£281	5,000	£3,950	£7,900	£2.96	£387	£175	£187
B – Trais neu gyffuriau difrifol	2,500	£5,925	£11,850	£4.42	£508	£261	£281	2,500	£3,950	£7,900	£2.96	£338	£175	£187
C – Trais neu gyffuriau llai difrifol	750	£5,925	£11,850	£4.42	£483	£261	£281	750	£3,950	£7,900	£2.96	£322	£175	£187
D – Troseddau rhywiol	1,500	£5,925	£11,850	£4.42	£483	£261	£281	1,500	£3,950	£7,900	£2.96	£322	£175	£187
E – Bwrgleriaeth	1,500	£5,925	£11,850	£4.42	£363	£261	£281	1,500	£3,950	£7,900	£2.96	£242	£175	£187

	lau Arweiniol							lau a Arweinir						
	Terfyn tudale nnau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+	Terfyn tudale nnau	Safonol	Uwch	Codiad tyst	Diwr nod 3-40	Diwrn od 41-50	Diwr nod 51+
F – Anonestrwydd (gwerth hyd at £30k)	1,500	£5,925	£11,850	£4.42	£363	£261	£281	1,500	£3,950	£7,900	£2.96	£242	£175	£187
G – Anonestrwydd (gwerth £30–100k)	6,000	£5,925	£11,850	£4.42	£363	£261	£281	6,000	£3,950	£7,900	£2.96	£242	£175	£187
H – Amrywiol	750	£5,925	£11,850	£4.42	£483	£261	£281	750	£3,950	£7,900	£2.96	£322	£175	£187
I – Troseddau yn erbyn cyfiawnder cyhoeddus	1,500	£5,925	£11,850	£4.42	£483	£261	£281	1,500	£3,950	£7,900	£2.96	£322	£175	£187
J – Troseddau Rhywiol Difrifol	1,500	£5,925	£11,850	£4.42	£580	£261	£281	1,500	£3,950	£7,900	£2.96	£387	£175	£187
K – Anonestrwydd (gwerth £100k+)	5,000	£5,925	£11,850	£4.42	£580	£261	£281	5,000	£3,950	£7,900	£2.96	£387	£175	£187

Cyfrifir swm y ffioedd graddedig ar gyfer adfocad treial sengl yn cynrychioli un person a gynorthwyir sy'n wynebu prawf ar un ditiad yn Llys y Goron yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$G = c(B + (w \times W)).$$

Pan fo'r treial yn fwy na 2 ddiwrnod, rhaid hefyd talu ffi presenoldeb dyddiol, fel y nodir yn y tabl uchod.

Cyfrifir swm y ffioedd graddedig ar gyfer adfocad treial sengl yn cynrychioli un person a gynorthwyir gyda phle euog neu dreial chwâl yn cael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$G = c \times B.$$

G yw swm y ffioedd graddedig;

c yw'r lluosydd achos

B yw'r ffi sylfaenol (naill ai ffi safonol neu ffi uwch os yw'r nifer tudalennau yn fwy na'r pwynt toriad yn y tabl uchod)

w yw nifer tystion yr erlyniad ac eithrio'r 10 cyntaf

W yw'r codiad tyst

Y lluosydd achos yw:

1 ar gyfer treial;

0.80 ar gyfer treialon chwâl;

0.45 ar gyfer ple euog.

Atodiad F – Taliadau Interim

Cefndir

1. Yn "Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf" dywedwyd bod y Llywodraeth wedi "penderfynu symud ymlaen gydag awgrym a gyflwynwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, er mwyn gwella llif arian i ymgyfreithwyr ac adfocadau. Bydd yr LAA yn gweithio gyda chyrff cynrychioliadol y proffesiwn i ystyried ymhellach sut orau i ddarparu cyfleuster neu wella'r mecanwaith presennol i ymdrin â'r materion llif arian i ymgyfreithwyr ac adfocadau".
2. Cynullodd yr LAA a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y Gweithgor Taliadau Interim (IPWG) gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Bar Troseddol, Pwyllgor Bargyfreithwyr Ifanc, a Phwyllgor Tâl Cyngor y Bar.
3. Rhoddodd yr IPWG nifer o gynigion ymlaen.

Cynigion

4. Rydym yn bwriadu gweithredu'r canlynol:

Taliadau Interim Ymgyfreithwyr (Llys y Goron):

5. Byddai hyn yn cyflwyno mecanwaith tâl interim i ymgyfreithwyr trwy ddarparu cyfle i ymgyfreithwyr hawlio rhandaliad o achos ar ddau bwynt sbardun yn ystod oes yr achos - sbardun 1 yw gwrandawriad ple a rheoli achos effeithiol ('PCMH') a sbardun 2 sef y pwynt pan fo'r treial, a restrir ar gyfer 10 diwrnod neu fwy, yn cychwyn.
6. Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Ffioedd Graddedig Ymgyfreithwyr (LGFS) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgyfreithwyr gyflwyno eu hawliad terfynol unwaith y bydd yr achos wedi dod i ben - er enghraifft, ar ôl i'r diffynnydd gael ei ddedfrydu os yw'r achos yn mynd i dreial. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i gwmnïau sy'n ymgymryd â'r achosion hir hyn gario baich sylweddol o waith ar y gweill.
7. O dan y mecanwaith tâl interim, byddai ymgyfreithwyr yn gallu hawlio hyd at 2 o daliadau interim mewn achos. Byddai'r swm sy'n daladwy yn amrywio yn ôl dosbarth y drosedd a byddai hefyd yn dibynnu ar y nifer o Dudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad ('PPE') a gyflwynir ar y pryd. Ar gyfer y pwynt sbardun cyntaf, er enghraifft ar gyfer achosion sydd â mwy na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, byddai'r ffi yn amrywio o tua £1,300 i £4,300 ac ar gyfer yr ail bwynt sbardun, byddai'r ffi yn amrywio o tua £5,000 i £10,500.
8. Mae taliadau interim i ymgyfreithwyr yn cael eu cyflwyno trwy weithredu gam wrth gam. Bydd Sbardun 1 (PCMH effeithiol) yn cael ei weithredu drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth yn ystod haf 2015 a bydd Sbardun 2 (dechrau'r treial lle mae'r treial wedi'i rhestru am 10 diwrnod neu fwy) yn cael ei weithredu'n ddiweddarach eleni.

Taliadau Interim Adfocadau (Llys y Goron):

9. Byddai hyn yn cyflwyno mecanwaith tâl interim ar gyfer adfocadau trwy ddarparu cyfle i adfocadau hawlio rhandaliad ar ddechrau'r treial ym mhob achos a restrir am 10 diwrnod neu fwy.

10. Bydd y ffi interim a delir i adfocadau ar ddechrau'r treial yn amrywio yn dibynnu ar lefel yr adfocad a'r nifer o dystion a PPE sy'n cael eu cyflwyno ar ddechrau'r treial. Bydd y ffi cyfartalog a delir yn amrywio o £1,300 i £2,300 ar gyfer adfocadau iau a £2,600 i £4,000 ar gyfer Cwnsler y Frenhines.
11. Bydd taliadau interim ar gyfer adfocadau yn cael eu gweithredu yn ddiweddarach eleni.

Taliadau Cynnar i rai treuliau mewn Achosion Llys Ynadon

12. Byddai hyn yn newid y rheolau ar gyfer taliadau ar gyfrif am dreuliau i alluogi darparwyr i ofyn am dalu treuliau yn gynnar mewn achosion llys ynadon lle mae gwerth y treuliau yn fwy na £500.
13. Ac eithrio nifer fechan iawn o achosion lle mae'r treuliau yn fwy na gwerth y taliad misol i'r cwmni, mae'r cynllun presennol yn gofyn i ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol hawlio taliad am dreuliau ar ddiwedd y treial pan fyddant yn cyflwyno eu hawliad terfynol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i'r cwmni ariannu treuliau (e.e. adroddiad arbenigol) o flaen llaw, a thrwy hynny ychwanegu at gostau gwaith ar y gweill y cwmni. Rydym yn bwriadu gweithredu'r cynnig hwn o dan y contract troseddau 2015.

Ystyriaeth bellach

14. Mae gan y cynigion canlynol, er yn berthnasol i lif arian, faterion polisi ehangach y mae angen eu hystyried, o bosibl drwy ymgynghori pellach. Felly, rydym yn bwriadu ystyried yr awgrymiadau hyn ymhellach dros amser hirach a gweithio drwy unrhyw oblygiadau polisi ehangach.

Adfocad Cyfarwyddiedig:

15. Awgrymwyd y gallem newid y diffiniad o Adfocad Cyfarwyddiedig yn y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013 ('y Rheoliadau') fel mai'r Adfocad Cyfarwyddiedig yw'r adfocad sy'n cynnal y prif wrandawriad, yn hytrach na'r adfocad sy'n mynychu'r gwrandawriad cyntaf yn yr achos fel dan y trefniadau presennol (oni bai bod adfocad arall wedi ei enwebu fel yr Adfocad Cyfarwyddiedig cyn PCMH). Byddai hyn yn sicrhau y bydd yr adfocad sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei dalu yn uniongyrchol gan yr LAA, yn hytrach na gorfod aros am daliad gan yr Adfocad Cyfarwyddiedig.

Gwarantau Mainc

16. Awgrymwyd y gellid diwygio'r Rheoliadau fel bod adfocadau yn gallu cael eu talu pan fo gwarant mainc yn parhau heb ei gweithredu am dri mis. Byddai hyn yn dod â chynllun yr adfocadau yn unol â'r cynllun ymglyfreithwyr, ac yn nes at drefniadau cyllido'r CPS.
17. Fodd bynnag, mae cynllun y CPS yn gweithio drwy wneud taliad yn seiliedig ar y gwaith gwirioneddol a wnaed gan yr adfocad (megis mynychu gwrandawriadau, cynadleddau ayb) cyn cyhoeddi gwarant y fainc. Ni thelir ffi derfynol oni bai a hyd nes y bydd y diffynnydd wedi ei arestio ac yr ymdriniwyd ag ef, neu'r warrant wedi ei thynnu'n ôl. Mae'r LGFS yn caniatáu ar gyfer talu ffi ple euog os yw'r warrant yn cael ei chyhoeddi ar neu cyn y PCMH, neu ffi treial chwâl os yw'r warrant yn cael ei chyhoeddi ar ôl y PCMH. Mae hyn yn adlewyrchu'r swm tebygol y gwaith a wnaed,

felly bydd achos gyda gwarant mainc gynnar gyda thâl is nag achos lle mae'r unigolyn yn dianc yn union cyn y treial.

18. Yn dilyn penderfyniad Barnwr Costau y dylai fod taliad i adfocadau ar ôl 12 mis, bu'r LAA yn gwneud taliadau yn unol â'r penderfyniad hwnnw mewn achosion eraill. O ystyried hyn, rydym hefyd yn bwriadu ystyried hyn dros amser hirach a gweithio drwy'r goblygiadau o ran polisi.

Taliadau fesul Cam ar gyfer Achosion Llys Ynadon:

19. Awgrymwyd y gallem gyflwyno dull talu fesul cam ar gyfer achosion llys ynadon sy'n caniatáu i ddarparwyr hawlio taliad gwarantedig pan fo ple ddiuog wedi cael ei chofnodi a bod dyddiad y treial wedi cael ei osod yn y llys ynadon.
20. Ar hyn o bryd mae gan yr LAA fecanwaith cyfredol lle telir taliadau misol i ddarparwyr; bwriad hyn yw hwyluso llif arian ac efallai na wnaiff taliad interim sbarduno taliad misol uwch. Ar ôl ystyried effeithiau'r cynnig hwn, mae'r LAA wedi nodi nifer o bryderon stiwardiaeth ariannol gan gynnwys achosion lle mae cleient yn newid ei ble a thaliad eisoes wedi'i wneud. Felly, rydym wedi penderfynu peidio â pharhau â'r cynnig hwn ar hyn o bryd, ond yn hytrach canolbwyntio ar achosion yn Llys y Goron.

Atodiad G – Datganiad Cydraddoldeb

Cyflwyniad

1. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried effaith y cynigion cymorth cyfreithiol ar wahanol grwpiau, gan gyfeirio'n benodol at ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol.
2. Yn unol â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ystyried effaith y cynigion ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu ymddygiad anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.
3. Yn yr Atodiad hwn rydym yn amlinellu ein dadansoddiad terfynol o effeithiau cydraddoldeb y broses o ddiwygio'r caffael o wasanaethau ymgyfreitha troseddol ac ailstrwythuro'r cynllun ffioedd gradddedig adfocadau.
4. Mae'r Atodiad hwn yn adeiladu ar ein dadansoddiad cydraddoldeb cychwynol a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad Ebrill 2013, *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol* (Atodiad K: Effaith ar Gydraddoldeb) a'r un a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf* (Atodiad G: Datganiad Cydraddoldeb). Mae'n ystyried y themâu cydraddoldeb cyffredinol ar gyfer caffael ymgyfreitha troseddol a chynigion ffioedd adfocatiaeth mewn perthynas â'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn ystyried y materion cydraddoldeb penodol a godwyd gan ymatebwyr i'r ddaau ymgynghoriad.

Dyletswyddau cyfreithiol

5. O dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf"), mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, wrth arfer ei swyddogaethau, o dan ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i'r angen i:
 - Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig eraill o dan y Ddeddf;
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt); a
 - Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.
6. Y nodweddion gwarchoddedig perthnasol i'r dibenion hynny yw: oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil (adran 149(1)(a) yn unig), beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
7. Yn gyson â'r ddyletswydd honno, a chydag amcanion statudol adran 149 o'r Ddeddf mewn golwg, rydym wedi ystyried p'un a yw'r polisïau dan sylw yn debygol o effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, a sut maent yn gwneud hynny.
8. Mae darpariaethau'r Ddeddf mewn grym ar hyn o bryd yn cynnwys, ym Mhennod 2, sawl math o ymddygiad gwaharddedig, sef:
 - gwahaniaethu uniongyrchol (adran 13)

- gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd (a.15)
 - gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth (adran 17 ac adran 18)
 - gwahaniaethu anuniongyrchol (adran 19)
 - methiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (adran 20 ac adran 21)
 - aflonyddu (adran 26)
 - erledigaeth (adran 27)
 - torri cymal peidio â gwahaniaethu (adran 61)
9. Lle bo'n berthnasol, ystyrir y ffurfiau hyn o ymddygiad gwaharddedig yn fanylach yn y dadansoddiad dilynol.
10. Mewn perthynas â'r ail a'r trydydd amcan statudol - hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da – y mae'n ofynnol i'r Weinyddiaeth o dan adran 149 roi sylw dyledus iddynt, ceir canllawiau yn adran 149 (3) i (5):

'(3) Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i - gael gwared ar neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno; cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno; annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae cyfranogiad gan bersonau o'r fath yn anghymesur o isel

'(4) Mae'r camau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion pobl anabl sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn anabl yn cynnwys, yn benodol, camau i ystyried anabledau pobl anabl.'

'(5) Mae rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i ymdrin â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.'

11. Mae'r darpariaethau hynny'n rhoi arwydd fod y materion y mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth roi sylw dyledus iddynt yn cynnwys yr angen i gymryd camau - er bod y ddyletswydd yn parhau i fod yn un o sylw dyledus (yn hytrach na, er enghraifft, dyletswydd i gymryd camau mewn gwirionedd neu ddyletswydd i gyflenwi canlyniad penodol). Rydym wedi ystyried perthnasedd a goblygiadau'r polisiau dan sylw ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a'r angen i feithrin perthynas dda gan gadw mewn cof y canllawiau yn adran 149(3) i (5). Lle bo'n berthnasol, rydym yn ymdrin ag ail a thrydydd gangen y ddyletswydd yn fanylach yn y dadansoddiad dilynol.

Ffynonellau Data

12. Rydym wedi nodi'r ffynonellau data canlynol fel y rhai sy'n darparu'r wybodaeth fwyaf perthnasol ar yr effeithiau posibl ar gydraddoldeb:
- Data'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar gleientiaid a gasglwyd trwy wybodaeth bilio darparwyr

- Data'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar ddarparwyr sydd â contractau cymorth cyfreithiol.
 - Data darparwyr y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC), a gasglwyd i gefnogi eu hadroddiadau Monitro Amrywiaeth Arferol y Sylfaen Cyflenwyr. Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf diweddar yn 2010 ac mae'n cynrychioli proffil amrywiaeth y rhai sy'n rheoli swyddfeydd darparwyr cymorth cyfreithiol.
 - Cyhoeddiad Cyngor y Bar "Bar Barometer: Trends in the Profile of the Bar", Tachwedd 2012, a "Barristers' Working Lives: A Biennial Survey of the Bar 2011". Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ar gyfer bargyfreithwyr gweithredol, o safbwynt oedran, rhyw, ac ethnigrwydd.
 - Data a gyhoeddwyd o Gyfrifiad 2011, er mwyn galluogi gwneud cymariaethau â'r boblogaeth yn gyffredinol.
13. Mae cyfyngiadau i bob un o'r ffynonellau data hyn. Nid oes dim o'r data yn cynnwys pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Felly dim ond y data sydd ar gael ar oedran, rhyw, hil ac anabledd y mae ein dadansoddiad ystadegol yn ei gynnwys. Hefyd:
- Mae data cleient yr LAA yn cael ei gofnodi gan ddarparwyr, nid y cleientiaid cymorth cyfreithiol eu hunain, ac felly mae'n fwy agored i anghywirdeb o'i gymharu â data hunan ddiffiniedig, yn enwedig o ran anabledd/salwch a hil.
 - Fel gyda llawer o setiau data gweinyddol, mae ansawdd data cleient yr LAA yn cael ei effeithio gan faint o ddata sydd ar goll, yn enwedig o ran statws salwch/anabledd a hil.
 - Mae data cydraddoldeb darparwyr yr LSRC yn seiliedig ar arolwg o ddarparwyr a oedd â chyfradd ymateb gasgliadol o 69%.
14. Yn y ddau ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr nodi tystiolaeth neu ffynonellau data ychwanegol. Fodd bynnag, nid oes dim o'r data sydd ar gael, p'un a gafodd ei ddal yn y lle cyntaf gan yr Adran neu ei fod wedi'i awgrymu gan yr ymatebwyr, yn cynnwys pob un o'r nodweddion gwarchoddedig.
15. Lle'r awgrymodd ymatebwyr ddata ychwanegol, neu ffynonellau o ddata, o ran nodweddion gwarchoddedig y bobl yr effeithir arnynt, rydym wedi ystyried y data a'r ffynonellau a ddarparwyd a, lle ystyrir ei bod yn ddibynadwy ac yn berthnasol, rydym wedi cymryd y wybodaeth i ystyriaeth yn y dadansoddiad dilynol. Mae Cyngor y Bar wedi cyhoeddi arolygon ymadael sy'n dangos fod bargyfreithwyr benywaidd neu BAME yn fwy tebygol o adael oherwydd ystyriaethau ariannol. Fodd bynnag, nid yw'n glir os yw hyn o ganlyniad i gyfraddau cymorth cyfreithiol. Nid ydym, felly, yn ystyried ei bod yn ffynhonnell ddibynadwy y gellir dibynnu arni wrth ystyried effaith ein diwygiadau.
16. Defnyddiwyd data 2011/12 ar ddeiliaid contract troseddau er mwyn bod yn gyson â'r dadansoddiad a wnaed ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r set ddata hon yn cynnwys yr holl ddarparwyr a dderbyniodd dâl am waith Troseddau Uwch neu Droseddau Is yn 2011/12.²⁷ Gan na fu cylch contract newydd ers i'r dadansoddiad hwn gael ei wneud, rydym yn dal i ystyried fod hwn yn rhoi darlun cywir o nodweddion gwarchoddedig y

²⁷ Nid yw'r set ddata hon yn cynnwys darparwyr troseddol sydd ond yn gwneud gwaith VHCC gan nad ydynt yn cael eu heffeithio gan y cynigion.

darparwyr yr effeithir arnynt gan y cynigion. Lle bo hynny'n berthnasol, fodd bynnag, rydym wedi defnyddio data mwy diweddar, a nodir hyn drwy gydol y ddogfen.

Methodoleg

17. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), ein dull o asesu'r potensial ar gyfer anfantais arbennig yn deillio o'r cynigion oedd adnabod yr unigolion y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (y 'garfan'). Wrth edrych ar y garfan, byddwn wedyn wedi tynnu cymariaethau rhwng effeithiau posibl pob cynnig ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig neilltuol, gyda rhai nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny. Yn ogystal rydym wedi cymharu nodweddion yr unigolion yr effeithir arnynt gan y cynigion gyda nodweddion y boblogaeth yn gyffredinol (Cymru a Lloegr) a'r boblogaeth briodol o gleientiaid cymorth cyfreithiol neu ddarparwyr, lle bo'n berthnasol. Lle mae gwahaniaethau mawr, yr ydym wedi ystyried effeithiau eang hyn ar gydraddoldeb.
18. Holodd rhai ymatebwyr a ymatebodd i ymgynghoriad Ebrill ynghylch perthnasedd asesu effaith ar ddarparwyr ar sail nodweddion gwarchoddedig rheolwyr y sefydliad yn hytrach na'i staff. Er bod Arolwg Amrywiaeth Cyflenwyr LSRC yn dal proffil demograffig y gweithlu cynghori a gyflogir mewn sefydliadau contract LAA/LSC, rydym o'r farn ei bod yn fwy priodol asesu'r effaith ar ddarparwyr yn ôl eu proffil Perchnogaeth a/neu Reolaeth (OMC), yn hytrach na'u gweithlu, am y rhesymau canlynol:
 - Nodwyd y rhai ag OMC fel rhai sy'n rhoi cyfeiriad strategol i'r sefydliadau, a byddent yn nodweddiadol yn gyfrifol am benderfynu ar y meysydd cyfraith, grwpiau cleientiaid a'r math o wasanaeth a gynigir gan y sefydliad, gan gynnwys y penderfyniad ynghylch p'un ai i ddarparu gwasanaethau a ariennir gan gymorth cyfreithiol neu beidio.
 - Mae'r berthynas rhwng yr LAA/LSC a'i sylfaen cyflenwyr ar lefel sefydliadol. Felly, mae dyrannu gwaith o fewn sefydliadau y tu hwnt i reolaeth yr LAA neu ei ragflaenydd. Mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n aros gydag OMC y sefydliad.
 - Nid yw'n bosibl gwahanu'r gweithlu yn ôl y rhai sy'n ymwneud â chynghori a ariennir gan gymorth cyfreithiol a'r rhai sy'n gwneud gwaith cyfreithiol arall nad yw'n cael ei ariannu'n gyhoeddus.
19. Wrth geisio barn ehangach gofynnwyd hefyd dri chwestiwn sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb yn yr ymgynghoriad, fel a ganlyn:

C7. A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir yr ystod o effeithiau dan y cynigion a nodir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C8. A ydych yn cytuno ein bod wedi dynodi'n gywir raddau'r effeithiau dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C9. A oes ffurfiau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau nad ydym wedi eu hystyried?
20. Er bod rhai ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau hyn yn uniongyrchol, nododd llawer faterion cydraddoldeb eraill, sydd wedi cael eu hystyried yn y Datganiad Cydraddoldeb wedi'i ddiweddarau hwn.

Casgliadau

21. Rydym wedi ystyried ein dyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad anghyfreithlon, ac i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.
22. Cafwyd nifer fawr o ymatebion i ymgynghoriad Ebrill yn ymwneud â'r effeithiau ar gydraddoldeb. Hefyd derbyniwyd nifer llai o sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Medi. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion hynny yn ofalus ac addasu ein cynigion lle bo hynny'n ymarferol, rydym o'r farn bod y diwygiadau hyn, yn enwedig yng nghyd-destun macro-economaidd cyffredinol a chymryd i ystyriaeth yr angen i wneud arbedion o'r fath, yn fodd cymesur ac angenrheidiol o gyflenwi'r nodau cyfreithlon a nodir yn yr adran ymateb i'r ymgynghoriad.
23. Prif amcan y pecyn diwygio yw tynnu i lawr gost cymorth cyfreithiol, gan sicrhau bod pob agwedd ar wariant yn cael ei gyfiawnhau, a'n bod yn cael y fargen orau i'r trethdalwr. Oni bai bod y cynllun cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu ar y bobl a'r achosion lle mae'r mwyaf o angen arian, ni fydd yn ennyn hyder y cyhoedd nac yn gredadwy. Ar ben hynny, mae rhesymau cryf dros geisio diwygio cymorth cyfreithiol beth bynnag. Yn unol â hynny, mae'r diwygiadau yn ceisio hybu hyder y cyhoedd yn y system drwy sicrhau bod adnoddau cyhoeddus prin yn cael eu targedu ar yr achosion hynny sy'n eu cyfiawnhau, a'r bobl hynny sydd eu hangen, gan yrru mwy o effeithlonrwydd yn y farchnad darparwyr ac i'r LAA, a chefnogi ein hymdrechion ehangach i drawsnewid y system gyfiawnder.
24. Mae'r amcanion hyn yn hollbwysig, gan sicrhau y gallwn fyw o fewn ein modd tra'n cynnal cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy a chredadwy. Rydym yn ystyried eu bod yn nodau cyfreithlon y bwriadwn ymdrin â hwy, tra'n rhoi sylw dyledus i egwyddorion statudol cydraddoldeb a dim gwahaniaethu.
25. Bydd y diwygiadau yn berthnasol i bawb, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig, ac felly nid ydym yn ystyried eu bod yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol na gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd. Nid ydym ychwaith yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at yr angen am unrhyw 'addasiadau rhesymol' penodol. Ac nid ydym ychwaith yn credu y bydd y diwygiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar achosion o aflonyddu neu erledigaeth.
26. Gan fwrw ymlaen ar y sail bod y cynigion yn gyfystyr â darpariaethau, meini prawf neu arferion, rydym wedi nodi'r tebygolrwydd o effeithiau anghymesur ar rai pobl â nodweddion gwarchodedig. Yn yr achosion hyn, rydym wedi gwneud y gorau a allwn i ystyried yr effeithiau posibl. Er ein bod yn derbyn bod ein cynigion yn debygol o effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig benodol, nid ydym yn ystyried eu bod o reidrwydd yn gyfystyr ag anfantais arbennig neu sylweddol.
27. Rydym o'r farn bod y cynigion yn eu cyfanrwydd ac yn unigol yn ddull cymesur o gyflenwi nod cyfreithlon am y rhesymau a nodir uchod ac yn y paragraffau isod.
28. Mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, a chyfeiriadedd rhywiol, nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chasglu, naill ai ar gyfer cleientiaid na darparwyr. Ni fu'n bosibl, felly, asesu effeithiau'r cynigion mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig hyn gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol. Hefyd, nid

yw cenedligrwydd neu statws mewnfudo derbynwyr cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.

29. Rydym wedi defnyddio'r data a ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael yr ydym yn eu hystyried fwyaf perthnasol a dibynadwy. Yn absenoldeb data ar nodweddion gwarchoddedig arbennig, rydym wedi asesu'r effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Yn yr achosion hyn, rydym wedi gwneud y gorau a allwn i ystyried yr effeithiau posibl. Bu ein dull yn ofalus gydol yr amser, ac rydym wedi ystyried pa mor gadarn yw'r dystiolaeth wrth ddod i gasgliadau am yr effeithiau y mae'r cynigion yn debygol o'u cael.
30. Rydym o'r farn bod natur y diwygiadau yn golygu eu bod yn annhebygol o roi pobl â'r nodweddion gwarchoddedig hyn o dan anfantais benodol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe byddai anfantais o'r fath yn dod i'r amlwg neu pe bai effaith anghymesur ar grŵp penodol, mae ein casgliad – sef bod y newidiadau yn cael eu cyfiawnhau er mwyn cyflawni ein hamcanion datganedig ac na fyddai'n gymesur nac yn ymarferol diwygio ein polisiau ymhellach i ymdrin â hwy - yn aros yr un fath.
31. Nid ydym yn ystyried bod ein cynigion yn debygol o greu anfantais i gleientiaid. Gallai cleientiaid gael eu heffeithio petai'r newidiadau yn cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol, gan arwain at effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth; fodd bynnag, rydym yn credu bod hyn yn annhebygol, fel y nodir yn yr Asesiadau Effaith atodol, ac sy'n cael sylw yn y penodau blaenorol. Mae'r effeithiau posibl ar gleientiaid yn debygol o ddibynnu ar ymateb y darparwyr i'r newidiadau a byddwn yn parhau i fonitro'r effaith. Efallai y bydd newidiadau sy'n effeithio ar brofiad y defnyddiwr, er enghraifft os yw hunaniaeth y darparwr gwasanaethau yn newid, neu fod cynrychiolwyr yn ffafrio symud cwmnïau neu newid eu strwythurau busnes. Ond nid ydym yn ystyried y byddai hyn yn gyfystyr ag anfantais. Petai unrhyw anfantais neu effaith anghymesur yn digwydd, rydym yn ystyried y gellir ei gyfiawnhau am y rhesymau a nodir.
32. Rydym wedi ystyried goblygiadau'r diwygiadau ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a'r angen i feithrin cysylltiadau da. Er enghraifft, lle dywedwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad y gallai newid penodol effeithio ar gyfranogiad pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n cael eu tangynrychioli mewn bywyd cyhoeddus, yr ydym wedi ystyried i ba raddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn gydnaws â'r angen i annog cyfranogiad o'r fath. Rydym o'r farn bod lle bo hynny'n berthnasol, nad yw'r diwygiadau'n tansilio cyrhaeddiad yr amcanion hynny.
33. At ei gilydd, nid ydym yn ystyried bod newidiadau yn y tâl cymorth cyfreithiol yn berthnasol i'r angen i hybu cyfle cyfartal neu feithrin cysylltiadau da. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad y byddai gostyngiadau mewn lefelau tâl yn arwain at Far llai amrywiol, a fyddai yn ei dro yn arwain at farnwriaeth lai amrywiol. Nid ydym yn ystyried y bydd y diwygiadau yn rhoi menywod nac ymarferwyr BAME o dan anfantais arbennig dros eraill sy'n ymarfer yn y Bar, nac y byddai hyn yn y pen draw yn lleihau amrywiaeth y garfan o ymarferwyr sy'n gwneud cais am swydd farnwrol. Fodd bynnag, os oes anfantais arbennig i garfan penodol o ymarferwyr sydd â nodweddion perthnasol, rydym yn credu fod ein diwygiadau yn ddull cymesur o gyflenwi'r nod polisi dilys a nodir uchod.
34. Prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth weinyddu'r system cymorth cyfreithiol yw darparu cymorth cyfreithiol deg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd fwyaf anghenus. Er ein bod wedi cymryd i ystyriaeth y pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr

ynglŷn ag effaith bosibl y diwygiadau hyn ar ddarparwyr a'r Bar iau, cyfrifoldeb y CPC ac SRA yn bennaf yw'r lefelau penodol o gynrychiolaeth o fewn ardaloedd ymarfer yn y Bar a'r proffesiwn cyfreithwyr.

35. Er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r angen i annog y rhai sydd â nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hybu cyfle cyfartal yn gyffredinol, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu mai tâl cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i'w ddefnyddio i gyflenwi amrywiaeth o fewn y proffesiynau neu'r farnwriaeth. Petai'r diwygio'n golygu fod cyrraedd yr amcanion hyn yn anos, rydym yn parhau o'r farn bod y newidiadau'n angenrheidiol ac yn cael eu cyfiawnhau yn yr holl amgylchiadau (gan gynnwys y cyd-destun ariannol), am y rhesymau a nodir uchod.
36. Rydym drwyddo draw wedi ystyried sut y gallai effeithiau andwyol posibl gael eu lliniaru ac mae'r cynigion diwygiedig ar gaffael ymgyfreitha troseddol a ffioedd adfocatiaeth a gyhoeddwyd yn Y Camau Nesaf wedi'u cynllunio i ymdrin â'r materion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol gwreiddiol. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r Camau Nesaf yn ogystal â newidiadau i'r polisi terfynol fel y'i cyflwynir yn Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol – Y Camau Nesaf: Ymateb y Llywodraeth, wrth ddod i gasgliadau terfynol ynghylch effaith ein cynigion.

Mathau o Effaith

37. Ar gyfer y ddwy set o gynigion, yr ydym yn cydnabod ei bod yn debygol y bydd effeithiau andwyol ar rai o'r bobl yr effeithir arnynt. Gall y rhain gynnwys enillion is i unigolion a busnesau ac, mewn rhai achosion, gallai olygu nad yw parhau i weithredu o fewn y farchnad, heb ei haddasu, yn ddichonadwy.
38. Rydym wedi ceisio lliniaru'r risgiau hyn cyn belled ag y bo modd, e.e. trwy ailgyflwyno dewis cleient i'r model caffael ymgyfreitha troseddol, gan ganiatáu nifer digyfngiad o gontractau dewis y cleient a chyflwyno taliadau interim yn ystod y cam PCMH (ar gyfer PCMH effeithiol) ac ar gyfer treialon 10 diwrnod neu fwy. Fel rhan o'n diwygio ffioedd adfocatiaeth, rydym wedi cyflwyno taliadau interim ar gyfer treialon o 10 diwrnod neu fwy, ac wedi adfer y ffioedd graddedig ar gyfer treialon chwâl mewn achosion etholedig naill ffordd neu'r llall lle nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif (ar gyfer adfocadau ac ymgyfreithwyr).

Caffael Ymgyfreitha Troseddol

Prif Faterion ac Ymateb

Y prif faterion a godwyd – Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol

39. Ymhlith yr ymatebion hynny a oedd yn ymdrin ag effeithiau cydraddoldeb, roedd cefnogaeth sylweddol i'r farn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad Ebrill cynharach y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar BAME a darparwyr benywaidd, a'r bar iau, ac y byddai'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol ar gyfer grwpiau bregus o bobl â nodweddion gwarchoddedig. Roedd ffocws pryder o'r fath yn canolbwyntio ar effeithiau tybiedig gostyngiad ffioedd a chrebachu yn y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol.
40. Dadleuodd nifer o ymatebwyr y gallai'r gostyngiad yn nifer y darparwyr sydd naill ai'n cael eu harwain gan, neu'n gwasanaethu yn bennaf, unigolion â nodweddion gwarchoddedig, osod mewn perygl y posibilrwydd o amddiffyniad effeithiol fel sy'n ofynnol gan erthygl 6 ECHR ar gyfer y cleientiaid dan sylw. Byddai hyn yn awgrymu eu

bod yn cael yr effaith fwyaf ar bobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl fyddar, menywod a grwpiau BAME, gan mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau arbenigol.

41. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch y nifer o gyfreithwyr a fyddai'n fodlon neu'n gallu darparu gwasanaethau yn ôl y cyfraddau arfaethedig. Haerodd nifer o ymatebwyr y byddai'r cynigion yn peryglu goroesiad cwmnïau arbenigol llai yn enwedig (sydd, fe ddadleuwyd, yn aml yn darparu gwasanaethau i grwpiau bregus ac ymylol) gan eu bod yn dibynnu mwy ar gymorth cyfreithiol na gwaith a ariennir yn breifat. Honnodd ymatebwyr nad oes gan y cwmnïau hyn yr adnoddau i ffurfio consortia i gynnis am gontractau fel sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau mewn marchnad sylweddol lai. Roedd hyn yn peri pryder nid yn unig o ran cleientiaid, darparwyr a chymunedau BAME, ond hefyd i gleientiaid byddar o allu cael cyfreithiwr fyddar, ac i'r rhai sydd ag anghenion iaith arbennig, h.y. y gallu i gyfathrebu mewn iaith arwyddion a deall materion diwylliannol sy'n effeithio ar achos.
42. Hefyd roedd pryderon am yr effaith ar amrywiaeth y proffesiynau cyfreithiol, a all yn ei dro effeithio ar amrywiaeth y farnwriaeth i'r dyfodol, yn gyson â'r ymatebion i ymgynghoriad Ebrill. Awgrymwyd y gallai'r canlyniad hwn o bosibl fethu â hyrwyddo cyfle cyfartal.
43. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod BAME a chyfreithwyr benywaidd yn ymarfer mewn cwmnïau bach ar raddfa anghymesur, felly bydd unrhyw gynigion sy'n cael effaith andwyol ar gwmnïau bach yn cael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn. Maent yn nodi bod presenoldeb gweladwy a gweithredol BAME a chyfreithwyr a bargyfreithwyr benywaidd yn y CJS yn hanfodol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd ac i sicrhau bod cleientiaid yn gallu cael gafael ar wasanaethau a ddarperir gan y grwpiau hyn.
44. Nododd nifer sylweddol o ymatebion fater cynyddu pellteroedd teithio o ganlyniad i ardaloedd caffael mwy. Er bod rhai yn gweld hyn yn bennaf fel cost sydd i'w wynebu gan ddarparwyr, awgrymodd eraill y byddai'n rhaid i gleientiaid deithio ymhellach, ar gost ychwanegol, i swyddfeydd cyfreithwyr. Byddai hyn, roeddent yn dadlau, yn achosi problemau i bobl hŷn a phobl anabl, y rhai ar incwm isel a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.
45. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai cyngor dros y ffôn fod yn ateb i rai ond na fyddai hynny'n addas ar gyfer cleientiaid sydd ag anableddau dysgu, iaith neu faterion iechyd meddwl, nac i lawer o gleientiaid BAME sydd heb sgiliau iaith Saesneg.
46. Ailadroddodd nifer o ymatebion gan fargyfreithwyr a siambrau bryderon y byddai'r nifer llai o gwmnïau cyfreithwyr sy'n parhau yn y farchnad yn debygol o gadw mwy o waith adfocatiaeth yn fewnol. Byddai hyn, roeddent yn dadlau, yn cael effaith anghymesur ar y Bar iau, yn enwedig bargyfreithwyr benywaidd a bargyfreithwyr BAME ifanc.

Y prif faterion a godwyd – Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf

47. Cyflwynwyd ymatebion i'r ddau ymgynghoriad yn nodi'r safbwyntiau a grynhwir uchod. Fodd bynnag, cafodd rhai pwyntiau ychwanegol eu gwneud mewn perthynas â'r Camau Nesaf na chawsant eu gwneud mewn perthynas â'r ymgynghoriad gwreiddiol.
48. Roedd ymgynghoriad Ebrill yn cynnig 400 o gontractau ar gyfer darparwyr ymgyfreitha troseddol. Er na wnaethom nodi'r nifer arfaethedig o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd yn y Camau Nesaf, eglurwyd, yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan Otterburn Legal Consulting yn dilyn ei arolwg a gynhaliwyd yn ystod haf 2013, a'r

gwariant amcangyfrifedig ar ôl y gostyngiad ffioedd arfaethedig, fod hyn yn awgrymu y byddai uchafswm o 570 o gontractau. Er nad y nifer hwn oedd y nifer arfaethedig o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, cafodd ei feirniadu ar yr un sail – sef ei fod yn ostyngiad rhy fawr o'r 1,600 o gontractau presennol ac y byddai'n cael effaith arbennig ar gwmnïau sy'n eiddo i ac a reolir gan BAME, gan fod y rhain yn cael eu gorgynrychioli yn y grŵp yr effeithir arno.

49. Gwnaethpwyd awgrym bod adfocadau BAME yn dibynnu ar atgyfeiriadau gan gyfreithwyr BAME, ac felly gallai unrhyw effaith ar y nifer o gwmnïau dan arweiniad/rheolaeth BAME gael effaith ar y gwaith sydd ar gael i adfocadau BAME.
50. Honnwyd efallai y gallai cleientiaid BAME fod ag anghenion diwylliannol ac ieithyddol na ellir eu gwasanaethu'n dda gan sefydliadau contractio mawr, a bod gostyngiad yn y nifer o gwmnïau a reolir gan BAME yn gadael cymunedau BAME yn teimlo fel eu bod wedi cael eu difreinio. Awgrymwyd hefyd bod yr heddlu mewn rhai achosion yn dibynnu ar gyfreithwyr ac adfocadau BAME i weithredu fel canolwyr gyda chymunedau BAME, ac y gallai gostyngiad yn nifer y rhain gael effaith ar gydlyniant cymunedol.

Ymateb y Llywodraeth

51. Er mwyn ymdrin â phryderon a fynegwyd mewn perthynas ag ymgynghoriad Ebrill ynglŷn â chynaliadwyedd y farchnad, comisiynwyd gwaith ymchwil ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith i gael gwybodaeth fanylach i helpu llywio ein dadansoddiad o gynaliadwyedd a'r penderfyniad terfynol ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd. Roedd yr ymchwil annibynnol yn rhoi sail dystiolaeth bwysig ar gyfer penderfynu ar ystod briodol o gontractau gwaith Darparwr Dyletswydd i'w cynnig ym mhob ardal gaffael. Daethom i'r casgliad, yn seiliedig ar ein dadansoddiad mewnol a'r ymchwil annibynnol, y byddai 525 o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd yn caniatáu ar gyfer marchnad gynaliadwy ac ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyfraddau tâl is a nodir yn y ddogfen Y Camau Nesaf.
52. Rydym hefyd wedi archwilio opsiynau ar gyfer amrywio maint yr ardaloedd caffael lle nododd ymatebwyr y byddent o bosibl yn heriol ar gyfer darparu gwasanaethau. Wrth wneud hynny, yn seiliedig ar ein dadansoddiad fel y'i nodir yn yr adran Ymateb i'r Ymgynghoriad, ni fyddai'n rhaid i ddarparwr deithio mwy na 1.5 awr rhwng dau le darparu gwasanaethau (gorsafoedd heddlu, llysoedd).
53. Nid ydym yn derbyn bod model gwreiddiol Ebrill, y model addasedig a nodwyd yn y Camau Nesaf ym mis Medi, na'r un a gyhoeddwyd yn derfynol yn y ddogfen hon o reidrwydd yn golygu y byddai darparwyr yn cadw gwaith adfocatiaeth ac yn dewis peidio â chyfarwyddo bargyfreithiwr hunangyflogedig. Nid ydym yn derbyn ychwaith felly y byddai'r naill fodel na'r llall yn cael effaith anghymesur ar fenywod, bargyfreithwyr ifanc na BAME. Er bod bargyfreithwyr benywaidd wedi'u gorgynrychioli yn y bar iau o'i gymharu â'r Bar yn gyffredinol, nid ydynt yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r cyhoedd yn gyffredinol. Dadleuodd rhai ymatebwyr bod cyfarwyddo bargyfreithiwr hunangyflogedig yn aml yn fwy hyfyr yn economaidd. Rydym yn credu y byddai darparwyr yn parhau i roi cyfarwyddyd i'r Bar hunangyflogedig lle mae'n briodol gwneud hynny. I'r graddau y byddai'r Bar yn cael ei effeithio'n andwyol, fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai'r effaith fod fwyaf ar y bar iau ac felly y byddai effaith anghymesur bosibl ar fargyfreithwyr ifanc a menywod. Fodd bynnag, petai effaith o'r fath yn dod i fod, rydym o'r farn y gellid cyfiawnhau'r fath effaith am y rhesymau a nodir yn yr Adran Ymateb i'r Ymgynghoriad.

54. Wrth ddatblygu'r model addasedig a nodwyd yn Y Camau Nesaf, roeddem yn archwilio newidiadau i'r cynllun ffioedd sefydlog er mwyn lleihau'r gostyngiad yn nifer y contractau. Roeddem hefyd yn bwriadu cynnig nifer digyfngiad o gontractau Gwaith Dewis y Cleient i'r darparwyr hynny sy'n gallu darparu'r gwasanaethau hynny. Rydym yn amlinellu ein barn y byddai hyn yn lliniaru'r effaith ar sefydliadau llai sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol tra'r un pryd yn caniatáu i'r rhai sy'n dymuno atgyfnerthu ac ehangu fedru gwneud hynny.
55. Nid ydym yn derbyn y pwyntiau cydraddoldeb ychwanegol a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Y Camau Nesaf. Nid ydym yn derbyn bod cwmnïau cyfreithwyr yn dyrannu gwaith i adfocadau ar sail ethnigrwydd. Nid oes tystiolaeth wedi ei darparu i gefnogi'r honiad bod cyfreithwyr yn gweithredu yn y ffordd hon; wrth ddatblygu polisi ni allwn ond tybio y bydd cyfreithwyr yn gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol a phroffesiynol ac felly'n contractio ba bynnag adfocad sydd er budd pennaf y cleientiaid. Yn yr un modd, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei chynnig i gefnogi'r rhagdybiaeth fod sefydliadau o faint penodol yn llai abl i ymateb yn gadarnhaol i anghenion diwylliannol neu ieithyddol penodol. Yn olaf, nid ydym yn credu bod yr Heddlu yn dibynnu ar gyfreithwyr a bargyfreithwyr i ymgysylltu â chymunedau o ethnigrwydd penodol, o ystyried eu buddsoddiad sylweddol i adeiladu perthynas gref gyda chymunedau lleiafrifol, e.e. trwy raglen Cymdogaethau Mwy Diogel.

Dadansoddiad o'r Model Terfynol

56. O dan y model addasedig a nodir yn y ddogfen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol - Y Camau Nesaf: Ymateb y Llywodraeth, byddai darparwyr yn cael y cyfle i wneud cais am un o nifer digyfngiad o gontractau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i'w cleientiaid eu hunain yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr. Ar gyfer y rhai sy'n ceisio hefyd darparu gwasanaethau i gleientiaid nad oes ganddynt eu cyfreithiwr eu hunain, rydym yn cynnig cynnal proses dendro gystadleuol ar gyfer nifer cyfyngedig o gontractau i gael mynediad i'r gwaith hwn. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn credu bod hyn yn cadw'r cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu - a thrwy hynny sicrhau darpariaeth gynaliadwy o'r gwasanaeth darparu dyletswydd sy'n hanfodol i gyflenwi cymorth cyfreithiol troseddol effeithiol - heb gyfyngu ar fynediad i'r farchnad yn ddiangen. Ar gyfartaledd yn genedlaethol, mae 60% o gleientiaid presennol sy'n chwilio am wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn dewis eu cyfreithiwr eu hunain, a 40% yn dewis y cyfreithiwr sydd ar ddyletswydd.
57. O dan y model addasedig, bydd y cyfraddau tâl ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu gosod yn weinyddol. O dan ddull o'r fath, byddai contractau'n cael eu dyfarnu yn seiliedig ar werthusiad ymgeisydd yn erbyn gofynion y broses dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) o allu a chapasiti'r ymgeisydd yn unig.

Effaith ar unigolion

58. Er y gellir cael effaith anuniongyrchol ar unigolion os yw'r newidiadau yn cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth, ni chredwn fod hynny'n debygol. Mae'r model terfynol wedi ei ddylunio i sicrhau marchnad o faint a strwythur briodol y credwn fydd yn sicrhau gwasanaeth a marchnad gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r nifer o gontractau wedi cael ei benderfynu ar sail y pedwar ffactor a nodir yn y Camau Nesaf (cyflenwad digonol i ddelio â gwrthdaro buddiannau, digon o swm i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio, ystwythder y farchnad a chaffael cynaliadwy) yn ogystal â chanlyniadau'r

ymchwil annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith. Efallai y bydd y nifer o ddarparwyr y gall y cleient ddewis eu cyfarwyddo yn llai nag ar hyn o bryd; fodd bynnag, ni fyddai'r model yn cyfyngu ar nifer y contractau a gynigir ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient. Fodd bynnag, gall rhai darparwyr ddewis peidio â gwneud cais am contract o'r fath. Ar y cyfan, rydym o'r farn y bydd digon o ddarparwyr ar ôl i alluogi unigolion ddewis darparwr sy'n bodloni eu hanghenion orau, gan gynnwys y rhai sydd angen gwasanaethau arbenigol.

59. Dylai'r newidiadau i'r nifer o contractau sydd ar gael, gan gynnwys y bwriad i gynnig nifer digyfngiad o contractau Gwaith Dewis y Cleient, hwyluso cyfranogiad gan sefydliadau llai, gan liniaru ymhellach unrhyw effaith ar unigolion. Ar ben hynny, bydd y rheolaethau ansawdd yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn ennill contract a'r mesurau safon a fydd yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal trwy gydol oes y contract yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar ansawdd ar y cyngor a geir gan unigolion. Fel yn awr, bydd gan ddarparwyr rwymedigaethau cytundebol i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.
60. Mewn rhai ardaloedd, yn dibynnu ar leoliad y gwahanol orsafoedd heddlu a llysoedd, efallai y bydd rhaid i unigolion deithio i weld eu darparwr ar yr achlysuron hynny lle nad yw'r darparwr wedi dod atynt, byddai'r cynigion diwygiedig ar gyfer ardaloedd caffael a'r tebygolrwydd o gadw nifer sylweddol o ddarparwyr sy'n cyflenwi Gwaith Dewis y Cleient yn ein barn ni liniaru'r pryderon teithio i Unigolion, fel na ddylai fod unrhyw effaith anghymesur ar bobl hŷn neu anabl.
61. Mae'r data ar nodweddion gwarchoddedig y cleientiaid sy'n derbyn cymorth cyfreithiol troseddol yn dangos bod dynion yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.²⁸ Er nad oes disgwyl i'r cynigion gael effaith ar gleientiaid, byddai unrhyw risg i gynaliadwyedd (pe bai'n cael ei wireddu) felly yn cael effaith anghymesur ar allu dynion i gael mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol. Rydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar ddarparwyr

62. Fel gyda'r model blaenorol, bydd yr holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol yn cael eu heffeithio gan y newidiadau mewn Caffael Ymglyfreitha Troseddol. Nid yw'r cynigion yn gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn grŵp sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, gan y bydd y cynnig yn berthnasol i bob darparwr troseddol, waeth beth fo'r nodweddion gwarchoddedig.
63. Fodd bynnag, os yw grŵp sy'n rhannu nodwedd warchoddedig yn cael eu gorgynrychioli ymysg darparwyr troseddol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, yna mae posibilrwydd i'r cynnig gael effaith anghymesur ar y grŵp. Mae Tabl G1, felly, yn rhoi nodweddion gwarchoddedig darparwyr troseddol er mwyn caniatáu cymhariaeth â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn seiliedig ar y nifer o ddarparwyr sy'n dal contract troseddol yn dilyn y cylch ceisiadau diwethaf a gynhaliwyd yn 2011/12.
64. Mae gwybodaeth hil, rhyw a salwch/anabledd darparwyr a ddangosir yn nhabl G1 yn seiliedig ar berchnogaeth fwyafrifol neu reolaeth fwyafrifol (OMC) o'r cwmni. Mae'r tabl yn dangos bod darparwyr gyda mwyafrif rheolaeth BAME a gwrywaidd yn cael eu

²⁸ Ystadegau Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr 2012-13.

gorgynrychioli ymysg darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Er y byddai holl ddarparwyr yn cael eu trin yn gyfartal, mae'r cynigion felly'n cael effaith anghymesur ar ddarparwyr gyda rheolaeth BAME neu wrywaidd. Rydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Tabl G1: Deiliaid contract Cyfraith Droseddol Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ôl demograffeg y mwyafrif o reolwyr; deiliaid contract troseddau 11/12

Demograffeg o reolaeth perchnogaeth/rheolwyr (OMC)		Darparwyr CDS (n=1,808)*	Y Boblogaeth yn Gyffredinol
OMC Mwyafrif Ethnig	Gwyn Prydeinig	74%	86%
	BAME	20%	14%
	Wedi rhannu	6%	
OMC Mwyafrif Rhywedd	Dynion	71%	49%
	Menywod	12%	51%
	Wedi rhannu	17%	
OMC unrhyw sâl/anabl	Na	95%	82%
	Ie	5%	18%

* Cafodd data ar nodweddion gwarchoddedig ei baru â 69% o ddeiliaid contract cyfraith droseddol.

65. Tra'r effeithir ar yr holl ddarparwyr, bydd darparwyr mewn rhai rhanbarthau yn profi mwy o golledion nag eraill oherwydd yr amrywiad yn y ffioedd Gorsaf Heddlu a Llys Ynadon presennol yn ôl rhanbarth o'u cymharu â'r symiau a delir o dan y cynllun newydd. Er mwyn edrych ar p'un a allai grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig gael eu heffeithio'n anghymesur, mae Tabl G2 yn rhannu darparwyr troseddol mewn cwintelau yn ôl eu colled ddisgwyliedig fel cyfran o gyfanswm derbyniadau'r gronfa droseddol, ac wedyn mae'n edrych ar p'un a yw grŵp sy'n rhannu nodwedd benodol yn cael eu gorgynrychioli yn un cwintel o'u cymharu â'r lleill.

66. Dengys Tabl G2 bod y darparwyr sy'n wynebu'r colledion uchaf, y rhai yn y ddau gwintel uchaf, yn fwy tebygol o fod â rheolaeth BAME o'u cymharu â darparwyr sy'n cael colledion llai. Mae gan 26% o gwmnïau yn y cwintel uchaf (pumed ran o gwmnïau a fydd yn profi colledion uchaf cyfrannol) a 30% o gwmnïau yn y 4ydd cwintel reolaeth BAME o'u cymharu â rhwng 6-22% ar gyfer y cwintelau eraill. Rydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Tabl G2: Deiliaid contract Cyfraith Droseddol Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ôl demograffeg y mwyafrif o reolwyr; wedi'u rhannu yn ôl colled gyfrannol ddisgwyliedig (Hydref 2012 - Medi 2013)

Demograffeg o reolaeth perchnogaeth/rheolwyr (OMC)	Darparwyr				
	Cwintel isaf	Ail gwintel	Trydydd Cwintel	Pedwerydd Cwintel	Cwintel uchaf

OMC Mwyafrif Ethnig	Gwyn Prydeinig	93%	75%	71%	62%	69%
	BME	6%	18%	22%	30%	26%
	Wedi rhannu	2%	7%	7%	9%	6%
OMC Mwyafrif Rhywedd	Dynion	77%	70%	72%	71%	66%
	Menywod	9%	11%	15%	13%	15%
	Wedi rhannu	13%	19%	13%	16%	20%
OMC unrhyw sâl/anabl	Na	95%	94%	96%	97%	94%
	Ie	5%	6%	4%	3%	6%

Cyfiawnhad

67. Yng ngoleuni'r newidiadau a wnaed i gyrraedd y model terfynol rydym yn credu bod y model terfynol yn ddull cymesur o gyflenwi nodau cyfreithlon a nodir yn yr adran Ymateb i'r Ymgynghoriad. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau cynaliadwyedd hirdymor cymorth cyfreithiol troseddol yw drwy broses gaffael sy'n cynnwys elfen o gystadleuaeth. Wedi dweud hynny, rydym hefyd yn cydnabod bod rhai darparwyr efallai am barhau i ddarparu yr un faint o wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ag y gwnânt yn awr, ac nad oes ganddynt awydd i ehangu eu busnes. Felly, mae'r model terfynol yn darparu hyblygrwydd i ddarparwyr mawr a bach drwy eu galluogi i wneud cais i gyflenwi gwaith Dewis y Cleient yn unig a gwneud cais i gyflenwi gwaith Darparwr Dyletswydd. Yn y pen draw, byddai'r model yn cyflenwi mwy o effeithlonrwydd a sylfaen darparwyr gynaliadwy.
68. O ran yr effaith ar gleientiaid a darparwyr o safbwynt amser teithio rhwng gorsafedd heddlu a llysoedd, rydym yn credu bod yr ardaloedd caffael newydd yn lleddfu'r pryderon hyn. Byddai'r amser teithio rhwng dau bwynt cyflenwi gwasanaeth sydd bellaf oddi wrth ei gilydd yn ddaearyddol mewn unrhyw ardal gaffael yn cael ei gyfyngu i 1.5 awr. Mae hefyd yn bwysig tynnu sylw at y ffaith, gyda chymorth cyfreithiol troseddol o'i gymharu â chymorth cyfreithiol sifil, mae'r rhan fwyaf o gysylltiad rhwng y cleient a'r darparwr yn digwydd yn lleoliad y cleient (boed hynny yng ngorsaf yr heddlu, llys neu'r carchar). Yn ogystal, o dan y model terfynol, byddwn yn cadw tâl ar wahân am dreuliau teithio a chynhaliadwy.
69. Ar ben hynny, petai cleientiaid yn dioddef unrhyw effaith andwyol, efallai y byddai'n cael ei liniaru gan y ffaith bod contract troseddau'r dyfodol yn debygol o fod â darpariaethau tebyg o ran rhwymedigaethau i gael polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig, sydd ar y lleiaf yn gorfod cynnwys sut y byddai'r darparwr yn bodloni anghenion amrywiol eu cleientiaid (gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleientiaid ag anabledau).

Ailstrwythuro Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau

Prif Faterion ac Ymateb

Y prif faterion a godwyd – Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol

70. Roedd nifer o ymatebion yn ailadrodd y pryderon a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill, sef y byddai cyfuniad o'n diwygiadau i gaffael ymgyfreitha troseddol, a rhai'r AGFS, yn cael effaith arbennig ar y Bar iau wrth i fwy o adfocadau

hŷn ddewis yr achosion mwyaf proffidiol. Awgrymodd rhai yr ymgynghorwyd â hwy hefyd y byddai cyfreithwyr yn ceisio gwneud gymaint â phosibl o waith adfocatiaeth llysoedd ynadon a Llys y Goron nad yw'n waith treial yn fewnol, gan wasgu'r Bar iau ymhellach. Awgrymwyd y byddai hyn yn gyrru pobl i ffwrdd oddi wrth adfocatiaeth, ac y byddai'n cael effaith andwyol ar gleientiaid, dioddefwyr a thystion os nad oedd digon o adfocadau o ansawdd ar gael.

71. Awgrymwyd y byddai'r effeithiau posibl hyn yn anghymesur ar fargyfreithwyr benywaidd a BAME, sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith y Bar iau, ac y byddai hyn yn cael effaith ddilynol ar amrywiaeth y farnwriaeth i'r dyfodol.

Y prif faterion a godwyd – Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf

72. Mewn nifer o achosion, gwnaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad Camau Nesaf yr un pwyntiau â'r rhai a godwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad cynharach. Fodd bynnag, yn ogystal, awgrymwyd na fyddai lefel y ffioedd sy'n cael eu cynnig yn ddigonol i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn annibynnol yn ariannol ddilyn gyrfu yn y Bar troseddol. O'r herwydd, awgrymwyd y gallai'r cynigion niweidio cyfle cyfartal.

Ymateb y Llywodraeth

73. Awgrymodd rhai efallai mai ymateb adfocadau sy'n ennill ffioedd uwch i'n cynigion fyddai ceisio ymgymryd ag achosion byrrach, symlach sy'n cael eu hystyried yn fwy gwerth chweil yn ariannol, a allai gael rhywfaint o effaith ar yr adfocadau sy'n ennill ffioedd llai yn gyffredinol, ac sy'n gwneud gwaith o'r fath ar hyn o bryd. Petai adfocadau sy'n ennill ffioedd uwch yn ymateb yn y ffordd hon, yna efallai y gallai'r rhai sy'n ennill ffioedd is ac sy'n bodloni'r safonau ansawdd gofynnol gynyddu eu mynediad i waith a wneir ar hyn o bryd gan yr enillwyr ffioedd uwch. Ond mae'r ymateb ymddygiadol i'r cynigion yn ansicr.
74. Nid ydym yn derbyn y byddai effaith gyfunol y cynigion ar gyfer ffioedd adfocatiaeth droseddol a chystadleuaeth yn golygu ei bod yn anochel y byddai cyfreithwyr yn ceisio ymgymryd â mwy o adfocatiaeth yn Llys y Goron, yn enwedig pleon euog, nag y byddent yn ymgymryd â hi fel arall. Mae'r data yn adroddiad Otterburn (a gyflwynwyd gan Gymdeithas y Gyfraith) yn awgrymu mai dim ond tua 10% o incwm cyfredol ar gyfer cyfreithwyr sy'n dod o adfocatiaeth yn Llys y Goron. Felly, mae'r graddau y byddai cwmnïau'n ymgymryd â swm sylweddol o waith adfocatiaeth a wneir ar hyn o bryd gan fargyfreithwyr hunangyflogedig yn ansicr, er bod y cyfran o waith Llys y Goron a gynhelir gan HCAs wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae maint y sampl yn fach, felly mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant o'r adroddiad. Ar gyfer rhai cyfreithwyr, gallai fod yn fwy deniadol yn ariannol i alw ar wasanaethau adfocadau hunangyflogedig yn ôl yr angen, yn hytrach na chyflogi mwy o adfocadau, o ystyried y costau dan sylw a'r angen i wneud defnydd llawn o gyflogai er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl. Nid ydym yn ystyried ei bod yn debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau, a thrwy hynny, effeithio ar gleientiaid. Rydym o'r farn y byddai digon o adfocadau o ansawdd yn parhau i fod ar gael i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol.
75. Nid ydym ychwaith yn derbyn y byddai'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar fenywod, BAME neu fargyfreithwyr ifanc, neu nad yw'r lefelau tâl yn ddigonol i ganiatáu i'r rhai nad ydynt yn annibynnol yn ariannol fynd i mewn i'r proffesiwn. Ar ben hynny, prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth weinyddu'r system cymorth cyfreithiol yw darparu cymorth cyfreithiol teg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd fwyaf o'i angen. Cyfrifoldeb y CPC a'r SRA a'r proffesiwn cyfreithwyr yn bennaf yw'r

lefelau penodol o gynrychiolaeth i unigolion â nodweddion gwarchoddedig penodol mewn meysydd ymarfer yn y Bar.

76. Er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r angen i annog y bobl hynny sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da yn gyffredinol, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu mai tâl cymorth cyfreithiol yw'r polisi mwyaf priodol na'r offeryn mwyaf effeithiol i'w ddefnyddio i gyflenwi amrywiaeth yn y proffesiynau neu'r farnwriaeth.

Dadansoddiad o'r Model Terfynol

Effaith ar Fargyfreithwyr

77. Dengys y data arolwg bod dynion, y rhai o ethnigrwydd Gwyn, a'r rhai sydd heb anabledd yn cael eu gorgynrychioli ymysg yr holl Bargyfreithwyr o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o fenywod ymhlith y Bar iau o'u cymharu â'r Bar hŷn, er bod dynion yn dal i gael eu gorgynrychioli ar bob lefel o hynafedd. Er enghraifft, mae 46% o newydd-ddyfodiaid i'r Bar yn fenywod, ond mae'r gyfran hon yn disgyn wrth i hynafedd gynyddu, fel mai dim ond 22% o Fargyfreithwyr hŷn sy'n fenywod (galwad 22+ blwyddyn).²⁹
78. Mae Bargyfreithwyr iau hefyd yn fwy tebygol o fod o ethnigrwydd BAME o'u cymharu â Bargyfreithwyr hŷn. Er enghraifft, mae 12% o Fargyfreithwyr dan 40 oed o darddiad BAME o'u cymharu â 6% o'r rhai 60+ oed. Gan dybio bod oedran yn arwydd rhesymol o hynafedd, mae hyn yn awgrymu bod Bargyfreithwyr iau yn fwy tebygol o fod o darddiad BAME o'u cymharu â'r Bar hŷn.³⁰ Fodd bynnag, mae rhai o ethnigrwydd gwyn yn dal i gael eu gorgynrychioli ar bob lefel o hynafedd o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.
79. Mae'r Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos mai'r Bargyfreithwyr sy'n derbyn y tâl uchaf, sef y rhai sy'n derbyn dros £100,000 y flwyddyn mewn ffioedd, sydd disgwyl iddynt wynebu'r colledion mwyaf o'r cynnig terfynol ar gyfer diwygio'r AGFS. Mae hyn oherwydd y gostyngiad ffioedd mewn achosion mwy cymhleth, sy'n deillio o'r gostyngiad mewn Ffioedd Presenoldeb Dyddiol. Gan fod achosion hirach a mwy cymhleth yn fwy tebygol o gael eu gwneud gan fargyfreithwyr profiadol, mae'r Bargyfreithwyr mwy profiadol hyn yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynigion.
80. Gan fod y rhai ag ethnigrwydd gwyn ar alwad 15 mlynedd yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol, efallai yr effeithir arnynt yn anghymesur gan y cynnig. Mae dynion gyda dros 13 mlynedd o alwad hefyd yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol. Felly gall bargyfreithwyr gwrywaidd a rhai o ethnigrwydd gwyn gael eu heffeithio'n anghymesur. Yn ogystal, fel y byddem yn disgwyl gweld cydberthynas gadarnhaol rhwng oed a phrofiad, gall bargyfreithwyr o oedran hŷn hefyd gael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threalon hirach, mwy cymhleth, ac felly efallai y byddant yn dioddef effaith anghymesur yn sgil y newidiadau AGFS.

²⁹ "Barrister's Working Lives: A Biennial Survey of the Bar 2011".

³⁰ *ibid.*

81. Gan y bydd yr holl Fargyfreithwyr yn cael eu heffeithio gan y cynigion, mae hefyd yn berthnasol ystyried cyfansoddiad y Bar o'i cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Gan fod Dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymysg yr holl Fargyfreithwyr sy'n ymarfer o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, mae hyn yn dangos bod y grwpiau hyn yn debygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynigion. Rydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu cyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar Gyfreithwyr-Adfocadau

82. Mae Cyfreithwyr-Adfocadau yn fwy tebygol o weithio ar achosion llai cymhleth ac felly maent yn llai tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion o'u cymharu â Bargyfreithwyr sy'n ennill ffioedd uchel. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar nodweddion gwarchoddedig Cyfreithwyr-Adfocadau ac felly nid yw'n bosibl asesu effeithiau ar gydraddoldeb y cynnig ar Gyfreithwyr-Adfocadau trwy ddefnyddio dadansoddiad ystadegol.

83. Gan dybio bod Cyfreithwyr-Adfocadau â nodweddion tebyg i Fargyfreithwyr, yna gallai Cyfreithwyr-Adfocadau gwrywaidd o ethnigrwydd gwyn nad ydynt yn anabl gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig hwn. Mae hyn oherwydd, fel gyda Bargyfreithwyr, y tybir bod y grwpiau hyn yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol.

84. Fodd bynnag, mae diffyg data yn golygu nad yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn ynghylch yr effaith ar Gyfreithwyr-Adfocadau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig. Rydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu cyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

85. Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid am y rhesymau a nodir uchod. Er na wnaethom allu dynodi nodweddion gwarchoddedig cleientiaid a fyddai'n cael eu heffeithio pe byddai'r risgiau i gyflenwad cynaliadwy yn cael eu gwireddu, rydym wedi asesu'r effaith (petai unrhyw anfantais yn deillio) ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Gan fod dynion yn cael eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, gall y cynnig gael effaith anghymesur arnynt. Mae'n anodd llunio casgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfantais benodol i bobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad ydym yn cadw data perthnasol arnynt, ac felly ni allwn ddiystyru effaith anghymesur bosibl arnynt o'u cymharu â'r boblogaeth gyfan. Rydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu cyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

86. Rydym yn cydnabod bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymhlith bargyfreithwyr sy'n ymgymryd â gwaith troseddol, ac y gall dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn gael eu gorgynrychioli'n ogystal ymhlith adfocadau hyn sy'n ymgymryd â threialon hirach, mwy cymhleth (sy'n dod o fewn yr ystodau ffioedd safonol ac uwch), ac felly'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynigion. Rydym wedi ceisio lliniaru'r effaith hon cyn belled ag y bo'n ymarferol tra'n cyflawni'r amcanion polisi, e.e. trwy gyflwyno taliadau interim i dreialon o 10 diwrnod neu hwy, ac adfer y ffioedd graddedig ar gyfer treialon chwâl mewn achosion etholedig naill ffordd neu'r llall lle nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth ar bob cyfrif.

87. Os yw'r cynnig hwn yn arwain at anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, credwn fod y cynnig yn ddull cymesur o gyflenwi'r nodau cyfreithlon a nodir uchod. Byddai'r cynnig terfynol yn symleiddio'r strwythur ffioedd ymhellach, gan ei gwneud yn haws i'w weinyddu i'r LAA ac adfocadau, tra'n cadw effeithlonrwydd y dull presennol (e.e. gan gynnwys amryw o wrandawiadau yn y ffi).

Effaith Gronnus ein Cynigion

Darparwyr

88. Rydym wedi ystyried effaith gronnus y diwygiadau sydd i'w gweithredu o edrych arnynt ar y cyd â phenderfyniadau a gymerwyd eisoes dan LAT (gweler Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf). Rydym o'r farn bod darparwyr sy'n gwneud gwaith VHCC yn debygol o weld colled uwch mewn refeniw o'r gronfa cymorth cyfreithiol, o'u cymharu â darparwyr troseddol nad ydynt yn gwneud y gwaith hwn. Mae hyn oherwydd y bydd cwmnïau sy'n gwneud gwaith VHCC yn gweld gostyngiad ffioedd o 30% yn y maes hwn o waith, yn ogystal â'r gostyngiad ffioedd o 17.5% a fwriedir mewn trosedd.
89. Gall cwmnïau sy'n cynnal gwaith sifil a throsedd hefyd gael eu heffeithio gan gyfuniad o'r cynigion trosedd a phenderfyniadau a gymerwyd eisoes dan LAT. Fodd bynnag, gan fod y gostyngiadau ffioedd sifil yn is na'r gostyngiadau ffioedd arfaethedig mewn trosedd, gallai'r cwmnïau hyn mewn gwirionedd brofi gostyngiad cyfrannol lai mewn incwm o'u cymharu â'r rhai sydd ond yn gwneud gwaith trosedd. Er enghraifft, bydd darparwyr sy'n gwneud ymglyfreitha teulu yn gweld toriad ffi o 10% ar y gwaith hwn ond mae hyn yn is na'r toriad o 17.5% mewn gwaith trosedd, ac felly bydd y darparwyr sy'n gwneud gwaith teulu a throsedd yn gweld colled gymesur is mewn incwm o'u cymharu â darparwyr sy'n gwneud gwaith trosedd yn unig o dan y cynigion LAT. Am y rheswm hwn, mae'r dadansoddiad cronnus yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig cwmnïau sy'n gwneud gwaith trosedd a gwaith VHCC, er bod nodweddion gwarchoddedig darparwyr gwaith trosedd sydd hefyd yn dal contract sifil wedi cael eu dangos, a'r effeithiau wedi cael eu hystyried.
90. Dengys Tabl G3 nodweddion hil, rhyw a salwch/anabledd darparwyr sy'n gwneud gwaith trosedd yn unig, o'u cymharu â'r rhai sy'n gwneud sifil a/neu waith VHCC. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar berchnogaeth fwyafrifol neu reolaeth fwyafrifol (OMC) y cwmni. Mae'r tabl wedi ei restru yn ôl y graddau y bydd cwmnïau yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau, gyda chwmnïau sy'n gwneud gwaith trosedd a sifil yn cael eu heffeithio lleiaf, a'r rhai sy'n gwneud gwaith trosedd a VHCC fwyaf tebygol o brofi'r golled fwyaf mewn incwm ffioedd.
91. Dengys Tabl G3 bod cyfran uwch o gwmnïau a reolir gan BAME yn gwneud gwaith VHCC a throsedd, ac yn gwneud gwaith sifil, trosedd a VHCC o'u cymharu â'r rhai sydd ond yn gwneud gwaith trosedd. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyfran ychydig yn uwch o gwmnïau a reolir gan ddynion yn gwneud gwaith trosedd a VHCC, o'u cymharu â rhai sy'n gwneud dim ond gwaith trosedd. Mae'r tabl yn dangos bod cyfran ychydig yn uwch o gwmnïau sy'n gwneud gwaith sifil, trosedd a VHCC gydag aelod o'r grŵp o reolwyr sy'n sâl neu'n anabl o'u cymharu â'r grŵpiau eraill, fodd bynnag, gan fod hwn yn grŵp bychan, dylai'r gwahaniaeth gael ei drin gyda gofal. Felly, gallai cwmnïau BAME a chwmnïau a arweinir fwyafrif gwrywaidd gael eu heffeithio'n anghymesur gan effaith gronnus y cynigion trosedd, ynghyd â phenderfyniadau blaenorol a gymerwyd eisoes dan LAT. Rydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Tabl G3: Effaith gronnus ar gyflenwyr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ôl demograffeg y mwyafrif o reolwyr yn seiliedig ar y data contract diweddaraf; 2011/12 ar gyfer trosedd a 2013/14 ar gyfer sifil

Demograffeg o reolaeth perchnogaeth/rheolwyr (OMC)		Darparwyr			
		Darparwyr CDS yn gwneud trosedd a sifil (n=614)*	Darparwyr CDS yn gwneud trosedd yn unig (n=961)*	Darparwyr CDS yn gwneud trosedd, sifil a gwaith VHCC (n=79)*	Darparwyr CDS yn gwneud trosedd a gwaith VHCC (n=154)*
OMC Mwyafrif Ethnig	Gwyn Prydeinig	83%	71%	67%	62%
	BAME	14%	22%	27%	30%
	Wedi rhannu	4%	7%	6%	8%
OMC Mwyafrif Rhywedd	Dynion	71%	70%	75%	77%
	Menywod	11%	13%	13%	12%
	Wedi rhannu	18%	17%	12%	11%
OMC unrhyw sâl/anabl	Na	96%	95%	88%	95%
	Ie	4%	5%	12%	5%

* Mae'r data ar nodweddion gwarchoddedig yn paru â 69% o ddeiliaid contract cyfraith droseddol.

92. Bydd darparwyr troseddol sydd hefyd yn gwneud gwaith adfocatiaeth yn fewnol yn cael eu heffeithio gan y cynnig cystadlaethau trosedd a newidiadau i'r AGFS. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl adnabod y cwmnïau hyn o'r data, nac asesu nodweddion gwarchoddedig Cyfreithwyr-Adfocadau sy'n gweithio mewn cwmnïau o'r fath.

Bargyfreithwyr

93. Mae Bargyfreithwyr sy'n ymgymryd â gwaith AGFS a VHCC yn fwy tebygol o dderbyn incwm ffi uwch na'r rhai sy'n cyflenwi gwaith AGFS yn unig a byddant yn profi effaith gronnus y cynigion. Dengys data 2012/13 bod 11% o Fargyfreithwyr a oedd yn gwneud gwaith o dan AFGS hefyd yn gwneud gwaith VHCC yn ystod y cyfnod hwnnw. Y Bargyfreithwyr hyn sy'n debygol o weld y golled fwyaf mewn incwm o'r cynigion gan y byddant yn gweld gostyngiad yn eu hincwm o'r AGFS a'r gwaith VHCC. Nid yw'r data yn cael ei ddal ar nodweddion gwarchoddedig bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith o dan yr AGFS neu'r rhai sy'n gwneud gwaith VHCC, ac felly nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn ynglŷn â pha grwpiau, os o gwbl, fydd yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Fodd bynnag, wrth asesu effaith gronnus y cynigion AGFS a VHCC, rydym wedi tybio y bydd bargyfreithwyr gwyn gwrywaidd yn cael eu heffeithio fwy na bargyfreithwyr â nodweddion gwarchoddedig eraill ar y sail eu bod yn cael eu gorgynrychioli yn y Bar hŷn, ac ystyrir ei bod yn debygol mai'r bargyfreithwyr hŷn sy'n gwneud gwaith VHCC yn bennaf. Felly gall bargyfreithwyr gwrywaidd a rhai o ethnigrwydd gwyn gael eu heffeithio'n anghymesur. Rydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau, fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod.

Cyfreithwyr-Adfocadau

94. Nid ydym yn cadw data ar nodweddion gwarchoddedig cyfreithwyr-adfocadau ac nid ydym yn ystyried ei fod yn ddibynadwy rhagdybio bod dosbarthiad nodweddion gwarchoddedig ymhlith y grŵp cyfan yn gyson â dosbarthiad nodweddion gwarchoddedig ar gyfer perchnogaeth a rheolaeth cwmnïau cyfreithwyr yn gyffredinol. Efallai y bydd rhai unigolion sydd â pherchnogaeth cwmni cyfreithwyr neu sy'n rheoli cwmni cyfreithwyr yn gyfreithwyr-adfocadau, yn cyflogi cyfreithwyr-adfocadau, neu'r naill na'r llall.
95. Felly, nid yw'n bosibl barnu a fydd cyfreithwyr-adfocadau sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan effaith gronnu ein cynigion ar gaffael a diwygio'r AGFS, trwy ddefnyddio dadansoddiad ystadegol ymgyfreitha troseddol. Fodd bynnag, mae dosbarthiad nodweddion gwarchoddedig ymhlith cyfreithwyr-adfocadau yn debygol o fod yn debyg i fargyfreithwyr. Felly, fel uchod, efallai y bydd cyfreithwyr-adfocadau gwrywaidd a rhai o ethnigrwydd gwyn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n anghymesur. I'r graddau bod unrhyw effeithiau anghymesur yn cael eu gwireddu, rydym yn ystyried eu bod yn cael eu cyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Cleientiaid

96. Fel y nodwyd uchod, nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol ar gleientiaid gan ei fod yn effeithio ar dâl i'r darparwr, nid y grant cymorth cyfreithiol i'r cleient. Gallai cleientiaid gael eu heffeithio os yw'r newidiadau yn cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol, gan arwain at effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau; fodd bynnag, ni chredwn fod hynny'n debygol. O'r herwydd, nid oes effaith gronnu ar gleientiaid.

Cyfiawnhad

97. Fel y nodwyd uchod, gall cwmnïau a arweinir gan BAME a mwyafrif gwrywaidd ac adfocadau gwrywaidd neu rai o ethnigrwydd gwyn gael eu heffeithio'n anghymesur gan effaith gronnu y diwygiadau, gan y gallant ddiodef anfantais drwy golli incwm o fwy nag un o'r diwygiadau. Petai effaith anghymesur ar grwpiau penodol, ni chredwn y byddai'n gymesur nac yn ymarferol gwneud newidiadau pellach er mwyn ymdrin â'r effaith, ac ystyriwn fod y diwygiadau yn cael eu cyfiawnhau wrth fynd ar drywydd yr amcan a nodir uchod. Mae cyflwyno tendro cystadleuol ar gyfer gwasanaethau ymgyfreitha troseddol a diwygio AGFS yn sicrhau bod adnoddau cyhoeddus cyfyngedig yn cyflawni gwerth am arian ac yn cael eu targedu lle maent fwyaf eu hangen, a lle maent yn cael eu cyfiawnhau fwyaf, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a hygredded y cynllun cymorth cyfreithiol.

© Hawlfraint y Goron 2014
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais gan LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk